

Y Pwyllgor Materion Allanol a  
Deddfwriaeth Ychwanegol  
**Y Goblygiadau i Gymru yn Sgil  
Gadael yr Undeb Ewropeaidd**

---

Ionawr 2017



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:  
**[www.cynulliad.cymru/SeneddMADY](http://www.cynulliad.cymru/SeneddMADY)**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol**  
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
**Bae Caerdydd**  
**CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6565**  
E-bost: **[SeneddMADY@cynulliad.cymru](mailto:SeneddMADY@cynulliad.cymru)**  
Twitter: **[@SeneddMADY](https://twitter.com/SeneddMADY)**

© **Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2017**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Y Pwyllgor Materion Allanol  
a Deddfwriaeth Ychwanegol  
**Y Goblygiadau i Gymru yn Sgil  
Gadael yr Undeb Ewropeaidd**

---

Ionawr 2017



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

# Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 28 Mehefin 2016. Ar 15 Medi 2016 cytunwyd ar ei gylch gwaith fel a ganlyn:

(a) archwilio'r goblygiadau i Gymru oherwydd i'r Deyrnas Unedig benderfynu gadael yr Undeb Ewropeaidd a sicrhau bod buddiannau Cymru yn cael eu diogelu yn ystod y broses adael, mewn unrhyw berthynas newydd â'r UE ac yn nhrefniadau gwledydd y DU ar ôl gadael ar gyfer materion perthnasol o ran polisi, cyllid a deddfwriaeth;

(b) cydlynu gweithgarwch ar draws pwyllgorau'r Cynulliad mewn perthynas â phwynt (a) uchod;

(c) cyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol fel y'u nodir yn Rheolau Sefydlog 21.8 i 21.11, gyda newid canlyniadol i gylch gwaith y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol;

(d) ystyried unrhyw fater arall, gan gynnwys deddfwriaeth, a gyfeirir ato gan y Pwyllgor Busnes.

---

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**David Rees AC (Cadeirydd)**  
Llafur Cymru  
Aberafan



**Dawn Bowden AC**  
Llafur Cymru  
Merthyr Tudful a Rhymni



**Michelle Brown AC**  
UKIP Cymru  
Gogledd Cymru



**Suzy Davies AC**  
Ceidwadwyr Cymreig  
Gorllewin De Cymru



**Mark Isherwood AC**  
Ceidwadwyr Cymreig  
Gogledd Cymru



**Steffan Lewis AC**  
Plaid Cymru  
Dwyrain De Cymru



**Jeremy Miles AC**  
Llafur Cymru  
Castell-nedd



**Eluned Morgan AC**  
Llafur Cymru  
Canolbarth a Gorllewin Cymru

---

# Cynnwys

Cyflwyniad.....	5
Rhan 1: Y materion sy'n berthnasol i Gymru .....	7
01. Masnach â'r Undeb Ewropeaidd yn y dyfodol ac economi Cymru .....	8
02. Addysg, ymchwil a sgiliau .....	17
03. Yr amgylchedd, amaethyddiaeth, y môr a physgodfeydd .....	23
04. Iechyd a Gofal Cymdeithasol.....	28
05. Cydraddoldeb a chydlyniant cymunedol .....	34
06. Cronfeydd strwythurol a buddsoddi Ewrop .....	36
07. Pa mor barod yw'r gwasanaethau cyhoeddus.....	38
Rhan 2: Craffu.....	40
08. Ymateb Llywodraeth Cymru .....	40
09. Llais Cymru yn y trafodaethau .....	46
10. Cysylltiadau o fewn y Deyrnas Unedig a chwestiynau cyfansoddiadol .....	53
11. Craffu gan y Cynulliad .....	59
12. Bil Parhad.....	63
13. Y tu hwnt i gonfensiwn Sewel .....	65
Atodiad A - Cylch Gwaith y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol	67
Atodiad B - Rhestr o'r dystiolaeth .....	68



# Cyflwyniad

Ar ôl y refferendwm ynglŷn ag aelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd, sefydlodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y Cynulliad) y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol i ystyried goblygiadau canlyniadau'r refferendwm i Gymru ac i ddiogelu buddiannau Cymru wrth i Lywodraeth y Deyrnas Unedig drafod gadael yr Undeb Ewropeaidd a'i pherthynas â'r Undeb yn y dyfodol.

Penderfynwyd canolbwyntio ein gwaith cychwynol ar geisio barn arbenigwyr drwy gynnal rhaglen o seminarau thematig a chyhoeddi ein cais cyntaf am gyflwyniadau ysgrifenedig. Mae hyn wedi rhoi cyfle inni weld y materion sy'n berthnasol i'r sectorau yng Nghymru.

Ochr yn ochr â'r gwaith hwn, rydym wedi cynnal sesiynau craffu gyda Llywodraeth Cymru ac wedi dechrau ystyried sut y gallai'r Cynulliad ddatblygu ei ddull gweithredu wrth i'r broses adael fynd rhagddi.

Mae'r adroddiad hwn, ein hadroddiad cyntaf, mewn dwy ran. Mae'r rhan gyntaf yn crynhoi'r materion sy'n berthnasol i Gymru sydd wedi codi yn sgil ein gwaith cychwynol. Er y bydd gofyn ystyried rhai o'r materion hyn eto, rydym bellach yn deall yn fwy clir yr heriau dyrys y mae Cymru yn eu hwynebu wrth i'r DU ddynesu at adael yr Undeb Ewropeaidd.

Mae Rhan 1 wedi'i threfnu yn ôl y meysydd a amlygwyd gan yr arbenigwyr y buom yn trafod â hwy yn ein seminarau a chan randdeiliaid yn y dystiolaeth ysgrifenedig a gawsom.

Rydym yn gobeithio y bydd y rhan gyntaf hon o'r adroddiad yn bwynt cyfeirio i lywio'r drafodaeth ehangach am ymadawiad y Deyrnas Unedig o'r Undeb Ewropeaidd ac y bydd yn help i gyfleu'r materion sy'n bwysig i Gymru.

Mae ail ran yr adroddiad yn canolbwyntio ar ymateb Llywodraeth Cymru i'r refferendwm, yr hyn a wyddom am safbwynt Llywodraeth y Deyrnas Unedig a rôl Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae hyn yn cynnwys unrhyw rôl fwy ffurfiol y gall fod yn ofynnol i'r Cynulliad ei chwarae yn y broses adael.

Digwyddodd nifer o ddatblygiadau sylweddol yn ystod y cyfnod pan oeddem yn llunio'r adroddiad terfynol hwn, gan gynnwys araith Prif Weinidog y Deyrnas Unedig yn Lancaster House, cyhoeddi Papur Gwyn Llywodraeth Cymru a dyfarniad y Goruchaf Lys ar achos Erthygl 50. Er inni gyfeirio rhywfaint at y datblygiadau hyn, byddwn yn eu hystyried ymhellach yn ein gwaith yn y dyfodol.



# Argymhellion

**Argymhelliad 1.** Rydym yn cydnabod bod Papur Gwyn Llywodraeth Cymru wedi darparu tystiolaeth ychwanegol i gefnogi safbwynt Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi'r holl dystiolaeth y mae'n seilio'i safbwynt arni gan gynnwys manylion y gwaith sydd wedi'i wneud ar fodelu senarios ym mhob sector a'r astudiaethau y mae wedi'u comisiynu'n fewnol a chan ffynonellau allanol. .... Tudalen 44

**Argymhelliad 2.** Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru ddarparu asesiad manwl o'r newidiadau gweinyddol y mae wedi'u gwneud ers y refferendwm a goblygiadau ariannol y newidiadau hyn. Wrth wneud hyn, dylai fod yn glir am y newidiadau sydd wedi digwydd yn uniongyrchol yn sgil canlyniad y refferendwm a'r newidiadau a oedd eisoes yn yr arfaeth neu ar y gweill. Dylai'r asesiad hwn gynnwys manylion newidiadau yng Nghymru ac yn swyddfa Llywodraeth Cymru ym Mrwsel. .... Tudalen 44

**Argymhelliad 3.** Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru egluro'r rôl y mae'n gweld ei swyddfa ym Mrwsel yn ei chwarae yn y trafodaethau... Tudalen 44

**Argymhelliad 4.** Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru roi ei chofrestr risgiau inni ar gyfer pob maes lle y bydd Brexit yn effeithio ar ei gweithgarwch. .... Tudalen 44

**Argymhelliad 5.** Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru nodi'r camau y mae wedi'u cymryd er 24 Mehefin 2016 i sicrhau ei bod yn cael gafael ar y swm mwyaf posibl o gyllid Ewropeaidd ac yn ei ddefnyddio cyn inni adael yr Undeb Ewropeaidd. .... Tudalen 44

**Argymhelliad 6.** Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru bwysu ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig i'w chynnwys yn llawn wrth lunio'i safbwynt ar gyfer y trafodaethau. Dylai gymryd rhan yn uniongyrchol yn y trafodaethau hynny sy'n ymwneud â meysydd cyfrifoldeb sydd wedi'u datganoli, neu â materion sy'n effeithio ar y meysydd hynny, gan ddefnyddio model Cyngor y Gweinidogion ar gyfer caniatáu i'r gweinyddiaethau datganoledig gymryd rhan. .... Tudalen 48



# Rhan 1: Y materion sy'n berthnasol i Gymru

- 1.** Yn ystod cam cyntaf ein gwaith, penderfynwyd canolbwyntio ar y materion sy'n berthnasol i Gymru. Oherwydd bod y cwestiynau sy'n codi yn sgil canlyniad y refferendwm mor gymhleth ac eang, penderfynwyd cynnal cyfres o seminarau thematig gyda thystion sy'n arbenigwyr er mwyn datblygu dealltwriaeth lefel-uchel o'r prif faterion sy'n wynebu Cymru.
- 2.** Er mwyn cael barn ystod ehangach o randdeiliaid yn ystod y cam cyntaf hwn, gofynnwyd am gyflwyniadau ysgrifenedig.
- 3.** Mae 'Seminarau Brexit', ynghyd â'r dystiolaeth ysgrifenedig a gafwyd, wedi codi amrywiaeth o faterion y bydd gofyn eu hystyried eto wrth i'r broses adael fynd rhagddi.
- 4.** Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn crynhoi'r materion a godwyd. Os oedd unrhyw amheuaeth ar y dechrau, mae'r dystiolaeth a gasglwyd wedi cadarnhau bod y goblygiadau i Gymru yn sgil Brexit yn rhai eang a chymhleth. Bydd Brexit yn effeithio ar lawer o feysydd polisi a bydd hefyd yn codi cwestiynau cyfansoddiadol sylfaenol am ddatganoli a deinameg y pŵer rhwng Llywodraeth y Deyrnas Unedig, y Senedd a'r gweinyddiaethau datganoledig a'u deddfwrfeydd.
- 5.** Defnyddiwyd y dystiolaeth a gawsom hefyd i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif. Bydd ail ran yr adroddiad hwn yn canolbwyntio ar graffu ar Lywodraeth Cymru, rôl y Cynulliad a'r cwestiynau cyfansoddiadol sy'n codi.

# 01. Masnach â'r Undeb Ewropeaidd yn y dyfodol ac economi Cymru

## Crynodeb o'r materion a godwyd

- Roedd y rhan helaethaf o'r dystiolaeth a gawsom yn dangos bod sicrhau mynediad rhydd at y Farchnad Sengl (h.y. dim tariffau a dim rhwystrau di-dariff) yn hanfodol bwysig i economi Cymru.
- Mynegodd tystion y farn bod cyfyngu ar hawl pobl i symud yn rhydd yn debygol o niweidio rhai busnesau, prifysgolion, gwasanaethau cyhoeddus a phrosiectau seilwaith.
- Mae masnachu cynnyrch amaethyddol yn faes arbennig o heriol.

6. Rydym wedi ystyried yr ystod eang o wahanol fathau o berthynas fasnach a allai fod rhwng y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd. Ym Mrwsel, ystyriwyd perthynas y Swistir â'r Undeb Ewropeaidd a thrafodwyd hefyd y Cytundeb Economaidd a Masnach Cynhwysfawr (a elwir yn aml yn 'CETA') â Llywodraeth Canada. Clywsom gan academydd a oedd o blaid masnach rydd unochrog a chan y rheini a fyddai'n anelu at gael cytundeb sydd mor agos â phosibl at y status quo.

7. Nid ydym am ailadrodd y trafodaethau hyn yma a byddem yn hytrach yn cyfeirio darllenwyr sydd â diddordeb yn hyn at ein seminar ar gyfraith a masnach ryngwladol<sup>1</sup> a chrynodeb y Gwasanaeth Ymchwil o wahanol fodolau masnachu yn ei gyhoeddiad *Cymru a'r UE: Beth mae'r Bleidlais i adael yr UE yn ei olygu i Gymru?*

## Masnach â'r Undeb Ewropeaidd

8. Mae Llywodraeth Cymru yn dweud bod mwy na 600 o gwmnïau drwy Gymru yn 2014 wedi allforio nwyddau i'r Undeb Ewropeaidd a'r rheini'n werth dros £5 biliwn. Mae hyn yn cyfateb i 43% o gyfanswm y nwyddau a allforiwyd. At hynny, mae'n dweud bod 500 o gwmnïau o wledydd eraill yr Undeb Ewropeaidd yn gweithredu yng Nghymru gan ddarparu mwy na 57,000 o swyddi.

9. Canfu'r Ganolfan Economeg ac Ymchwil Busnes (CEBR – Mawrth 2014) fod 4 miliwn o swyddi uniongyrchol ac anuniongyrchol yn y Deyrnas Unedig yn dibynnu ar allforion i'r Undeb Ewropeaidd. Mae oddeutu 200,000 o'r swyddi hyn yng Nghymru, tua 14% o'r gweithlu.

10. Mae Ystadegau Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar gyfer 2015 (Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi) ynghylch allforio nwyddau o Gymru i'r Undeb Ewropeaidd yn dangos mai cynhyrchion dur oedd ychydig o dan 15% o'r cyfanswm, mai peiriannau ac offer trafndiaeth oedd tua 25% ac mai allforion petrolewm a deunyddiau cysylltiedig oedd ychydig o dan 17% o'r cyfanswm. Roedd bwyd ac anifeiliaid byw'n 5% o gyfanswm y nwyddau a allforiwyd i'r Undeb Ewropeaidd o Gymru yn 2015 (er bod 90.7% o gyfanswm allforion bwyd a diod Cymru yn 2014 wedi mynd i'r Undeb Ewropeaidd a dim ond 9.3% wedi mynd i wledydd y tu allan iddo).

<sup>1</sup> Gweler Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol, 19 Medi 2016.

<sup>2</sup> Gwasanaeth Ymchwil a Gwasanaeth Cyfreithiol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, *Cymru a'r Undeb Ewropeaidd: Beth mae'r bleidlais i adael yr Undeb Ewropeaidd yn ei olygu i Gymru?*, Mehefin 2016

## Economi Cymru

**11.** Roedd Gwerth Ychwanegol Crynswth (GYC) Cymru yn 3.3% o gyfanswm GYC y Deyrnas Unedig yn 2015. Cyfanswm GYC Cymru oedd £55.8bn yn 2015. GYC Cymru y pen oedd £18,002, sef 71% o gyfartaledd y Deyrnas unedig, yr isaf ymhlith y gwledydd datganoledig a rhanbarthau Lloegr.<sup>3</sup>


**12.** Gweithgynhyrchu yw'r trydydd diwydiant mwyaf yng Nghymru sy'n 16% o gyfanswm GYC Cymru, sef £8.9bn. Amaethyddiaeth sy'n gyfrifol am 0.7% o gyfanswm y GYC, sef £0.4bn. Mae amaethyddiaeth yn cyfrannu mwy at GYC Cymru nag y mae'n ei gyfrannu at gyfartaledd cenedlaethol y Deyrnas Unedig.<sup>4</sup>

## Gweithgynhyrchu

**13.** Bydd StatsCymru yn cyhoeddi setiau data am y GYC rhanbarthol fesul diwydiant. Mae'r data'n dangos mai'r sector gweithgynhyrchu yng Nghymru'n sy'n gwneud y cyfraniad mwyaf at Werth Ychwanegol Crynswth o blith gwledydd y Deyrnas Unedig.<sup>5</sup>

Rhanbarth	GYC (£ miliwn) 2015	Canran o gyfanswm y GYC
Y Deyrnas Unedig	166,868	10.1
Lloegr	138,645	9.7
Yr Alban	14,261	11.2
Cymru	8,935	16.0
Gogledd Iwerddon	5,027	14.6

Ffynhonnell: StatsCymru



Ffynhonnell: StatsCymru

**14.** Mae proffil gweithgynhyrchu'n sylweddol yng Nghymru. Mae sawl safle gweithgynhyrchu mawr yng Nghymru yn gyfrifol am un ddolen mewn cadwyn werth fyd-eang e.e. peiriant car neu aden awyren. Pan fydd yr un rhan hon o gynnyrch terfynol mwy o faint yn cael ei chynhyrchu, mae'n debygol o olygu y bydd gofyn mewnforio ac allforio cydrannau (ac yna'u mewnforio eto weithiau). Os rhoddir tariffau ar waith, bydd y costau'n cael eu lluosu. Mae hyn yn golygu bod safleoedd

<sup>3</sup> Swyddfa Ystadegau Gwladol, Statistical Bulletin: Regional gross value added (income approach), 15 Rhagfyr 2016

<sup>4</sup> StatsCymru, Gwerth Ychwanegol Crynswth yn ôl ardal a diwydiant, 15 Rhagfyr 2016

<sup>5</sup> StatsCymru, Gwerth Ychwanegol Crynswth yn ôl ardal a diwydiant, 15 Rhagfyr 2016

gweithgynhyrchu sy'n gysylltiedig â chadwyni gwerth byd-eang o dan anfantais gystadleuol o'u cymharu â'r rheini sy'n gweithredu o fewn y Farchnad Sengl.

**15.** Pan ymddangosodd ger ein bron ar 21 Tachwedd, rhoddodd yr Athro Gerald Holtham ddarlun inni i ddangos pa mor ddarniog a chydgysylltiedig yw'r gadwyn gyflenwi yn y sector moduro:

---

“BMW is assembling Minis in Oxford and it's shipping half of the bits in and then shipping the car out. So, there's a lot of to-ing and fro-ing, and it would require reorganisation of supply chains [if we were] facing an 8 per cent tariff or whatever it is. The problem in the car sector is that so much of the value is imported before you assemble the car that it's all very well saying, 'Well, you know, it's only 8 per cent tariff', but if the value added in the UK is only 25 per cent of the total, 8 per cent is a third of the local value added.

[...] that then starts to dwarf even the effect of a 20 per cent devaluation of the pound. It's those broken supply chains that make it complicated. That would give, I'm sure, say, the German motorcar industry an interest in saying, 'Let's not rock the boat, let's try and keep this going', but you've got to get 23 countries to sign up. Spain and Slovakia will be eyeing up those car plants saying, 'If they come out of the UK, they'll probably come here.' So, whether they would be so well disposed, I don't know. I think that is one of the difficulties.”<sup>6</sup>

---

**16.** Gan esbonio y byddai gadael yr Undeb Ewropeaidd yn cynyddu cost masnachu, dywedodd yr Athro Swati Dhingra o'r London School of Economics:

---

“On average, the tariff rates that the European Union charged to countries that are members of the WTO were 6%, 18% and 3.3% in these sectors [plastics, meat processing and aircrafts manufacturing] in 2016. If the UK leaves the EU and is unable to negotiate duty-free access to the Single Market immediately, these tariff rates would apply to goods shipped from the UK to the EU.

Importantly, as UK and EU standards diverge, the non-tariff barriers to doing business would increase costs further. For example, the US is not part of the EU and faces substantial non-tariff costs when shipping transport equipment to the EU. These are estimated to be the equivalent of a tariff rate of 22% (Dhingra et al 2016). Leaving the EU would increase the tariff and non-tariff barriers that Welsh businesses would face when selling to the EU. This in turn would reduce trade and investment in Wales, leading to a contraction in manufacturing activity and jobs.”<sup>7</sup>

---

**17.** I egluro ymhellach, mae ffigurau Sefydliad Masnach y Byd yn dangos mai'r doll a godid ar gyfartaledd ar losin gan yr Undeb Ewropeaidd oedd 20%, 11.4% ar ddillad, 33.5% ar gynnyrch llaeth, 15.0% ar gynnyrch anifeiliaid, a 2.6% ar weithgynhyrchion.<sup>8</sup>

---

<sup>6</sup> Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol, 21 Tachwedd 2016 c.11-12

<sup>7</sup> IOB 01 London School of Economics, Dr Swati Dhingra

<sup>8</sup> Sefydliad Masnach y Byd, Tariff profile for the European Union, Cyrchwyd 20 Ionawr 2016

**18.** Awgrymodd yr Athro Holtham hefyd y gallai fod angen newid polisi economaidd o ganolbwyntio ar ddenu mewnfuddsoddi a thuag at ysgogi twf cwmnïau sy'n canolbwyntio ar y farchnad gartref.<sup>9</sup>

## Masnach amaethyddol

**19.** Ar hyn o bryd, mae oddeutu 90% o allforion bwyd a diod Cymru yn mynd i weddill yr Undeb Ewropeaidd.<sup>10</sup> Mae amaethyddiaeth yn chwarae rhan fwy yn economi Cymru nag y mae yn y Deyrnas Unedig drwyddi draw.


**20.** Cyhoeddodd Adran y Deyrnas Unedig dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ('DEFRA') **Agriculture in the United Kingdom 2015**, sy'n grynodedb o ganfyddiadau'n deillio o'r Arolwg Amaethyddol a Garddwriaethol a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2015.<sup>11</sup> Mae'r data'n golygu bod modd cymharu nifer y swyddi amaethyddol yn holl ranbarthau'r Deyrnas Unedig.

**21.** Mae'r tabl hwn yn dangos cyfanswm nifer y swyddi yn y sector amaethyddol yng Nghymru ac yn y Deyrnas Unedig. Mae'n dangos hefyd pa mor ddibynnol ar y sector amaethyddol y mae economi Cymru o'i chymharu ag economi'r Deyrnas Unedig.

Categoriâu	Cymru	Y Deyrnas Unedig
Cyfanswm ffermwyr, partneriaid, cyfarwyddwyr a phartneriaid priod	41,619	294,000
Cyfanswm gweithwyr fferm	16,700	183,000
Cyfanswm	58,319	476,000
Cyfran amaethyddiaeth o gyflogaeth	4.07%	1.42%

Source: DEFRA

**22.** Mae'r data sydd wedi'u cynnwys yng nghyhoeddiad DEFRA yn golygu bod modd cymharu cyfran y swyddi amaethyddol fel canran o gyfanswm y swyddi ym mhob rhanbarth yn y Deyrnas Unedig.




<sup>9</sup> Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Arbennig, 21 Tachwedd 2016 c.26

<sup>10</sup> IOB 26 NFU Cymru

<sup>11</sup> DEFRA, Agriculture in the United Kingdom, 2015, 2016

**23.** GYC amaethyddiaeth yng Nghymru yw oddeutu £0.4bn sy'n 0.69% o gyfanswm GYC Cymru ac mae'n £8.5bn yn y Deyrnas Unedig, sy'n 0.51% o gyfanswm GYC y Deyrnas Unedig.



**24.** Bydd masnachu ym maes amaethyddiaeth yn wynebu heriau penodol y tu allan i'r Farchnad Sengl. Nid yw'n dod o dan gytundeb yr Ardal Economaidd Ewropeaidd sy'n golygu y bydd angen i'r Deyrnas Unedig, ni waeth pa fath o Brexit fydd, drafod cytundeb ar wahan ar gyfer cynnyrch neu fasnach amaethyddol o dan reolau Sefydliad Masnach y Byd.<sup>12</sup>

**25.** Mae'r tariffau ar gyfer cynnyrch amaethyddol yn uchel. Er enghraifft, tariff y wlad a ffefrir fwyaf yn yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer celanedd wŷn ffres yw 12.8% a €1,713 y dunnell. Mae trafodaethau masnach yn y maes hwn yn rhai anodd. Enghreifftiau diweddar o hyn yw trafodaethau Rownd Doha, CETA a TTIP. Roedd amaethyddiaeth yn destun anghydfod ym mhob achos.

**26.** Wrth adael yr Undeb Ewropeaidd a'r Farchnad Sengl, bydd costau ychwanegol (ar ben costau unrhyw dariffau) yn gysylltiedig â masnachu mewn marchnadoedd amaethyddol. Er enghraifft, cost weinyddol cydymffurfio â rheolau ynglŷn â tharddiad a gweithdrefnau ar gyfer asesu cydymffurfiaeth, ailffurfweddu cynnyrch, labelu a phe cynnu. Amcangyfrifir y bydd y costau ychwanegol hyn oddeutu 5% i 8% o werth y cynnyrch.<sup>13</sup> Er bod Cytundebau Masnach Rydd yn fodd o sicrhau bod y costau hynny cyn ised â phosibl dyma un maes y mae'n arbennig o anodd cytuno yn ei gylch. Dywedodd yr Athro Alan Matthews wrthym :

“within this new generation of free-trade agreements there are ways of trying to address these regulatory trade barriers, but they're difficult and they're time consuming.”<sup>14</sup>

**27.** Petai'r Deyrnas Unedig yn gorfod dibynnu ar reolau Sefydliad Masnach y Byd, byddai'n rhaid iddi gydymffurfio â rheolau rhyngwladol ynglŷn â chymorth i ffermydd. Mae'r cymorth i ffermydd sydd

<sup>12</sup> Mae ein seminar ar gyfraith a masnach ryngwladol yn cynnig trafodaeth fuddiol am reolau Sefydliad Masnach y Byd o ran sut y gallai'r rheini fod yn berthnasol i gyd-destun Cymru. Gweler Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol, 19 Medi 2016.

<sup>13</sup> IOB 04 Yr Athro Alan Matthews, Athro Emeritus Agweddau Amaethyddol Polisi Amaethyddol Ewropeaidd, Prifysgol Dilyn.

<sup>14</sup> Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol, 19 Medi 2016 c.129

ar gael ar hyn o bryd yn dod o dan 'flwch oren' o safbwynt Sefydliad Masnach y Byd (h.y. i'w gostwng), ond nid oes sicrwydd a fyddai'r rhain yn berthnasol i'r Deyrnas Unedig ar ôl Brexit. Awgrymodd yr Athro Swinbank na fyddai'r cynlluniau taliadau uniongyrchol presennol, na chynlluniau amgylcheddol o bosibl yn gydnaws â threfniadau Sefydliad Masnach y Byd.<sup>15</sup>

**28.** Mae'r Athro Fiona Smith yn cytuno â'r farn hon. Mae'r Athro Smith hefyd yn awgrymu y byddai angen rhwng tair a phum mlynedd o leiaf cyn y byddai modd cytuno ar gytundebau masnach â gwledydd eraill ar ôl Brexit:

---

“Countries like Australia and the United States have indicated that they want to negotiate trade deals with the UK government post-BREXIT, but favourable agri-trade deals with these countries is unrealistic for at least the next three to five years.”<sup>16</sup>

---

**29.** O dan y senario hwn, byddai'n rhaid i'r Deyrnas Unedig ddibynnu ar reolau Sefydliad Masnach y Byd am nifer o flynyddoedd.

**30.** Yn ein cyfarfod ar 7 Tachwedd 2016, lleisiodd y Prif Weinidog bryder mawr am effaith Brexit ar y sector amaethyddol yng Nghymru.

---

“I think the most difficult sector will prove to be agriculture, where tariffs are sky high, because, if you look, for example, at most trade deals, including that with Norway, agriculture, if I remember, is excluded. Trading blocs are particularly protective of their farming industries, so I do have a particular concern for farming and the export market we have, particularly for Welsh lamb, because history tells us that farming has tended not to do well if a trade-deal approach is used.”<sup>17</sup>

---

**31.** Awgrymodd y Prif Weinidog fod gwahaniaethau rhwng arferion ffermio gwledydd y Deyrnas Unedig yn cymhlethu hyn eto fyth:

---

“The other issue that's complicated in farming is the four different nations often have four different priorities within farming. So, we all have different priorities... For me, it's a question of making sure that all agricultural produce from all parts of the UK are all able to access the market on the same terms.”<sup>18</sup>

---

**32.** Gan siarad yn ystod trafodaeth banel yng Nghynhadledd Ffermio Rhydychen ar 4 Ionawr 2017, adeiladodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig ar sylwadau i'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig ar 14 Medi 2016,<sup>19</sup> gan bwysleisio'r ffaith bod meysydd allweddol polisi amaethyddol wedi'u datganoli i Gymru er 1999, ond y gallai fod angen fframwaith ar lefel y Deyrnas Unedig a oedd yn parchu datganoli mewn meysydd penodol.

**33.** Un mecanwaith a ddefnyddir yn aml mewn Cytundebau Masnach Rydd yw Cwotâu ar gyfer Cyfraddau Tariffau. Cytunir ar faint o nwyddau a gaiff fynd i mewn i farchnad heb orfod talu dim tariff mewnforio neu dariff ar gyfradd isel. Er enghraifft, mae Seland Newydd wedi cytuno ar drefniant fel

---

<sup>15</sup> IOB 02 Yr Athro Alan Swinbank, Athro Economeg Amaethyddol, Prifysgol Reading.

<sup>16</sup> IOB 03 Yr Athro Fiona Smith, Prifysgol Warwick

<sup>17</sup> Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol, 7 Tachwedd 2016 c.91

<sup>18</sup> Ibid c.96

<sup>19</sup> Cofnod y Trafodion, 14 Medi 2016 [para. 18]



hyn â'r Undeb Ewropeaidd ar gyfer cig oen a chig gafr Seland Newydd. Caniateir i 228,254 tunnelli o gig oen Seland Newydd ddod i mewn i farchnad yr Undeb Ewropeaidd heb dalu tariff. Ar ôl i'r tunnelli hynny gael eu mewnfario, bydd yn rhaid talu'r tollau mewnfario llawn a godir ar bob gwlad arall ar unrhyw fewnfario ychwanegol.

**34.** Nid yw dyfodol cytundebau fel hyn yn glir, o ran cytundeb yr Undeb Ewropeaidd â Seland Newydd ar ôl i'r Deyrnas Unedig adael nac o ran unrhyw gytundeb masnach yn y dyfodol rhwng y Deyrnas Unedig a Seland Newydd.

**35.** Mae'n bwysig nodi ein bod wedi ystyried materion sy'n berthnasol i fasnachu amaethyddol o safbwynt y diwydiant, yn hytrach nag o safbwynt y defnyddiwr.

## Ein barn ni

**36.** Mae gweithgynhyrchu yn chwarae mwy o ran yn economi Cymru nag y mae mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig a'r brif farchnad ar gyfer gweithgynhyrchwyr Cymru yw'r Undeb Ewropeaidd. Mae gorfodi tariffau'n fygythiad sylweddol i'r sector hwn, yn enwedig i weithgynhyrchwyr sy'n gweithredu o fewn cadwyni gwerth byd-eang.

**37.** Mae bygythiadau sylweddol i fasnachu cynnyrch amaethyddol, yn enwedig os bydd yn rhaid i'r Deyrnas Unedig ddbynnu ar reolau Sefydliad Masnach y Byd am gyfnod (sy'n debygol i bob golwg). Nid yw ffermwyr Cymru am weld amaethyddiaeth (sy'n bwysig i Gymru o safbwynt diwylliannol ac economaidd) ar ei cholled wrth fynd ar drywydd amcanion ehangach yn y Deyrnas Unedig, megis mynediad at farchnadoedd gwasanaethau.<sup>20</sup>

## Hawl pobl i symud yn rhydd

**38.** Dywedodd sawl sefydliad fod angen sicrhau bod modd parhau i gael gafael ar lafur o Ewrop, er enghraifft, y Ffederasiwn Bwyd a Diod<sup>21</sup> a Sefydliad Peirianwyr Sifil Cymru.<sup>22</sup>

**39.** Soniodd y Ffederasiwn Bwyd a Diod am gyfraniad ei aelodau yng Nghymru:

“In Wales, FDF’s members account for £4.3 billion in turnover – which has increased by 55 per cent over the last five years. This is significantly more than Welsh manufacturing in general, which grew by 11 per cent. The food and drink industry contributes almost £1.5 billion to the Welsh economy, support more than 22,000 jobs in Wales, contribute more than £302 million in Welsh exports, and invest more than £4 million in innovation, research and development. The productivity performance of Welsh food and drink manufacturing has increased steadily since 1997 and remains higher per employee than in the UK as a whole.”<sup>23</sup>

**40.** Soniodd hefyd am weithlu ei aelodau yn y Deyrnas Unedig:

“Around 29% of the UK’s food and drink manufacturing workforce are non-UK EU nationals – almost 116,000 workers. They bring with them talent, spending power, flexibility and huge diversity. While we continue to take steps to develop

<sup>20</sup> IOB 26 NFU Cymru

<sup>21</sup> IOB 22 Y Ffederasiwn Bwyd a Diod a Chymdeithas Diodydd Meddal Prydain

<sup>22</sup> IOB 15 Sefydliad Peirianwyr Sifil Cymru

<sup>23</sup> IOB 22 Y Ffederasiwn Bwyd a Diod a Chymdeithas Diodydd Meddal Prydain

home-grown talent through ambitious graduate and apprenticeship programmes, EU workers provide a highly valued solution to our skills gap. Our sector's growth potential was already under pressure due to our ageing workforce, with the industry needing to recruit a further 130,000 workers over the next decade."<sup>24</sup>

**41.** Mewn gweithdy a gynhaliwyd gennym yng nghyffiniau Wreccsam ar 28 Tachwedd 2016 clywsom hefyd gan randdeiliaid o fyd busnes a diwydiant eu bod yn poeni am eu gallu i barhau i gael gafael ar lafur o Ewrop.

**42.** Barn y Prif Weinidog oedd bod cyfyngu ar ryddid pobl i symud yn llai o flaenoriaeth i Gymru nag yw sicrhau mynediad dilyffethair at y Farchnad Sengl. Byddwn yn manylu mwy am hyn wrth ystyried ymateb Llywodraeth Cymru yn ail ran yr adroddiad hwn.

**43.** Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) yn cyhoeddi adroddiad, Population of the United Kingdom by Country of Birth and Nationality, sydd wedi'i seilio ar yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth. Arolwg o'r boblogaeth, nid o fewnfudo yw hwn. Cyhoeddwyd y ffigurau diweddaraf, ar gyfer 2015, ar 25 Awst 2016.<sup>25</sup>

**44.** Yn y tabl isod, dangosir yr amcangyfrifon ar gyfer y boblogaeth nad yw'n hanu o Brydain yn ôl cenedligrwydd yn awdurdodau lleol Cymru yn 2016:

Ardal	Cyfanswm y Boblogaeth	Amcangyfrif o'r boblogaeth o'r Undeb Ewropeaidd	Miloedd	
			Amcangyfrif o'r boblogaeth o'r tu allan i'r Undeb Ewropeaidd	Undeb Ewropeaidd
Ynys Môn	70	1	0~	
Gwynedd	121	2	3	
Conwy	114	3	1	
Sir Ddinbych	94	1	0~	
Sir y Fflint	153	4	0~	
Wreccsam	136	8	1	
Powys	131	2	1	
Ceredigion	74	1	1	
Sir Benfro	122	2	c	
Sir Gaerfyrddin	183	6	3	
Abertawe	240	5	9	
Castell-nedd Port Talbot	140	1	1	

<sup>24</sup> IOB 22 Y Ffederasiwn Bwyd a Diod a Chymdeithas Diodydd Meddal Prydain

<sup>25</sup> Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, *Population of the UK by Country of Birth and Nationality: 2015*, 25 Awst 2016

Pen-y-bont ar Ogwr	139	2	0~
Bro Morgannwg	126	2	2
Caerdydd	353	11	20
Rhondda Cynon Taf	236	2	2
Merthyr Tudful	59	2	0~
Caerffili	179	2	1
Blaenau Gwent	69	1	c
Tor-faen	91	0~	2
Sir Fynwy	91	1	1
Casnewydd	146	6	3
<b>Cymru</b>	<b>3,066</b>	<b>64</b>	<b>53</b>
<b>Y Deyrnas Unedig</b>	<b>64,265</b>	<b>3,159</b>	<b>2,408</b>

c = nid yw'r ffigurau ar gael oherwydd rheolau datgelu<sup>26</sup>

0~ = wedi'i dalgrynnu i sero

Ffynhonnell: Cynhyrchwyd gan Wasanaeth Ymchwil Cynulliad Cenedlaethol Cymru gan ddefnyddio data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol.

**45.** Dylid nodi mai amcangyfrifon yw'r uchod sydd wedi'u seilio ar yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth - nid oes cofrestr genedlaethol ar gael o genedligrwydd preswylwyr.

**46.** Clywsom bryderon hefyd am beth fydd statws dinasyddion yr Undeb Ewropeaidd sy'n gweithio yng Nghymru ar hyn o bryd, yn enwedig ym maes Addysg Uwch, Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Mae rhagor o wybodaeth am y sectorau hyn mewn adrannau diweddarach yn yr adroddiad hwn.

### Ein barn ni

**47.** Rydym yn sylweddoli bod barn pobl am fudo o fewn yr Undeb Ewropeaidd yn ffactor a ddylanwadodd ar ganlyniad y refferendwm. Bydd cyfyngu ar allu dinasyddion yr Undeb Ewropeaidd i weithio yn y Deyrnas Unedig ar ôl Brexit yn arwain at ganlyniadau niweidiol i lawer o wasanaethau cyhoeddus, rhai busnesau a phrosiectau seilwaith yn y dyfodol yng Nghymru. Rhaid ystyried yn ofalus sut mae lliniaru'r canlyniadau hyn wrth ddatblygu polisi mewnfudo ar gyfer y dyfodol yn y Deyrnas Unedig.

<sup>26</sup> Pwrpas hyn yw gwarchod cyfrinachedd y data sy'n cael eu cadw. Mae rhagor o wybodaeth am y methodolegau a ddefnyddir i reoli trefniadau datgelu i'w gweld ar wefan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Ewch i [www.ons.gov.uk](http://www.ons.gov.uk) a chwilio am 'disclosure control'.

## 02. Addysg, ymchwil a sgiliau

### Crynodeb o'r materion a godwyd

- Mae angen egluro statws myfyrwyr a staff academiaidd yr Undeb Ewropeaidd mewn Sefydliadau Addysg Uwch ac Addysg Bellach.
- Rydym wedi dibynnu ar Gronfeydd Strwythurol ac Arian Banciau Buddsoddi Ewrop ar gyfer seilwaith cyfalaf, dysgu seiliedig ar waith a datblygu sgiliau. Mae angen rhoi trefniadau ar waith i wneud iawn am yr arian hwn.
- Pwysleisiwyd pwysigrwydd:
  - cymryd rhan mewn rhaglenni ymchwil a symudedd yn y dyfodol;
  - partneriaethau strategol ac chysylltiadau byd-eang;
  - gwledydd yn cydnabod cymwysterau addysgol ei gilydd (a pharhau i gymryd rhan yn y cynlluniau sydd ar waith eisoes yn yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer hyn).

### Arian strwythurol yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer Addysg Uwch yng Nghymru

**48.** Mae arian yr Undeb Ewropeaidd yn bwysig i'r sector, a Chronfeydd Strwythurol yr Undeb Ewropeaidd yn cael eu gweld yn ffynhonnell bwysig i helpu i lenwi'r bwlch cyllido, ac i alluogi buddsoddiadau pwysig na fyddent wedi digwydd oni bai am hynny.<sup>27</sup> Enghraifft dda o hyn yw Campws Gwyddoniaeth Bae Abertawe, lle cafwyd buddsoddiad ar y cyd o Gronfeydd Strwythurol yr Undeb Ewropeaidd â chyllid Banc Buddsoddi Ewrop.

**49.** Enghraifft arall yw'r cymorth gan COFUND (rhan o Horizon 2020) ar gyfer cynllun i Gryfhau Capasiti Ymchwil Rhyngwladol yng Nghymru, a gyflwynwyd ar y cyd gan Lywodraeth Cymru ac Addysg Uwch yng Nghymru. Bydd rhyw €10m o gyllid yr Undeb Ewropeaidd ar gael ar gyfer cyfres o gymrodoriaethau rhyngwladol i brifysgolion Cymru.

**50.** Mae Swyddfa Addysg Uwch Cymru ym Mrwsel (WHEB) yn crisialu hyn:

“These initiatives complement major strategic developments within the universities such as the research institutes at Cardiff University and campus developments at Aberystwyth, Bangor and Swansea Universities. These key investments, supported by ESIF, EIB, government and industry will provide the infrastructure to facilitate increased participation in Horizon2020 and capitalise on grant capture.”<sup>28</sup>

### Arian yr Undeb Ewropeaidd, Ymchwil a Buddsoddi

**51.** Ar 3 Hydref 2016, cynhaliwyd ein hail Seminar Brexit gyda'r Athro Colin Riordan, Is-Ganghellor Prifysgol Caerdydd a'r Athro Iwan Davies, Dirprwy Is-Ganghellor Prifysgol Abertawe.

<sup>27</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor Menter a Busnes y Pedwerydd Cynulliad, Ymchwiliad i Horizon 2020, 2012

<sup>28</sup> Swyddfa Addysg Uwch Cymru Brwsel, *Tystiolaeth ysgrifenedig i sesiwn y Pwyllgor Menter a Busnes gyda phrifysgolion Cymru*, 21 Hydref 2015

**52.** Roedd dwy agwedd i'r materion a godwyd gan yr Athro Riordan a'r Athro Davies. Gellir eu galw'n 'bobl' ac yn 'gyllido'.

**53.** Yn gryno, y materion y mae angen rhoi sylw iddynt yng nghyswllt 'pobl' yw:

- statws gwladolion yr Undeb Ewropeaidd nad ydynt yn hanu o'r Deyrnas Unedig sydd ar hyn o bryd yn astudio yng Nghymru neu sy'n bwriadu dechrau astudio yng Nghymru cyn i'r Deyrnas Unedig adael yr Undeb Ewropeaidd;
- statws gwladolion yr Undeb Ewropeaidd nad ydynt yn hanu o'r Deyrnas Unedig sy'n gweithio ym mhrifysgolion Cymru;
- y gallu i recriwtio mor rhydd ag sy'n bosibl o'r tu mewn i'r Undeb Ewropeaidd a'r tu hwnt (o ran myfyrwyr a staff).

**54.** O ran y staff sy'n cael eu cyflogi ar hyn o bryd gan brifysgolion yng Nghymru, dywedodd yr Athro Riordan:

---

“We would certainly want to argue very strongly, as I'm sure many people in this country would—I've not heard anything very much to the contrary from any side, to be honest—that those colleagues who are presently in this country and presently employed by us should be able to remain on the same basis as they are now and that, whatever their status is, it's converted into something that equates to leave-to-remain and residents' and working rights.”<sup>29</sup>

---

**55.** O ran cronfeydd strwythurol, dywedodd yr Athro Riordan:

---

“... in the research and education space for the UK, we pay in about £5.4 billion and receive about €8.8 billion back. Again, that's a gap that will need to be filled.”<sup>30</sup>

---

**56.** Cyfeiriodd yr Athro Riordan am y gostyngiadau sylweddol sydd wedi bod yn y buddsoddiadau cyfalaf i brifysgolion yn y blynyddoedd diwethaf.

---

“I think it's worth noting that one of the biggest changes that has taken place since the coalition changed the system and introduced tuition fees and so on and so forth—or higher tuition fees and student loans—is that, and this part is often not noted, we've had a big reduction in capital investment available to universities. So, we used to, in Cardiff, receive maybe £14 million to £15 million a year in capital grants. That's now £2 million or £3 million, and everything else we have to make up ... One big element of that is European Union structural funds”<sup>31</sup>

---

**57.** Ac edrych tua'r dyfodol, crybwyllodd yr Athro Riordan a'r Athro Davies y dylid ystyried ffurfiau amgen ar gydweithredu rhyngwladol a sefydlu asiantaeth i hwyluso allsymud i fyfyrwyr y Deyrnas Unedig. Clywsom farn debyg gan Brifysgol Bangor yn ystod ein gweithdy i randdeiliaid yng nghyffiniau Wrecsam ar 28 Tachwedd 2016.

---

<sup>29</sup> Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2016, c.11

<sup>30</sup> Ibid c.14

<sup>31</sup> Ibid c.13

## Cymwysterau

**58.** Cododd Cyngor y Gweithlu Addysg gwestiynau am y rôl y gallai ei chwarae yn y dyfodol yn asesu statws proffesiynol dinasyddion yr Undeb Ewropeaidd sy'n ceisio sicrhau cydnabyddiaeth i'w cymwysterau addysgu yng Nghymru. Daw'r rôl hon o Gyfarwyddeb yr UE 2005/36/EC.

---

“The Council will require clarification from the Home Office as to whether this scheme will continue to apply following Britain’s exit from the EU. Depending on the decision, the EWC and Welsh Government may need to develop alternative arrangements for persons from Europe who wish to have their existing qualifications recognised in order to teach in Wales, rather than retraining. In this regard, it is worth acknowledging that qualified teachers from countries outside the EU who wish to teach in Wales on a permanent basis already need to gain a teaching qualification here and are unable to have their existing qualifications recognised.”<sup>32</sup>

---

**59.** Cyfeiriodd Colegau Cymru at y bygythiad i allu sefydliadau Cymru i gystadlu a chadw'u henw da pe bai'r drefn cydnabod cymwysterau'n dod i ben wrth adael yr Undeb Ewropeaidd. Ar hyn o bryd mae Colegau Cymru yn Bwynt Cyswllt Cenedlaethol ar gyfer tri o gynlluniau cydnabod cymwysterau'r Undeb Ewropeaidd.<sup>33</sup>

## Mynediad i raglenni symudedd a chaffael sgiliau a phrofiad rhyngwladol

**60.** Roedd nifer o'r ymatebion ysgrifenedig, gan gynnwys y rheini gan Colegau Cymru, Undeb y Prifysgolion a'r Colegau, Prifysgol Caerdydd, Prifysgolion Cymru a'r NUS, yn galw am barhau i allu manteisio ar Erasmus+.a Horizon 2020<sup>34</sup>

**61.** Galwai Prifysgol Caerdydd a Phrifysgolion Cymru am ystyried polisiau domestig, megis datblygu fframwaith newydd ar gyfer rhaglen allsymud.<sup>35</sup>

**62.** Mae nifer o wledydd y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd yn gallu manteisio ar Erasmus + a Horizon 2020. Barn yr Athro Riordan am hyn oedd:

---

“They have absolutely no influence on what happens. I've also heard directly from a Commission official—and this was before the vote even, but it was along the lines that, ‘If you do remain part of it, you will only get out what you pay in. You won't get more.’ So, the present imbalance in our favour, which is essentially based on the excellence [...] of our science and our research—it would no longer work in our favour.”<sup>36</sup>

---

**63.** Barn yr Athro Riordan am y posibilrwydd o raglen allsymud newydd oedd:

---

“One thing that the UK has never had is a well-funded student mobility programme for all UK students. [...] Maybe there's an opportunity there to say, ‘Actually, what we really need is an outward-mobility agency for the UK that is

---

<sup>32</sup> IOB 06 Cyngor y Gweithlu Addysg

<sup>33</sup> IOB 14 Colegau Cymru

<sup>34</sup> Gweler IOB 14 Colegau Cymru, IOB 23 Undeb y Prifysgolion a'r Colegau, IOB 28 Prifysgol Caerdydd, IOB 29 Prifysgolion Cymru ac IOB 35 NUS

<sup>35</sup> Gweler IOB 28 Prifysgol Caerdydd ac IOB 29 Prifysgolion Cymru

<sup>36</sup> Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol, 3 Hydref 2016 c.32

well funded and provides grants to our students or, perhaps, helps organise work placements, or that pays for their travel or upkeep'. It could be a real opportunity, actually, to do something that we've never been able to do in this country before."<sup>37</sup>

## Statws gwladolion yr Undeb Ewropeaidd

**64.** Roedd Prifysgolion Cymru yn cydnabod cyfraniad 'enfawr' myfyrwyr yr Undeb Ewropeaidd i Gymru, ac roedd ymatebwyr eraill hefyd yn cydnabod hyn o safbwynt ariannol a diwylliannol.<sup>38</sup>

**65.** Amcangyfrifir bod myfyrwyr yr Undeb Ewropeaidd ar hyn o bryd yn cyfrannu o leiaf £24m i brifysgolion Cymru<sup>39</sup>, ac mai cyfanswm yr effaith ar Gymru y gellir ei phriodoli i incwm gan fyfyrwyr o'r Undeb Ewropeaidd oedd £47m. Bydd myfyrwr o'r Undeb Ewropeaidd sy'n astudio yng Nghymru ar gyfartaledd yn cynhyrchu £19.7k i Gymru, £9.8k o Werth Ychwanegol Crynswth Cymru a 0.19 o swyddi cyfwerth ag amser llawn. Bydd myfyrwyr sy'n astudio yng Nghymru yn creu effaith ychwanegol yng ngweddill y Deyrnas Unedig hefyd. Mae'r amcangyfrifon hyn yn debygol o fod yn rhai ceidwadol yn ôl CCAUC.

**66.** Mae rhai'n poeni am y statws a fydd gan fyfyrwyr yr Undeb Ewropeaidd, ac yn benodol am statws carfan 2018/19. Mae Prifysgol Cymru wedi galw am gynnig gwarant i'r myfyrwyr hyn (fel sydd wedi'i chynnig i'r ddwy garfan flaenorol).<sup>40</sup>

**67.** Mae cyflwyniad ysgrifenedig Prifysgol Caerdydd yn gwneud y pwyntiau a ganlyn:

"12. Mae Prifysgol Caerdydd yn gymuned ryngwladol sy'n gwerthfawrogi'r myfyrwyr a'r staff sy'n dod o bob cwr o'r byd i weithio ac astudio gyda ni Mae 17% o'n staff academiaidd a 5% o'n myfyrwyr yn dod o'r UE (mae 10% o'n myfyrwyr ymchwil dod o'r UE). Mae'r amrywiaeth hon yn meithrin creadigrwydd ac arloesed, ac mae'n rhan hollbwysig o'n diwylliant.

13. Hoffem weithio gyda Llywodraethau Cymru a'r DU i roi mwy o sicrwydd i'n staff a'n myfyrwyr o'r UE. Y prif feysydd y ceir ansicrwydd yn eu cylch yw eglurder ynglŷn â chymorth ariannol a ffioedd i fyfyrwyr o'r UE, ac eglurder ynglŷn â rheolau mewnfudo i fyfyrwyr a staff."<sup>41</sup>

**68.** Mae'r Brifysgol hefyd yn argymhell y dylai unrhyw gytundeb yn y dyfodol rhwng y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd:

"provide assurances that all existing EU staff will be able to remain in the UK following the UK's exit from the EU, as well as allow Universities to recruit the best staff to work here"<sup>42</sup>

<sup>37</sup> Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol, 3 Hydref 2016 c.71

<sup>38</sup> IOB 29 Prifysgolion Cymru

<sup>39</sup> Ar ffurf ffioedd a chyfraniadau eraill wedi'i seilio ar 5,645 o fyfyrwyr sy'n hanu o'r UE sy'n astudio yng Nghymru gan ddefnyddio data HESA 2013/14 (The Economic Impact of International Students in Wales, UnisWales)

<sup>40</sup> IOB 28 Prifysgol Caerdydd

<sup>41</sup> IOB 28 Prifysgol Caerdydd

<sup>42</sup> Ibid



**69.** Mae Prifysgolion Cymru yn edrych tua'r dyfodol ac yn gweld rôl i Lywodraeth Cymru o ran gwneud Cymru yn gyrchfan ddeniadol i staff dawnus sy'n gweithio mewn prifysgolion ar ôl i'r Deyrnas Unedig adael yr Undeb Ewropeaidd.

---

“Regardless of the final settlement between the EU and the UK, it is important that the Welsh Government continues to publicly affirm the value placed on EU students and their contribution to Welsh universities, invests in supporting future recruitment overseas through promotional activity, and provides reassurances to current EU students that they will remain welcome in Wales following its departure from the EU”<sup>43</sup>

---

## Parhad y cyllid

**70.** Mae ymateb Parc Gwyddoniaeth Menai'n canolbwyntio ar lefel y cyllid a ddaw gan yr Undeb Ewropeaidd i'r gymuned ymchwil yng Nghymru (drwy gyfrwng cronfeydd strwythurol, Interreg a Horizon 2020). Mae'n gofyn i'r Trysorlys ddyrannu cyllid ychwanegol i Gymru i wneud iawn am y ffynonellau hyn ar ôl i'r Deyrnas Unedig adael yr Undeb Ewropeaidd. At hynny, mae'n credu y dylai Cymru drafod â'r Deyrnas Unedig er mwyn sicrhau trefniant tebyg i drefniant Cymdeithas Masnach Rydd Ewrop er mwyn sicrhau'r lefelau uchaf o gronfeydd yr Undeb Ewropeaidd ar ôl Brexit.<sup>44</sup>

**71.** Mae Colegau Cymru, Prifysgol Cymru a Phrifysgolion Cymru yn argymhell parhau i gymryd rhan yn ffrydiau cyllid ymchwil Ewrop neu, os nad oes modd gwneud hynny, bod polisïau a chyllid cenedlaethol ar gael i wneud iawn amdanynt.<sup>45</sup>

**72.** Roedd Prifysgol Caerdydd yn galw hefyd an gadarnhad ynghylch statws y Cytundebau i Ddinasoedd Caerdydd ac Abertawe yn sgil ymwneud sefydliadau addysg uwch â'r rhain a'r cyllid Ewropeaidd a ragwelid ar gyfer hyn.<sup>46</sup>

**73.** Yn ein cyfarfod ar 7 Tachwedd 2016, roedd y Prif Weinidog yn cydnabod bod addysg uwch ac ymchwil yn flaenoriaeth. Soniodd am dri pheth: (i) nifer y myfyrwyr o'r Undeb Ewropeaidd; (ii) cyllid o'r Undeb Ewropeaidd; a (iii) sicrhau nad yw Cymru yn cael ei gweld yn gyrchfan lle nad oes croeso i'r gymuned academiaidd ryngwladol. Dywedodd hefyd na fyddai Brexit yn effeithio ar Arolwg Diamond a'i gasgliadau.

**74.** Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn edrych ar fodolau amgen i gyllido cynlluniau dysgu gydol oes a chyflogadwyedd sydd wedi bod yn cael cymorth ariannol gan yr Undeb Ewropeaidd.<sup>47</sup>

## Ein barn ni

**75.** Cawsom ein calonogi o weld y ffordd gadarnhaol y mae tystion yn wynebu ac yn mynd i'r afael â'r heriau sydd o'u blaenau ac o ddysgu eu bod eisoes yn cynllunio ar gyfer eu dyfodol y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd.

**76.** Y mater sy'n prysur bwysu, yn ôl yr hyn a welwn ni, yw bod angen egluro statws dinasyddion yr Undeb Ewropeaidd sy'n astudio ac yn gweithio ym Mhrifysgolion a Cholegau Cymru. Rydym yn ymwybodol o ymrwymiad Prif Weinidog y Deyrnas Unedig i fynd i'r afael â

---

<sup>43</sup> IOB 29 Prifysgolion Cymru

<sup>44</sup> IOB 09 Parc Gwyddoniaeth Menai

<sup>45</sup> Gweler IOB 14 Colegau Cymru, IOB 28 Prifysgol Caerdydd ac IOB 29 Prifysgolion Cymru

<sup>46</sup> IOB 28 Prifysgol Caerdydd

<sup>47</sup> Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol, 7 Tachwedd 2016 c.105-111

hyn cyn gynted ag y bo modd, ac yn gobeithio y bydd yn llwyddo yn hynny o beth. Rydym am bwysleisio bod hyn yn fater o'r pwys mwyaf i Gymru mewn llawer o sectorau.

**77.** Mae dibyniaeth wedi bod ar Gronfeydd Strwythurol ac ar Arian Banciau Buddsoddi Ewrop i gefnogi'r seilwaith cyfalaf a dysgu seiliedig ar waith a datblygu sgiliau. Bydd angen i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig sicrhau bod trefniadau ar gael i wneud iawn am y ffynonellau cyllido hyn.

**78.** Pwysleisiwyd pwysigrwydd cymryd rhan mewn rhaglenni ymchwil a rhaglenni symudedd yn y dyfodol. Er ein bod yn gweld rhinwedd yn hyn (ac mae'n ymddangos y byddai'n bosibl yn gyfnewid am gyfraniad i'r gyllideb) awgrymodd yr Athro Riordan hefyd y dylid sefydlu asiantaeth allsymud yn y Deyrnas Unedig, un debyg i honno sydd yn yr Almaen ac yn yr Unol Daleithiau. Credwn y dylid ymchwilio i hyn er mwyn gallu datblygu model o'r fath ar ôl i'r Deyrnas Unedig adael yr Undeb Ewropeaidd.

**79.** Mae cydgydnabod cymwysterau addysgol (a pharhau i gymryd rhan yn y cynlluniau sydd ar waith ar hyn o bryd yn yr Undeb Ewropeaidd) yn bwysig a rhaid rhoi sylw iddo yn y trafodaethau gadael.

## 03. Yr amgylchedd, amaethyddiaeth, y môr a physgodfeydd

### Crynodeb o'r materion a godwyd

Mae pryderon:

- y gallai camau i ddiogelu'r amgylchedd leihau yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd;
- na fydd mecanweithiau gwneud iawn, heb gostau, ar gael bellach;
- y gallai fframweithiau gweithredu a gorfodi wanhau;
- y gallai mesurai i ddiogelu'r amgylchedd ddod yn ddarniog.

Mae materion sy'n berthnasol i bolisi amaethyddol yn y dyfodol yn cael eu hystyried gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig. Mae'r Pwyllgor wedi dweud:

- Mai yng Nghymru y dylid gwneud penderfyniadau ynglŷn â pholisïau ar gyfer amaethyddiaeth, yr amgylchedd a datblygu gwledig gan eu bod yn feysydd lle mae'r cymhwysedd wedi'i ddatganoli.
- Y dylid cynnal y lefelau cyllido sy'n dod o Ewrop ar hyn o bryd a'u darparu gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig yn y dyfodol.
- Y dylai Llywodraeth Cymru ddiogelu arian ychwanegol i'w fuddsoddi mewn polisïau ar gyfer amaethyddiaeth, yr amgylchedd a datblygu gwledig.

### Polisi amaethyddol

**80.** Y tu hwnt i'r pryderon sylweddol ynglŷn â masnach amaethyddol a drafodwyd uchod, soniwyd hefyd am bryderon ynghylch pa fath o fuddsoddi mewn rheoli tir a fydd yn y dyfodol a sut y caiff y pŵer ym maes polisi amaethyddol ei fantoli rhwng y Deyrnas Unedig a Chymru.

**81.** O ddyraniad Polisi Amaethyddol Cyffredin 2014-2020 y Deyrnas Unedig, mae Cymru yn cael 8.96% o gronfeydd Colofn 1 a 13.7% o gronfeydd Colofn 2. Yn ein cyfarfod ar 7 Tachwedd 2016, dywedodd y Prif Weinidog:

“There are some areas of expenditure where we wouldn't want a Barnett share anyway. Agriculture is a prime example of it. If we had a Barnett share of spending on agriculture, we'd see significant cut in funding to Welsh farming. We've always been funded on the basis of the number of animals that we have, not people, which is fortunate because I think it's about five times higher as a result of that.”<sup>48</sup>

<sup>48</sup> Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol, 8 Tachwedd 2016 c.67

**82.** Mae ymchwiliad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig<sup>49</sup> yn tynnu i ben, sef yr ymchwiliad i ddyfodol polisiau amaethyddol a datblygu gwledig yng Nghymru.<sup>50</sup>

**83.** Rhoddodd Cadeirydd y Pwyllgor hwnnw, Mark Reckless AC, ddatganiad i'r Cynulliad ar 9 Tachwedd 2016.<sup>51</sup> Galwodd ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig i gadw addewidion yr ymgyrch gadael i gynnal yr un lefel o gyllid ar ôl Brexit. Galwodd hefyd ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig i gadarnhau y dylid gwneud penderfyniadau ynglŷn â pholisiau ym maes amaethyddiaeth, yr amgylchedd a datblygu gwledig yng Nghymru gan eu bod yn feysydd lle mae'r cymhwysedd wedi'i ddatganoli.

**84.** Galwodd Mr Reckless ar Lywodraeth Cymru i amddiffyn unrhyw gyllid ychwanegol gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig i'w fuddsoddi yn y meysydd hyn.

## Ein barn ni

**85. Mae amaethyddiaeth yn bryder o bwys i Gymru.**

**86. Nid ydym am ddyblygu gwaith gwerthfawr y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig yn y maes hwn.**

**87. Bydd y dystiolaeth a gawsom ar gael i'r Pwyllgor hwnnw. Rydym yn edrych ymlaen at gasgliad yr ymchwiliad sydd ar y gweill ganddo a byddwn yn ystyried a ddylem ofyn am ragor o dystiolaeth am y maes hwn bryd hynny.**

## Newid yn yr Hinsawdd

**88.** Ym mis Hydref 2016, cyhoeddodd y Pwyllgor Newid Hinsawdd nodyn briffio *Meeting Carbon Budgets - Implications of Brexit for UK climate policy*.<sup>52</sup>

**89.** I grynhoi, dyma rai o brif bwyntiau'r Pwyllgor Newid Hinsawdd:

- Bydd angen polisiau newydd ynglŷn â'r hinsawdd yn y Deyrnas Unedig er mwyn lleihau allyriadau pan na fydd y polisiau y cytunwyd arnynt o'r blaen drwy'r Undeb Ewropeaidd yn berthnasol ragor.
- Mae'r cyllidebau carbon a bennir gan y Deyrnas Unedig o leiaf yr un mor heriol ag ymrwmiadau'r Undeb Ewropeaidd i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd. Rhaid parhau i gyflawni'r rhain ar ôl i'r Deyrnas Unedig adael yr Undeb Ewropeaidd.
- Nid yw polisiau presennol yr Undeb Ewropeaidd megis y Polisi Amaethyddol Cyffredin yn targedu allyriadau nwyon tŷ gwydr yn benodol - dylai fframwaith y Deyrnas Unedig sicrhau cysylltiad mwy agos rhwng polisiau ffermio a lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr.
- Mae System Masnachu Allyriadau'r Undeb Ewropeaidd yn cynnwys allyriadau yn sgil cynhyrchu trydan a diwydiant trwm ac mae'n gosod un pris ar gyfer carbon i'r rheini sy'n rhan o'r system. Rhaid cadw at fwriad y cyllidebau pan fydd y Deyrnas Unedig yn gadael yr Undeb Ewropeaidd (h.y. ehangu cynhyrchu pŵer carbon isel).

<sup>49</sup> Mae hafan y Pwyllgor ar gael yma: <http://www.assembly.wales/cy/bus-home/committees/Pages/Committee-Profile.aspx?cid=444>

<sup>50</sup> Mae manylion yr ymchwiliad hwn ar gael yma

<http://www.senedd.cynulliad.cymru/mglIssueHistoryHome.aspx?Ild=15876>

<sup>51</sup> Cofnod y Trafodion, 9 Tachwedd 2016, 15:37 tan 16:21

<sup>52</sup> Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, *Meeting Carbon Budgets - Implications of Brexit for UK climate Policy*, Hydref 2016

## Ein barn ni

**90.** Rydym yn ymwybodol o waith y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig yn craffu ar newid yn yr hinsawdd<sup>53</sup> a byddwn yn trosglwyddo'r wybodaeth hon i Gadeirydd y Pwyllgor hwnnw.

## Cadwraeth natur (ar fôr ac ar dir)

**91.** O safbwynt yr academyddion y clywsom ganddynt a Chyrff Anllywodraethol yng Nghymru sy'n ymwneud â'r Amgylchedd, mae'n flaenoriaeth inni sicrhau bod cyfraith amgylcheddol bresennol yr Undeb Ewropeaidd yn parhau (neu'n cael ei throsglwyddo i gyfraith ddomestig).

**92.** Mae rhai'n poeni y bydd gadael yr Undeb Ewropeaidd yn golygu y bydd y safonau amgylcheddol yn is ac y caiff yr uchelgais a bennwyd ar lefel Ewropeaidd ei anghofio.<sup>54</sup> Enghreifftiau yw gwireddu'r uchelgais sy'n sail i Gyfarwydeb Fframwaith y Strategaeth Forol a'r Cyfarwyddbau Natur.<sup>55</sup>

**93.** Codwyd mater cadw safleoedd gwarchoddedig Ewropeaidd (megis Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig) mewn cyfraith ddomestig, ynghyd ag awgrymu y gallai'r dull o'u rheoli a'u gorfodi fod yn llai rhagofalus ar ôl Brexit.<sup>56</sup>

**94.** Er bod Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi dweud y bydd yn trosglwyddo cyfraith Ewropeaidd i gyfraith ddomestig drwy gyfrwng yr hyn a elwir yn 'Fil Diddymu Mawr' nid yw'r manylion yn glir eto ynglŷn â sut y bydd yn gwneud hyn.

**95.** Gan ymateb i benderfyniad diweddar y Comisiwn Ewropeaidd i beidio ag ailagor y Cyfarwyddbau Natur, ysgrifennodd Martin Harper (Cyfarwyddwr Cadwraeth yr RSPB) gan grynhoi rhai o'r cwestiynau sydd heb eu hateb eto ynghylch sut y mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn bwriadu mynd i'r afael â hyn:

"[...] there are still many questions to be answered about the Great Repeal Bill. Can all EU environmental regulation be successfully converted into domestic law, and how will it be enforced? The European Court of Justice has been such a powerful force to ensure compliance with these laws, so who will play this role in the UK after we leave the EU?"

The guidance and financial support mechanisms available at EU level, along with the monitoring and enforcement processes, have also played a key role in driving nature conservation progress in the UK. To date we have relied on these, and they have helped the UK Government deliver their nature conservation commitments. Replacing these will be a significant challenge."<sup>57</sup>

**96.** Clywsom bryderon hefyd am y goblygiadau sylweddol i wyddor môr ac i waith monitro oherwydd bod hynny'n gymharol ddrud a bod angen asedau cyfalaf mawr yn aml ar gyfer y gwaith. Mae ansicrwydd o hyd am sut y bydd bylchau yn y cyllid (yn sgil colli cyllid Ewrop) yn cael eu llenwi yn y

<sup>53</sup> Gweler <http://www.assembly.wales/cy/newhome/Pages/newsitem.aspx?itemid=1639>

<sup>54</sup> IOB 38 Grŵp Cyngori ar Bysgodfeydd Môr Cymru

<sup>55</sup> Y Gyfarwydeb Adar a Chynefinoedd a'r Gyfarwydeb Rhywogaethau

<sup>56</sup> Cofnod y Trafodion, 31 Hydref 2016, c.194, 205-207

<sup>57</sup> Harper, Martin, Post Blog yr RPSB, *The EU Nature Directives are safe - so what next for protection of UK wildlife?*, 8 Rhagfyr 2016

dyfodol a sut y byddai'r cyllid yn cael ei ddsbarthu yn y Deyrnas Unedig; ac awgrymwyd y byddai hyn yn effeithio ar brifysgolion a chwmnïau Ymchwil a Datblygu.<sup>58</sup>

## Canllawiau, fframweithiau gweithredu a gorfodi, a gwneud iawn

- 97.** Mae colli'r canllawiau a gynigir gan y Comisiwn Ewropeaidd, fframweithiau gweithredu a gorfodi a'r mecanweithiau gwneud iawn rhad a ddarperir gan sefydliadau Ewrop, yn faterion y bydd angen rhoi sylw iddynt.
- 98.** Ar hyn o bryd, mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn gorfodi cyfraith Ewrop drwy gyfeirio materion at Lys Cyfiawnder Ewrop. Nid yw'r achwynydd yn gorfod talu dim o'r costau am hyn, a gall Dinasyddion Ewrop a/neu sefydliadau godi materion â'r Comisiwn Ewropeaidd er mwyn iddo ymchwilio iddynt.
- 99.** Mae'n anodd gweld sut y gallai system o'r fath weithio yn y Deyrnas Unedig ar ôl Brexit. Oni fyddai trefniadau newydd yn cael eu datblygu, byddai'n rhaid i unigolion preifat neu sefydliadau ddiybennu ar broses adolygu barnwrol y Deyrnas Unedig a chychwyn achosion ar eu traul bersonol eu hunain.
- 100.** Fodd bynnag, ni fyddant yn gallu herio llywodraeth y Deyrnas Unedig ei hun (na'r un o'r llywodraethau datganoledig ychwaith) am fethu â gorfodi'r safonau hynny.
- 101.** Gellid gwneud iawn am hyn, pe bai Llywodraeth y Deyrnas Unedig, yn y 'Bil Diddymu' (neu mewn man arall) yn gorfodi dyletswydd arni hi ei hun i sicrhau bod holl gyfraith yr Undeb Ewropeaidd sy'n berthnasol i'r Deyrnas Unedig adeg gadael yn cael ei chadw. Gellid gosod yr un ddyletswydd ar y llywodraethau datganoledig, mewn perthynas â meysydd polisi sydd wedi'u datganoli ac yng nghyswllt eu tiriogaethau hwythau.
- 102.** Awgrymwyd y gellid sefydlu Llys Amgylcheddol arbenigol,<sup>59</sup> i lenwi'r bwloch a adewid gan y Comisiwn a Llys Cyfiawnder Ewrop. Fodd bynnag, ni fyddai hwn ond yn gorfodi'r gyfraith fel y mae yn y Deyrnas Unedig ac nid yw'n ateb o hyd y cwestiwn ynglŷn â diogelu'r amgylchedd yn y dyfodol.
- 103.** Mae prosesau megis yr Asesiad Amgylcheddol a'r Asesiad o'r Effaith ar yr Amgylchedd yn darparu fframwaith llym ar gyfer barnu i ba raddau mae pethau'n cael eu gweithredu a'u gorfodi. Cyfeiriodd yr Athro Cowell at y perygl o wanhau'r fframweithiau hynny ac y byddai colli'r gallu i fynd ar drywydd gwneud iawn heb gostau'n cyfrannu at y gwanhau hwnnw.<sup>60</sup>

## Cytuniadau y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd a'r angen am ddull gweithredu trawsffiniol

- 104.** Pwysleisiodd Cyswllt Amgylchedd Cymru bwysigrwydd cadw'r cytundebau rhyngwladol presennol, megis y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol, Y Confensiwn ar Wlypdiroedd o Bwys Rhyngwladol (RAMSAR), y Confensiwn Tirweddau Ewropeaidd a thargedau newid yn yr hinsawdd.<sup>61</sup>
- 105.** Mae angen cydlyniant a chysondeb ar draws ffiniau o fewn y Deyrnas Unedig ac ar draws ffiniau rhyngwladol pan fydd gofyn gwarchod natur, rheoli adnoddau ar y cyd a mynd i'r afael â llygredd trawsffiniol. Mae'r ymadrodd sy'n cael ei ailadrodd yn aml, sef nad yw aer, dŵr a bywyd gwyllt yn

<sup>58</sup> Cofnod y Trafodion, 31 Hydref 2016, c. 241, 242, 245

<sup>59</sup> Cofnod y Trafodion, 31 Hydref 2016, c.126

<sup>60</sup> Cofnod y Trafodion, 31 Hydref 2016, c.108

<sup>61</sup> IOB 20 Cyswllt Amgylchedd Cymru

parchu ffiniau, yn dangos bod gofyn sicrhau rhywfaint o gysondeb rhwng safonau Ewrop, y Deyrnas Unedig a Chymru. Mae hyn yn arbennig o wir yn amgylchedd y môr.<sup>62</sup>

## Pysgodfeydd

**106.** Mae fflyd pysgota Cymru yn wahanol o ran ei faint ac o ran ei gymeriad i fflyd gweddill y Deyrnas Unedig, gan fod 91% o'r cychod yn llai 10 metr o hyd<sup>63</sup> ac mai pysgod cregyn yw helfa'r rhan fwyaf o fflyd Cymru. Nid oes cwotâu ar gyfer pysgod, ac maent yn dod o dan reolaeth yr Aelod Wladwriaethau (Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am Barth Cymru). Am y ddau reswm hyn, nid yw polisi'r Undeb Ewropeaidd, er enghraifft dyrannu cwotâu o dan y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin, yn effeithio gymaint ar bysgodfeydd Cymru ag y mae ar y Deyrnas Unedig drwyddi draw.<sup>64</sup> Wedi dweud hynny, gall fod cyfleoedd i gyflwyno trefniadau rheoli newydd a newid y drefn ar gyfer dyrannu a dosbarthu cwotâu yn y dyfodol a allai fod o fudd i fflyd Cymru, megis cael gafael ar gwota ar gyfer stociau masnachol ym Mharth Cymru.<sup>65</sup>

**107.** O ran masnach, bydd y rhan fwyaf o'r pysgod cregyn sy'n cael eu glanio yng Nghymru yn cael eu hallforio i'r Undeb Ewropeaidd. Dyma faes arall lle y byddai parhau i sicrhau mynediad 'dilyffethair' at yFarchnad Sengl yn rhywbeth y gellid ei ystyried yn flaenoriaeth.

**108.** Ar hyn o bryd mae Cronfa Pysgodfeydd Morol Ewrop yn cynnig cymorth ar gyfer amrywiaeth o weithgareddau gan gynnwys casglu data, camau gorfodi ym maes pysgodfeydd ac arferion pysgota cynaliadwy. Yn y rownd gyllido bresennol (2014-2020), dyrannwyd €19.7 miliwn i Gymru. Bydd angen i Lywodraeth Cymru ystyried sut y gwneir iawn am hyn. Clywsom gefnogaeth o blaid sicrhau bod unrhyw gronfa a sefydlid yn lle hyn yn canolbwyntio o'r newydd ar reoli stociau pysgod mewn ffordd gynaliadwy.<sup>66</sup>

---

<sup>62</sup> IOB 38 Grŵp Cyngori ar Bysgodfeydd Môr Cymru

<sup>63</sup> Sefydliad Rheoli'r Môr, Adroddiad Ystadegau Blynyddol Pysgodfeydd Morol y Deyrnas Unedig 2014, Diweddarwyd ddiwethaf 21 Medi 2016

<sup>64</sup> Cofnod y Trafodion, 10 Hydref 2016, c.187

<sup>65</sup> Cofnod y Trafodion, 10 Hydref 2016 c.205, 210

<sup>66</sup> Cofnod y Trafodion, 10 Hydref 2016 c.259



## 04. Iechyd a Gofal Cymdeithasol

### Crynodeb o'r materion a godwyd

- Mae ansicrwydd ynghylch y data am wladolion yr Undeb Ewropeaidd sy'n gweithio yn y sectorau hyn, yn enwedig mewn proffesiynau sydd heb eu cofrestru ac mewn swyddi sgiliau isel;
- Mae rhai yn poeni am yr effaith ar gynllunio'r gweithlu os cyfyngir ar hawl pobl i symud yn rhydd, a hefyd bod angen cynllunio'n well ar gyfer gofynion hyfforddi/sgiliau yn y dyfodol yn y gwasanaethau cyhoeddus;
- Mae angen sicrhau bod modd manteisio o hyd ar ymchwil feddygol a chydweithio'n rhyngwladol;
- Pwysigrwydd asiantaethau'r Undeb Ewropeaidd megis Asiantaeth Meddyginiaethau Ewrop a'r angen i barhau i gymryd rhan yn hyn;
- Mae angen sicrhau bod fframwaith ar gyfer cydnabod cymwysterau proffesiynol yn cael ei gadw;
- Manteision gweithredu ar lefel yr Undeb Ewropeaidd ym maes iechyd y cyhoedd.

### Iechyd y Cyhoedd

**109.** Mae'r bygythiadau trawsffiniol i iechyd yn arbennig o berthnasol. Un o asiantaethau'r Undeb Ewropeaidd yw Canolfan Atal a Rheoli Clefydau Ewrop a'i nod yw cryfhau amddiffynfeydd Ewrop rhag y bygythiadau sy'n codi i iechyd pobl yn sgil clefydau heintus. Bydd y Ganolfan yn cydweithio â chyrrff amddiffyn iechyd cenedlaethol drwy Ewrop i gryfhau a datblygu'r oruchwyliaeth dros glefydau ar draws y cyfandir ynghyd â systemau rhybuddio cynnar. Drwy gydweithio ag arbenigwyr ledled Ewrop, bydd y Ganolfan yn cronni'r wybodaeth am iechyd yn Ewrop, er mwyn datblygu barn wyddonol awdurdodol am fygythiad clefydau heintus sy'n bodoli eisoes a rhai sy'n ymddangos o'r newydd.

**110.** Mynegwyd sawl pryder am yr effaith bosibl ar rwydweithiau iechyd y cyhoedd yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd. Dywedodd BMA Cymru:

“The EU has a significant role in ensuring a cross-border approach to important public health issues, such as preventing pandemics and reciprocal access to healthcare through the European Health Insurance Card (EHIC). It is important, whether or not the UK remains part of the EEA, that an agreement to facilitate such cross-border cooperation remains.”<sup>67</sup>

**111.** Mae Coleg Brenhinol yr Anesthetyddion yn cefnogi'r safbwynt hwn,<sup>68</sup> a Choleg Brenhinol y Meddygon (Cymru) yn yr un modd, gan ddadlau bod angen camau diogelu cyfatebol neu gryfach hyd yn oed yn lle fframweithiau presennol yr Undeb Ewropeaidd y seilir y warchodaeth i iechyd arnynt.<sup>69</sup> Mae ymateb Cydffederasiwn GIG Cymru yn dadlau o blaid trafod parhau i sicrhau mynediad i

<sup>67</sup> IOB 31 BMA Cymru

<sup>68</sup> IOB 25 Coleg Brenhinol yr Anesthetyddion

<sup>69</sup> IOB 8 Coleg Brenhinol y Meddygon (Cymru)

fecanweithiau cydlynu'r Undeb Ewropeaidd, oherwydd eu bod yn credu y byddai'n anos i'r Deyrnas Unedig fynd i'r afael ar ei phen ei hun â bygythiadau sydd yn eu hanfod yn croesi ffiniau gwledydd.<sup>70</sup>

**112.** Yn eu hymateb, roedd BMA Cymru a'r Cydffederasiwn hefyd yn dweud eu bod yn credu y dylai'r Deyrnas Unedig gadw'r rheoliadau iechyd cyhoeddus sy'n deillio o Gyfarwyddbau'r Undeb Ewropeaidd sydd wedi'u cynnwys yng nghyfraith y Deyrnas Unedig; ac mae Coleg Brenhinol yr Anesthetyddion hefyd yn dadlau o blaid cadw'r camau diogelu hyn.<sup>71</sup>

## Rheoleiddio meddyginiaethau

**113.** Asiantaeth Meddyginiaethau Ewrop sy'n gyfrifol am werthuso gwyddonol, goruchwyllo a monitro diogelwch meddyginiaethau i'w defnyddio yn yr Undeb Ewropeaidd. Mae'r Asiantaeth yn cydweithio'n agos ag awdurdodau rheoleiddio cenedlaethol Aelod Wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd ac mae'n gyfrifol am asesu ceisiadau am drwyddedu cyffuriau yn yr Undeb Ewropeaidd ac awdurdodi marchnata i Aelod Wladwriaethau, Gwlad yr Ia, Liechtenstein a Norwy.

**114.** Roedd nifer fawr o'r ymatebion yn mynegi pryder mawr am hyn. Mae'r rhain yn cynnwys ymateb Cynghrair Genetig y Deyrnas Unedig,<sup>72</sup> Ymchwil Canser y Deyrnas Unedig<sup>73</sup>, Coleg Brenhinol yr Anesthetyddion,<sup>74</sup> Coleg Brenhinol y Meddygon (Cymru)<sup>75</sup> a Chyfadrannau Iechyd y Cyhoedd y Deyrnas Unedig;<sup>76</sup> ac maent yn sôn am y buddion i'r Deyrnas Unedig yn sgil yr un fframwaith rheoleiddio ac awdurdodi presennol sydd ar waith yn yr Undeb Ewropeaidd a'r dylanwad y mae hyn yn ei roi i'r Deyrnas Unedig ym mhroses gwneud penderfyniadau Asiantaeth Meddyginiaethau Ewrop. Mae'r ymatebion hefyd yn dadlau bod angen parhau i gysoni'r drefn â fframweithiau rheoleiddio'r Undeb Ewropeaidd ar gyfer meddyginiaethau a dyfeisiau meddygol, ac mae'r Cydffederasiwn yn dweud:

“Having a single EU regulatory framework has allowed new health technologies to be brought more quickly to the market for the benefit of patients. For example, pharmaceutical companies can make new medicines available everywhere in the EU through the single centralised marketing authorisation procedure provided by the European Medicine Agency, instead of having to apply for authorisation in each individual member state.”<sup>77</sup>

**115.** Mae BMA Cymru hefyd yn ategu'r pryderon hyn ac yn galw am ddull pedair gwlad o ymdrin ag effaith gadael yr Undeb Ewropeaidd ar reoleiddio meddyginiaethau.<sup>78</sup>

## Mynediad cleifion i ofal iechyd

**116.** Mae deddfwriaeth gyffredin ar waith yn Ardal Economaidd Ewrop sy'n rhoi hawliau i ddinasyddion y gwledydd sy'n rhan ohoni fanteisio ar y gwahanol wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol sydd ar gael. Mae hyn yn cynnwys Cerdyn Yswiriant Iechyd Ewrop sy'n rhoi'r hawl i bobl gael gofal meddygol a ddarperir gan wladwriaeth pan dreulir cyfnod dros dro yn un o wledydd eraill yr Undeb Ewropeaidd, ac yng ngweddill Ardal Economaidd Ewrop. Drwy Gyfarwydddeb 2011/24/EU cyflwynwyd cyfle hefyd i ddinasyddion wneud cais am ad-daliad am driniaeth gofal iechyd, ar yr amod

<sup>70</sup> IOB 10 Cydffederasiwn GIG Cymru

<sup>71</sup> IOB 31 BMA Cymru, IOB 10 Cydffederasiwn GIG Cymru ac IOB 25 Coleg Brenhinol yr Anesthetyddion

<sup>72</sup> IOB 41 Cynghrair Genetig y Deyrnas Unedig

<sup>73</sup> IOB 33 Ymchwil Canser y Deyrnas Unedig

<sup>74</sup> IOB 25 Coleg Brenhinol yr Anesthetyddion

<sup>75</sup> IOB 8 Coleg Brenhinol y Meddygon (Cymru)

<sup>76</sup> IOB 45 Cyfadrannau Iechyd y Cyhoedd y Deyrnas Unedig

<sup>77</sup> IOB 10 Cydffederasiwn GIG Cymru

<sup>78</sup> IOB 31 BMA Cymru

eu bod yn bodloni meini prawf penodol, a hynny mewn unrhyw aelod wladwriaeth ar yr un sail ag y byddent yn cael triniaeth yn eu gwladwriaeth gartref.<sup>79</sup>

**117.** Roedd yr angen i sefydlu systemau effeithiol ar ôl gadael i sicrhau bod pobl yn dal i allu cael gofal iechyd yng ngwledydd eraill yr Undeb Ewropeaidd yn destun pryder mawr y cyfeiriwyd ato mewn nifer o ymatebion, gan gynnwys ymateb Cyfadran Iechyd y Cyhoedd y Deyrnas Unedig, Coleg Brenhinol Llawfeddygon Caeredin, Coleg Brenhinol yr Anesthetyddion a Chyddfederasiwn GIG Cymru.<sup>80</sup>

**118.** Yn yr un modd, mae ymatebion Cyfadran Iechyd y Cyhoedd y Deyrnas Unedig, Ymchwil Canser y Deyrnas Unedig a Cholegau Brenhinol y Meddygon (Cymru) ac adroddiad yr Anesthetyddion yn sôn am allu cleifion y Deyrnas Unedig i fanteisio ar dreialon clinigol ledled yr Undeb Ewropeaidd.<sup>81</sup> Mae Cynghrair Genetig y Deyrnas Unedig ac Ymchwil Canser y Deyrnas Unedig yn canolbwyntio'u sylw'n benodol ar y mater hwn o ran ei oblygiadau ar gyfer cyflyrau prinnach, sy'n credu eu bod wedi cael proffil uwch y sgil aelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd. Mae ymateb Canser y Deyrnas Unedig yn dweud:

“To set up and run pan-EU trials efficiently and effectively, it is important that the legislation, guidance and standards governing their approval and conduct is aligned across member states. Such trials are especially important for rarer cancers and childhood cancers, where trials are often only feasible because they are able to recruit from a large pool of patients across the EU.”<sup>82</sup>

**119.** Roedd Ymchwil Canser y Deyrnas Unedig hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd y manteision a ddaw i'r Deyrnas Unedig yn sgil trefniadau rheoleiddio a safonau sy'n cydweddu â'i gilydd. Maent yn cynnig y dylai Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru geisio cysoni eu trefniadau â threfniadau Rheoleiddio Treialon Clinigol newydd yr Undeb Ewropeaidd:

“The Welsh Government should continue to work with the UK Government to consider the importance of aligning with the new EU Clinical Trials Regulation, which the UK has played a key role in shaping for the benefit of UK research. In particular, it should seek agreements that allow for the UK's participation in the central review process for approving clinical trials, which will provide our researchers with access to the new EU portal and database.”<sup>83</sup>

## Deddfwriaeth cyflogaeth

**120.** Mae sawl darn o ddeddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd ym maes cyflogaeth yn effeithio ar ddarparu gwasanaethau gofal iechyd, gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud â'r canlynol:

- cydgydnabod cymwysterau proffesiynol, gan alluogi gweithwyr iechyd proffesiynol o wledydd yr Undeb Ewropeaidd i weithio yn systemau gofal iechyd Aelod Wladwriaethau eraill yr Undeb Ewropeaidd;

<sup>79</sup> Cyfarwydddeb 2011/24/EU Senedd Ewrop a'r Cyngor ar 9 Mawrth 2011 ynglŷn â sut y rhoddir hawliau cleifion ar waith mewn gofal iechyd trawsffiniol

<sup>80</sup> IOB 45 UK Cyfadran Iechyd y Cyhoedd, IOB 12 Coleg Brenhinol y Llawfeddygon, Caeredin, IOB 10 Chyddfederasiwn GIG Cymru ac IOB 25 Coleg Brenhinol yr Anesthetyddion

<sup>81</sup> IOB 45 Cyfadran Iechyd y Cyhoedd y Deyrnas Unedig, IOB 33 Ymchwil Canser y Deyrnas Unedig IOB 08 Colegau Brenhinol y Meddygon (Cymru) ac IOB 25 Coleg Brenhinol yr Anesthetyddion

<sup>82</sup> IOB 33 Ymchwil Canser y Deyrnas Unedig

<sup>83</sup> Ibid

– amodau gweithio megis y Gyfarwydddeb Oriau Gwaith.

**121.** Dywedodd y cyrff proffesiynol allweddol a ymatebodd, gan gynnwys BMA Cymru Wales, y Colegau Brenhinol a Chyddfederasiwn GIG Cymru, fod cydgydnabod cymwysterau proffesiynol yn hollbwysig.<sup>84</sup> Soniodd y Cyddfederasiwn hefyd fod parhau i amddiffyn hawliau gweithwyr a deddfwriaeth iechyd a diogelwch yn bwysig - ac mae BMA Cymru Wales, Y Coleg Nyrso Brenhinol a Chymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain yng Nghymru yn ategu'r farn hon.<sup>85</sup>

## Gweithlu'r Undeb Ewropeaidd a'r trydydd gwledydd

**122.** Nid oes trefniadau canolog ar waith i adrodd am nifer y staff o wledydd yr Undeb Ewropeaidd sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae dogfen y Cyngor Meddygol Cyffredinol, yr adroddiad *The state of medical education and practice in the UK: 2015*, yn dangos mai graddedigion o'r tu allan i'r Deyrnas Unedig yw mwyafrif y meddygon sy'n gweithio ym maes obstetreg a gynaeoleg, ac mae'r un peth yn wir am bron hanner yr offthalmolegwyr. Rhwng 2010 a 2014, mewn meysydd arbenigol pwysig eraill megis meddygaeth, seiciatreg, pediatreg a phatholeg, gwelwyd cynnydd sylweddol yn nifer y graddedigion o'r tu allan i'r Deyrnas Unedig.<sup>86</sup> Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon yn ddiweddar fod rhyw 6 y cant o feddygon yng Nghymru wedi cael eu hyfforddi yn un o wledydd eraill yr Undeb Ewropeaidd.<sup>87</sup>

**123.** Mae Adolygiad y Coleg Nyrso Brenhinol o'r Farchnad Lafur yn 2016 yn dangos bod cyfran y staff nyrso a ymunodd â'r gweithlu o'r Undeb Ewropeaidd wedi codi o ddau y cant yn 2010-11 i 8.8 y cant yn 2013-14.<sup>88</sup>

**124.** Ym maes gofal cymdeithasol, mae gwaith ymchwil gan Independent Age yn dangos bod bron 1 o bob 5 gweithiwr gofal wedi'i eni y tu allan i'r Deyrnas Unedig - oddeutu 266,000 o bobl. Mudwyr o'r tu allan i'r Undeb Ewropeaidd oedd tua 1 o bob 7 o'r rhain.<sup>89</sup>

**125.** Soniodd llawer o'r ymatebwyr am yr anawsterau sylweddol yng Nghymru ym maes iechyd a gofal cymdeithasol wrth geisio recriwtio a chadw gweithwyr. Wedyn, aethant yn eu blaen i ddweud bod angen sicrhau, ar ôl Brexit, fod modd i staff iechyd a gofal cymdeithasol o'r Undeb Ewropeaidd allu parhau i weithio neu ddechrau gweithio yn y Deyrnas Unedig a'r gwrthwyneb. Mynegwyd y farn hon yn yr ymatebion gan y Coleg Nyrso Brenhinol, BMA Cymru Wales, Cyfadran Iechyd y Cyhoedd y Deyrnas Unedig, Colegau Brenhinol y Llawfeddygon (Caeredin), Anesthetyddion, Radiolegwyr a Meddygon, Cymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain yng Nghymru. Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a Chyddfederasiwn GIG Cymru.<sup>90</sup>

---

<sup>84</sup> IOB 31 BMA Cymru Wales, IOB 10 Cyddfederasiwn GIG Cymru ac ymatebion i'r ymgynghoriad gan y Colegau Brenhinol

<sup>85</sup> IOB 31 BMA Cymru Wales, IOB 10 Cyddfederasiwn GIG Cymru IOB 21 Y Coleg Nyrso Brenhinol IOB 30 Cymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain yng Nghymru

<sup>86</sup> Adroddiad y Cyngor Meddygol Cyffredinol, *The state of medical education and practice in the UK: 2015*, Tachwedd 2015 t.21

<sup>87</sup> Datganiad Ysgrifenedig Llywodraeth Cymru, Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon, *Mae staff iechyd a gofal cymdeithasol yr Undeb Ewropeaidd yn gwneud cyfraniad enfawr ac yn cael eu hystyried yn eithriadol o werthfawr, meddai Gweinidogion Iechyd Cymru*, 13 Gorffennaf 2016

<sup>88</sup> Y Coleg Nyrso Brenhinol, *A workforce in crisis? The UK nursing labour market review 2015*, Hydref 2015

<sup>89</sup> Independent Age, *Moved to care: the impact of migration on the adult social care workforce*, Tachwedd 2015

<sup>90</sup> IOB 21 Y Coleg Nyrso Brenhinol, IOB 31 BMA Cymru, IOB 45 Cyfadran Iechyd y Cyhoedd y Deyrnas Unedig, IOB 12 Coleg y Llawfeddygon Brenhinol, Caeredin, IOB 25 Coleg Brenhinol yr Anesthetyddion, IOB 16 Coleg Brenhinol y Radiolegwyr, IOB 08 Coleg Brenhinol y Meddygon (Cymru), IOB 30 Cymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain yng Nghymru, IOB 27 Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ac IOB 10 Cyddfederasiwn GIG Cymru

## Ymchwil feddygol

**126.** Maes arall lle mae dimensiwn yr Undeb Ewropeaidd o ddiddordeb penodol yw ymchwil feddygol. Mae hyn cynnwys prifysgolion Cymru a thimau ymchwil yn cymryd rhan, drwy drefn cynigion cystadleuol, yn rhaglen ymchwil yr Undeb Ewropeaidd, Horizon 2020.

**127.** Roedd nifer o'r ymatebion yn dweud bod hwn yn faes yr oedd angen mynd i'r afael ag ef. Soniodd Cyfadran Iechyd y Cyhoedd y Deyrnas Unedig ei bod yn poeni y gallai partneriaid yn yr Undeb Ewropeaidd fod yn gyndyn o gynnwys partneriaid o'r Deyrnas Unedig mewn prosiectau ymchwil yn y dyfodol.<sup>91</sup> Ar yr un pryd, mae'n credu bod cyfleoedd ar gyfer sicrhau cyllid a phartneriaethau y dylid edrych arnynt y tu allan i'r Deyrnas Unedig,<sup>92</sup> a dywedodd Ymchwil Canser y Deyrnas Unedig:

---

“Wales and the UK must explore opportunities to strengthen its world-class science base, building on and developing new global collaborations. [...] The UK has an opportunity to set itself apart as the top global destination for industry to conduct clinical trials, securing crucial investment and enabling patient access to innovative treatments.”<sup>93</sup>

---

Dywedodd Cymdeithas Diwydiant Fferyllol Prydain hefyd fod angen i'r Deyrnas Unedig aros ar flaen y gad ym maes ymchwil feddygol a biowyddonol,<sup>94</sup> ac mae Cydffederasiwn GIG Cymru yn nodi bod gwaith biowyddonol yng Nghymru yn tyfu.

---

“In Wales the life sciences sector employs around 11,000 people based at more than 350 companies and delivers a turnover of circa £2bn per year. These include companies in the ground-breaking fields of medical technology – biopharmaceuticals, regenerative medicine, diagnostics, e-health and biotechnology. Recognising this inherent strength and potential, the Welsh Government has established initiatives such as the Life Sciences Hub and Life Sciences Research Network Wales to ensure ongoing development of the sector in Wales, which is expected to deliver significant (over £1bn) economic impact by 2022.”<sup>95</sup>

---

**128.** Mae gwefan WalesWorldWide.org yn rhoi rhagor o wybodaeth am ddiwydiannau biotech a fferyllol yng Nghymru. Mae'n dweud, er mai dim ond 5% o boblogaeth y Deyrnas Unedig sy'n byw yng Nghymru, mai yma y mae 10% o'r gweithlu gwyddorau bywyd.<sup>96</sup>

**129.** Mae cannoedd o gwmnïau biotech a fferyllol yng Nghymru sydd ar flaen y gad yn y datblygiadau, gan gynnwys Ortho Clinical Diagnostics, Quotient Bioresearch a Quay Pharma. Mae'r cwmni therapi larfal, Zoobiotic gynt (a elwir bellach yn **Biomonde**), yn geffyl blaen ym marchnad y byd mewn cynhyrchion o'r fath (y cwmni deillio cyntaf o un o Ymddiriedolaethau'r GIG). Mae Pencadlys Ewropeaidd Biomet, sy'n arwain y byd yn y farchnad orthopedeg, ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

**130.** Dylid nodi hefyd fod y Coleg Nyrso Brenhinol, BMA Cymru Wales, Cydffederasiwn GIG Cymru, Coleg Brenhinol y Meddygon ac eraill i gyd yn pwysleisio'r anfanteision posibl i Gymru ar ôl Brexit gan

---

<sup>91</sup> IOB 45 Cyfadran Iechyd y Cyhoedd y Deyrnas Unedig

<sup>92</sup> Ibid

<sup>93</sup> IOB 33 Ymchwil Canser y Deyrnas Unedig

<sup>94</sup> IOB 18 Cymdeithas Diwydiant Fferyllol Prydain

<sup>95</sup> IOB 10 Cydffederasiwn GIG Cymru

<sup>96</sup> Gweler <http://www.walesworldwide.org/sectors-list/biotech-pharmaceuticals/>

eu bod yn ei gweld yn debygol y byddai llai o gyfle i fanteisio ar arian ymchwil, i gydweithio ym maes ymchwil ar draws rhwydweithiau'r Undeb Ewropeaidd, ac y byddai cyfyngu ar hawl staff ymchwil prin i symud yn rhydd. Nodwyd bod angen datblygu fframweithiau i fynd i'r afael â'r materion hyn.<sup>97</sup>

## **Mynediad i gronfeydd eraill yr Undeb Ewropeaidd**

**131.** Roedd sawl ymateb, gan gynnwys ymateb Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain yng Nghymru hefyd yn dweud eu bod yn credu i ardaloedd di-fraint ac ardaloedd gwledig Cymru elwa o arian yr Undeb Ewropeaidd, roeddent yn holi a fydd trefniadau newydd ar waith i lenwi unrhyw fylchau yn y cyllido.<sup>98</sup>

### **Ein barn ni**

**132.** Mae ansicrwydd ynghylch y data am wladolion yr Undeb Ewropeaidd sy'n gweithio yn y sectorau hyn, yn enwedig yn y proffesiynau sydd heb eu cofrestru a phobl mewn swyddi isel eu sgiliau. Mae angen i Lywodraeth Cymru gasglu'r wybodaeth hon er iddi fod yn sail wrth gynllunio ar gyfer y gweithlu ac er mwyn cryfhau cyfraniad Cymru at ddatblygu polisi mewnfudo'r Deyrnas Unedig yn y dyfodol. Mae'n hanfodol diwallu anghenion gofal cleifion a bydd mewnfudo o'r Undeb Ewropeaidd ac o fannau eraill yn y byd er mwyn diwallu'r anghenion hyn yn angenrheidiol o hyd ar ôl inni adael yr Undeb Ewropeaidd.

**133.** Mae rhai yn poeni am yr effaith ar gynllunio'r gweithlu os cyfyngir ar hawl pobl i symud yn rhydd, a chredwn fod angen gwell cynllunio ar gyfer hyfforddiant/y sgiliau a fydd yn ofynnol yn y dyfodol o fewn y gwasanaethau cyhoeddus.

**134.** Yn unol â'r negeseuon a gawsom gan y sector addysg, mae angen sicrhau bod llwybr ar agor o hyd ar gyfer ymchwil feddygol a chydweithio rhyngwladol.

**135.** Pwysleisiwyd pwysigrwydd asiantaethau'r Undeb Ewropeaidd, megis Asiantaeth Meddyginiaethau Ewrop. Mae angen eglurdeb ynghylch sut y caiff meddyginiaethau eu rheoleiddio yn y dyfodol.

**136.** Fel sy'n wir am faes addysg, rhaid cynnal fframwaith i gydnabod cymwysterau proffesiynol.

**137.** Mae llawer o faterion sy'n ymwneud ag iechyd y cyhoedd y mae'n well mynd i'r afael â hwy ar lefel ryngwladol. Dylai parhau i gydweithio â'r Undeb Ewropeaidd fod yn rhan o ddull Cymru o ymdrin ag iechyd y cyhoedd yn y dyfodol.

**138.** Nid yw dyfodol trefniadau cilyddol i ddarparu gofal iechyd yn glir a bydd angen mynd i'r afael â hyn yn y trafodaethau.

---

<sup>97</sup> IOB 21 Y Coleg Nyrsio Brenhinol, IOB 31 BMA Cymru Wales, IOB 10 Cydffederasiwn GIG Cymru, IOB 08 Coleg Brenhinol y Meddygon (Cymru).

<sup>98</sup> IOB 36 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, IOB 30 Cymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain yng Nghymru.



## 05. Cydraddoldeb a chydlyniant cymunedol

### Crynodeb o'r materion a godwyd

- Rhaid i Lywodraeth Cymru a'r Cynulliad fod yn effro i unrhyw ddatblygiad sy'n gwanhau safonau ym maes deddfwriaeth cydraddoldeb.
- Fel mae'r dystiolaeth ynglŷn â chynnydd yn y troseddau casineb a gofnodwyd adeg y refferendwm yn ei awgrymu, gallai Brexit beryglu cydlyniant cymunedol.

**139.** Dywedodd Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru fod gwarchod deddfwriaeth ym maes cydraddoldeb, cyfiawnder a hawliau dynol yn brif flaenoriaeth i Gymru ac, mewn arolwg hefyd ymhlith aelodau Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, gwelwyd bod "cydraddoldeb a chyfiawnder" yn brif flaenoriaeth.

**140.** Mae Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ymrwymo i ymwrthod ag unrhyw ddatblygiad a allai wanhau safonau deddfwriaeth cydraddoldeb ar ôl Brexit:

"The EU has guaranteed standards for women's rights that are reflected in current UK legislation. While we understand that EU Directives won't disappear immediately following the UK's departure from the EU, there is a risk that, over time, rights could be rolled back because their continuance in legislation will depend on the political will of future governments. A number of key protections either derive from, or are guaranteed by, European law, e.g., maternity discrimination, maternity rights, equal pay, pension rights, part-time workers rights and the application of European discrimination law to all employers without exception. We are concerned that discrimination legislation which has been implemented via secondary legislation, e.g., maternity and parental leave regulations (1999) could be easier to repeal than primary legislation and could therefore be particularly vulnerable."<sup>99</sup>

**141.** O ran cyflwyno 'Bil Diddymu' (o safbwynt cydraddoldeb) mae'r Rhwydwaith yn credu y bydd angen i Gymru baratoi ar gyfer dau ganlyniad posibl:

I. The entire body of European law and the EU directives (equalities, workers' rights) are transferred into domestic law with no change in equalities legislation and employment protections. As a result, nothing will change immediately, but there will need to be vigilance about any future reforms.

II. The primary legislation is transferred into domestic law, but the EU Directives are not retained which would mean that the UK loses the equalities legislation and employment protections contained in the EU directives."<sup>100</sup>

**142.** Ceisiodd y Rhwydwaith hefyd eglurhad ynghylch a gaiff Siarter Hawliau Sylfaenol yr Undeb Ewropeaidd ei throsglwyddo i gyfraith Deyrnas Unedig fel rhan o'r 'Bil Diddymu'.

<sup>99</sup> IOB 44 Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru

<sup>100</sup> Ibid



**143.** Roedd Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a Chelfyddydau Rhyngwladol Cymru yn poeni am gydlyniant cymunedol gan gyfeirio at y rôl y gallai cyrff y trydydd sector a chyrrff ym maes y celfyddydau ei chwarae.<sup>101</sup> Dywedodd Celfyddydau Rhyngwladol Cymru:

---

“If the Brexit vote has demonstrated anything, it is the need for public sector agencies to re-double their efforts to engage communities across Wales. Through our participation work, the Arts Council has valuable experience in showing how the arts can bridge into communities to celebrate diversity whilst also empowering those who feel marginalised.”<sup>102</sup>

---

**144.** Pwysleisiodd Eglwysi yng Nghymru bwysigrwydd cynnal hawliau cymunedau lleiafrifol a’u parchu.<sup>103</sup>

**145.** Nododd Undebau Cenedlaethol y Myfyrwyr:

---

“Perhaps the single most important concern that must be addressed, by both the National Assembly and the UK Parliament, is the rise in racism and hate-crime since the vote on 23rd June. By the middle of July, there had been a recorded rise of 42% in the reporting of hate-crime in England and Wales.”<sup>104</sup>

---

**146.** Ar ôl y refferendwm, dangosodd gwybodaeth a ryddhawyd gan Gyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu (yr NPCC) gynnydd yn lefel y troseddau casineb a riportwyd ac a gofnodwyd. Yn ei anterth, roedd hyn yn dangos cynnydd o 58 y cant yn y troseddau casineb a riportwyd o’i gymharu â’r nifer yn 2016. Mae pethau wedi tawelu ers hynny, ac er bod y lefelau’n uwch nag yr oeddent yn 2015, mae’r NPCC yn dweud eu bod wedi dychwelyd i’r lefelau a welwyd yn gynharach yn 2016. Mae bwletin Ystadegau’r Swyddfa Gartref Hate Crime, England and Wales, 2016/17 yn cynnwys atodiad sy’n trafod troseddau casineb a refferendwm yr Undeb Ewropeaidd.<sup>105</sup>

## Ein barn ni

**147.** Wrth inni adael yr Undeb Ewropeaidd, ni ddylai fod dim gwanhau ar ddeddfwriaeth cydraddoldeb a gwarchodaeth ym maes cyflogaeth. Nodwn ymrwymiad Prif Weinidog y Deyrnas Unedig i warchod a chryfhau’r hawliau sydd gan bobl yn y gwaith.

---

<sup>101</sup> IOB 19 Celfyddydau Rhyngwladol Cymru ac IOB 27 Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru.

<sup>102</sup> IOB 19 Celfyddydau Rhyngwladol Cymru

<sup>103</sup> IOB 13 Eglwysi Ynghyd yng Nghymru

<sup>104</sup> IOB 35 Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr

<sup>105</sup> Y Swyddfa Gartref, Statistical bulletin: Hate Crime, England and Wales, 2015/16, 13 Hydref 2016

## 06. Cronfeydd strwythurol a buddsoddi Ewrop

### Crynodeb o'r materion a godwyd

- Mae angen egluro'r goblygiadau i'r rhaglenni presennol o ran terfynu trefniadau cyllido a pharhad y trefniadau hynny.
- Nid ydym eto'n deall goblygiadau'r posibilrwydd o golli buddsoddiadau gan Fanc Buddsoddi Ewrop.
- Mae angen ateb y cwestiwn ynglŷn ag a fydd polisi rhanbarthol ar waith ar ôl Brexit.

**148.** O dan rownd cronfeydd strwythurol 2014-202, dyrannwyd bron £2 biliwn i Gymru gan yr Undeb Ewropeaidd, £1.6 biliwn i Orllewin Cymru a'r Cymoedd a dros £325 miliwn i'r Dwyrain.

**149.** Mae Canolfan Llywodraethiant Cymru wedi cyhoeddi ymchwil sy'n dangos bod Cymru – yn wahanol i'r Deyrnas Unedig drwyddi draw – yn cael budd net yn sgil cronfeydd yr Undeb Ewropeaidd. Ar sail amcangyfrifon o gyfraniad Cymru at gyllideb yr Undeb Ewropeaidd a'r arian a gafodd y sector cyhoeddus yng Nghymru ganddo, mae'n casglu bod Cymru wedi cael budd net o £245 miliwn yn 2014.

**150.** Rhoddodd Dr Jayne Woolford, o Ganolfan Llywodraethiant Cymru, gyflwyniad ysgrifenedig<sup>106</sup> a hwnnw wedi'i seilio ar erthygl a ysgrifennodd am Oblygiadau Brexit ar gyfer rhaglenni'r Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi yn y Deyrnas Unedig a'r polisi rhanbarthol yn y dyfodol. Mae'r erthygl hon wedi cael ei chyhoeddi yng Nghyfnodolyn Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewrop.<sup>107</sup>

**151.** Mae cyflwyniad Dr Woolford yn asesu'n drwyadl y sefyllfa yng Nghymru a rhai o'r materion y mae angen rhoi sylw iddynt. Dyma grynoded o'i phrif bwyntiau:

“The financial implications of Brexit will vary across the UK regions. As a net beneficiary of the EU and allocated €3 billion euros during the 2014-2020 programming period, the loss of ESI [European Structural and Investment] funds will be significant for Wales.

The biggest vulnerability in relation to ESIF [European Structural and Investment Fund] financial allocations and their potential loss to Wales relates to the timing and content of Article 50 withdrawal negotiations. The negotiation of an end date for programme eligibility and the extent to which the established regulatory procedures around N+3 and programme closure will be applied will be crucial.

The level and timing of commitments to projects and expenditure on the ground is increasingly vital in ensuring Wales benefits as fully as possible from the funding envelope allocated, especially in light of the recent HMT [Her Majesty's Treasury] funding guarantee.

<sup>106</sup> IOB 47 Ysgol y Gyfraith a Gwleidyddiaeth Caerdydd, Dr Jayne Woolford

<sup>107</sup> Woolford, J., 2016, *Implications of Brexit for UK ESIF programming and future regional policy*, European Structural and Investment Funds Journal, 2016 (Cyfrol 4, Rhif 3), Lexion, Berlin/Brwel

---

Uncertainties exist around budget availability for EU reimbursements following Brexit and the conditional nature of the HMT guarantee. It is unclear whether WEFO [Welsh European Funding Office] will make use of flexibilities around programme modification and project reprofiling to manage risk.

Programme closure in the context of Brexit is additionally complicated by audit requirements that continue beyond the end of the programming period and hence EU membership.

Legal requirements under ESIF regulations suggest that, within the context of programme implementation, the UK will still be subject to all relevant aspects of EU law for a period of at least three years following withdrawal from the EU.

In terms of designating a future UK spatial policy, the debate can only be informed through the clear identification of the most successful targeting of localities, delivery models, funding priorities and types of initiatives to date – in the context of wider socio-economic policy and political developments.”<sup>108</sup>

---

**152.** Ar ôl ystyried y materion a godwyd gyda ni, fe’n gadawyd â nifer o gwestiynau sydd heb eu hateb:

- Beth yw’r goblygiadau ar gyfer y rhaglenni presennol (2014-2020) yng Nghymru, gan gynnwys a fydd angen ailbroffilio rhaglenni a phrosiectau sydd wedi’u cymeradwyo er mwyn cyd-fynd ag amserlen Brexit?
- A oes perygl inni gollir holl ddyraniadau cyllido ar gyfer 2019 a 2020 neu rywfaint ohonynt, er gwaethaf gwarant y Canghellor?
- Beth yw goblygiadau colli cymorth Banc Buddsoddi Ewrop ar gyfer cynlluniau pwysig?
- A fydd gan y Deyrnas Unedig Bolisi Rhanbarthol ar ôl Brexit? ac, os bydd ganddi:
- Sut y byddai hwnnw’n cael ei reoli?
- Pa rôl fydd gan Lywodraeth Cymru?
- Sut y caiff ei gynllunio?
- Pa wersi y gellir eu dysgu yn sgil dulliau’r Undeb Ewropeaidd?

### **Ein barn ni**

**153.** Mae Cymru wedi elwa’n ariannol yn sgil Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewrop. Mae’n hanfodol, wrth inni groesi’r bont at unrhyw strategaeth fuddsoddi yn y dyfodol, nad ydym yn colli’r capasiti yng Nghymru i reoli cynlluniau, ac, yn benodol y capasiti sydd wedi’i ddatblygu drwy raglenni Cronfa Gymdeithasol Ewrop i gynyddu cyflogaeth.

**154.** Ein nod ni fydd ceisio atebion i’r cwestiynau hyn a byddwn yn lansio ymchwiliad yn 2017 i bolisiau yn y dyfodol ar gyfer mynd i’r afael â gwahaniaethau rhanbarthol o ran perfformiad economaidd.

---

<sup>108</sup> IOB 47 Ysgol y Gyfraith a Gwleidyddiaeth Caerdydd, Dr Jayne Woolford

## 07. Pa mor barod yw'r gwasanaethau cyhoeddus

**155.** Ar 17 Hydref, cynhaliwyd seminar a oedd yn canolbwyntio ar effaith Brexit ar wasanaethau cyhoeddus.<sup>109</sup>

**156.** Pan oeddem wrthi'n clywed tystiolaeth, roedd rhai'n poeni am y diffyg paratoi gan wasanaethau cyhoeddus ar gyfer Brexit. Argymhellwyd, yn y misoedd a oedd yn arwain at gychwyn proses Erthygl 50, fod angen cymryd camau paratoi o'r fath ac y dylai Llywodraeth Cymru ddangos y ffordd yn glir. Pwysleisiodd un tyst fod angen *ffynhonnell gyngor a dehongli awdurdodol* ynglŷn â Brexit ar gyfer y gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, gan ddweud mai Llywodraeth Cymru a ddylai ysgwyddo'r rôl hon.<sup>110</sup>

**157.** Dywedodd Dr Victoria Winkler, o sefydliad Bevan, wrthym, na ddylid defnyddio gadael yr Undeb Ewropeaidd yn rheswm dros ohirio camau i fynd i'r afael â'r heriau eraill y mae gwasanaethau cyhoeddus yn eu hwynebu:

“[...] leaving the EU is absolutely not a reason to do nothing. ... Irrespective of where Wales is in the world, we've still got demographic change, we've still got technological change, we've still got climate change, we've still got a relatively weak economy, and those things are still there, and they'll be there this week, next year, and in 10 years' time. So, if you like, leaving the EU is just another difficulty to put into that mix that has to be managed. So, the last thing I think any public sector leader should be doing is parking the changes that need to be made because we don't know about Brexit. I think there are some other big challenges out there too.”<sup>111</sup>

**158.** Mynegwyd pryderon hefyd am y niwed a ragwelid i'r sefyllfa cyllid cyhoeddus yn sgil Brexit, gan gynnwys colli cyllid yr Undeb Ewropeaidd, a'r angen i fynd i'r afael â hyn wrth gytuno ar drefniadau cyllido i Gymru yn y dyfodol.<sup>112</sup>

**159.** Ar gyfer y Deyrnas Unedig drwyddi draw, pan gyhoeddwyd Datganiad Hydref 2016 ym mis Tachwedd, cafwyd diweddariad **ar yr un pryd** gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol i'r rhagolygon ar gyfer dyled fenthycia net y sector cyhoeddus. Amcangyfrifwyd y byddai'r swm a fenthycid £122.1 biliwn yn uwch dros y 5 mlynedd hyd at 2020-21 o'i gymharu â'r rhagolygon blaenorol ym mis Mawrth. Cafwyd dadansoddiad gan y Swyddfa o'r hyn a oedd wedi achosi'r diwygiadau net hyn yn eu modelu.

**160.** Dros y cyfnod 2016-17 tan 2019-20, priodolwyd cynnydd o £58.6 biliwn yn nyled fenthycia net y sector cyhoeddus i newidiadau yn y rhagolygon yn sgil Brexit.

<sup>109</sup> Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol, 17 Hydref 2016

<sup>110</sup> Ibid c.23

<sup>111</sup> Ibid c.57

<sup>112</sup> Ibid c.100

## Ffynonellau'r newidiadau i fenthycu net y sector cyhoeddus ers mis Mawrth 2016, £ bn

	2016-17	2017-18	2018-19	2019-20	2020-21
Effaith penderfyniadau'r Llywodraeth	0.9	2.5	4.5	8.4	9.6
Newidiadau i'r rhagolygon yn sgil Brexit	3.5	9.9	15.4	14.7	15.2
Newidiadau i'r rhagolygon yn sgil pethau ar wahân i Brexit	7.8	7.3	4.6	3.0	2.9
Newidiadau o ran categoreiddio	0.5	0.4	0.5	6.4	4.1
Cyfanswm	12.7	20.2	25.1	32.4	31.8

Ffynhonnell: Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, [Economic and fiscal outlook](#), Tachwedd 2016, Siart 1.4

Nodyn: Mae'n bosibl na fydd y ffigurau'n adio i wneud y cyfansymiau, oherwydd iddynt gael eu talgrynnu.

### Ein barn ni

**161.** Bwriadwn fonitro'r effaith ar wasanaethau cyhoeddus a byddwn yn ysgrifennu at bob corff cyhoeddus yng Nghymru i roi gwybod iddo am ein gwaith a'i annog i ymgysylltu â ni.

**162.** Credwn y dylai Llywodraeth Cymru arwain wrth baratoi'r gwasanaethau cyhoeddus ar gyfer yr heriau sydd o'u blaenau ac y dylai fod yn ffynhonnell gyngor a dehongli awdurdodol i'r gwasanaethau cyhoeddus ynghylch materion sy'n codi yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd.

## Rhan 2: Craffu

### 08. Ymateb Llywodraeth Cymru

**163.** Ac ystyried cymhlethdod y materion sydd wedi codi yn sgil y refferendwm, rydym yn derbyn bod angen i Lywodraeth Cymru dreulio rhywfaint o amser yn egluro'i safbwynt wrth ymateb i heriau Brexit.

**164.** Cyhoeddodd y Prif Weinidog, y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones AC, ddatganiad ar 24 Mehefin 2016 yn rhestru chwe blaenoriaeth yn syth ar ôl y bleidlais i adael.<sup>113</sup> Sef:

---

Amddiffyn swyddi;

Llywodraeth Cymru i chwarae rhan lawn mewn trafodaethau am amseriad a thelerau ymadawiad y Deyrnas Unedig o'r Undeb Ewropeaidd;

Dylai Llywodraeth y Deyrnas Unedig drafod mynediad i'r Farchnad Sengl;

Parhau i gymryd rhan ym mhrif raglenni'r Undeb Ewropeaidd fel y Pwyllgor Amaethyddol Cyffredin a'r Cronfeydd Strwythurol hyd at ddiwedd 2020;

Achos aruthrol dros ddiwygio Fformiwla Barnett yn sylweddol gan ystyried yr anghenion sy'n codi yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd;

Mae'r newid cyfansoddiadol yn sgil Brexit yn golygu ei bod yn "rhaid i'r berthynas rhwng y Gweinyddiaethau Datganoledig a Llywodraeth y Deyrnas Unedig nawr gael ei gosod ar sylfaen gwbl wahanol".<sup>114</sup>

---

**165.** Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru hefyd y byddai Is-bwyllgor Cabinet yn cael ei greu ar gyfer Brexit ynghyd a Grŵp Cynghori Allanol er mwyn helpu i lywio'i syniadaeth.

**166.** Mae'r Prif Weinidog ac Ysgrifenyddion y Cabinet wedi cyhoeddi datganiadau wedyn am eu gwaith ar Brexit (sydd wedi cynnwys cyfarfodydd grwpiau o randdeiliaid a gweithgorau yn y sectorau). Mae'r Prif Weinidog hefyd wedi bod ger ein bron ddwywaith.<sup>115</sup>

**167.** Er bod y Prif Weinidog wedi dweud sawl gwaith mai ei brif amcan ar gyfer y trafodaethau yw sicrhau mynediad llawn a dilyffethair, di-dariff at y Farchnad Sengl, nid oedd datganiad cynhwysfawr am flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer y trafodaethau nes cyhoeddi ei Phapur Gwyn *Diogelu Dyfodol Cymru* ar 23 Ionawr 2016 ('y Papur Gwyn'). Nid ydym wedi cael cyfle i graffu ar y Papur Gwyn hwn. Bwriadwn wneud hynny yn ystod cam nesaf ein gwaith

**168.** Cyflwynodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol, Mark Drakeford AC, 10 o flaenoriaethau i gynhadledd yn Abertawe ar 25 Tachwedd 2016 ('cynhadledd Abertawe')<sup>116</sup> a chyflwynwyd y rhain i'r Pwyllgor wedyn. Mae'r blaenoriaethau hyn yn arbennig o bwysig oherwydd rôl

---

<sup>113</sup> Datganiad Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru gan y Prif Weinidog, *Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd*, 24 Mehefin 2016

<sup>114</sup> Ibid

<sup>115</sup> 12 Medi 2016 a 7 Tachwedd 2016

<sup>116</sup> *Beth fydd Brexit yn ei olygu i Gymru?*, Prifysgol Abertawe, 25 Tachwedd 2016

Mr Drakeford fel cynrychiolydd Llywodraeth Cymru ar brif fforwm rhynglywodraethol Brexit – Cyd-bwyllgor y Gweinidogion ar Negodiadau'r UE (y Cyd-bwyllgor ).

**169.** Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Bapur Gwyn am ei blaenoriaethau i Gymru ar 23 Ionawr 2017.

## Y Berthynas â Marchnad Sengl Ewrop

**170.** Mae dadl wedi bod yn y misoedd diwethaf am beth yw ystyr 'mynediad' at y Farchnad Sengl. Credwn fod safbwynt y Prif Weinidog yn y cyswllt hwn yn glir erbyn hyn, yn dilyn ei ddatganiad ar 1 Tachwedd 2016<sup>117</sup> a'i ymddangosiad ger ein bron ar 7 Tachwedd 2016, lle y dywedodd:

---

“[...] the principle that is absolutely essential is that of full and unfettered access to the Single Market. For me, the settlement should be crafted around that one immovable principle.”<sup>118</sup>

---

**171.** I grynhoi, rydym ar ddeall bod hyn yn golygu mynediad llawn a dilyffethair, dim dull gweithredu sectoraidd,<sup>119</sup> dim tariffau a dim rhwystrau rheoleiddiol rhag cymryd rhan.<sup>120</sup>

**172.** Yng Nghynhadledd Abertawe, roedd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol yn galw am:

---

“Full, unfettered access to the Single Market, unencumbered by tariffs, quotas or any other technical barriers to trade.”<sup>121</sup>

---

**173.** Mae Prif Weinidog y Deyrnas Unedig wedi dweud yn glir nad yw ei Llywodraeth yn ceisio unrhyw ffurf ar aelodaeth o'r Farchnad Sengl. Mae'n ceisio cytundeb sy'n caniatáu hyn:

---

“the greatest possible access to it through a new, comprehensive, bold and ambitious trade agreement”.<sup>122</sup>

---

**174.** Mae hi hefyd wedi awgrymu'r posibilrwydd o fynd ati mewn dull sectoraidd gan ddweud y gallai'r cytundeb ddefnyddio elfennau o drefniadau'r farchnad sengl bresennol mewn rhai meysydd. Mae'n cyfeirio at allforio ceir a lorïau a gwasanaethau ariannol yn sectorau posibl.

**175.** Mae Papur Gwyn Llywodraeth Cymru yn dweud:

---

“Credwn fod mynediad llawn a dirwystyr at y Farchnad Sengl ar gyfer nwyddau, gwasanaethau a chyfalaf – gan gynnwys ein prif gynhyrchion amaethyddol a bwyd – yn hanfodol ar gyfer buddiannau Cymru a'r DU yn gyfan yn y dyfodol, ac rydym yn annog Llywodraeth y DU i fabwysiadu hyn fel y brif flaenoriaeth wrth negodi gyda'r UE.”<sup>123</sup>

---

---

<sup>117</sup> Cofnod y Trafodion 1 Tachwedd 2016 14:16 tan 15:12

<sup>118</sup> Cofnod y Trafodion Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol, 7 Tachwedd 2016 c.9

<sup>119</sup> Ibid c.84

<sup>120</sup> Ibid c.29

<sup>121</sup> Pwynt cyntaf Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol yng Nghynhadledd Abertawe.

<sup>122</sup> Swyddfa Prif Weinidog y DU, 10 Downing Street, *The UK government's negotiating objectives for exiting the EU: Araith y Prif Weinidog*, 17 Ionawr 2017

<sup>123</sup> Llywodraeth Cymru, Papur Gwyn: Diogelu Dyfodol Cymru, 23 Ionawr 2016



## Yr hawl i symud yn rhydd

**176.** Mae'r Prif Weinidog wedi cydnabod y byddai cytundeb masnachu â'r Undeb Ewropeaidd yn y dyfodol a fyddai'n caniatáu rhyddid i bobl symud yn broblematic.<sup>124</sup> Nid yw'n gweld cyfyngu ar yr hawl i symud yn rhydd yn gymaint o flaenoriaeth â pharhau i sicrhau mynediad dilyffethair ar y Farchnad Sengl:

“If we look at freedom of movement, for example, to me it seems that many people are not content with the current system of freedom of movement, but I do think that it's inevitable that there will be a need for a system of allowing people to move around Europe in order to keep economic growth moving. That, to me, is less important than the issue of full and unfettered access to the Single Market.”<sup>125</sup>

**177.** Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol yn galw am: “*calibrated approach to free movement of people, which preserves its many advantages, while bearing down on exploitation of labour*”.<sup>126</sup>

**178.** Mae Papur Gwyn Llywodraeth Cymru yn dweud:

“Yn ein barn ni, yr allwedd yw sicrhau bod hawl pobl i symud yn rhydd yn gysylltiedig â chyflogaeth, ac eithrio yn achos myfyrwyr a phobl sy'n medru cynnal eu hunain yn annibynnol. Ar gyfer myfyrwyr ac ymchwilwyr, rydym yn credu mai cynnal yr hawl i symud yn rhydd ar draws Ewrop fyddai fwyaf manteisiol i Gymru a'r DU yn gyfan. Dylai'r cysylltiad rhwng symudiad a chyflogaeth gael ei ategu gan orfodaeth gadarn o'r ddeddfwriaeth bresennol i atal camfanteisio ar weithwyr, yn arbennig y rhai mewn swyddi cyflog isel.”<sup>127</sup>

## Cyllido

**179.** Yn ein cyfarfod ar 12 Medi 2016, gwrthododd y Prif Weinidog sefyllfa lle byddai amaethyddiaeth a'r cronfeydd strwythurol yn cael eu cyllido ar ôl Brexit ar sail dyraniadau fformiwla Barnett. Galwodd am warant y byddai'r cyllid yn y dyfodol yn cael ei seilio ar y lefelau presennol.<sup>128</sup> Mae'n mynd ymhellach ac yn awgrymu bod angen adolygu'n sylfaenol fecanwaith cyllido'r Deyrnas Unedig er mwyn cyfyngu ar bŵer y Trysorlys.<sup>129</sup> a disodli fformiwla Barnett â mecanwaith adolygu cyfnodol sydd wedi'i gynnwys yn rhan o'r drefn.<sup>130</sup>

**180.** Yn ein cyfarfod ar 7 Hydref 2016, dywedodd yr Athro Michael Keating wrthym fod Brexit yn her fawr i fformiwla Barnett. Yn y gorffennol, mae wedi delio â newidiadau fesul cam ond:

“It's never had a really big hit like this, a whack of new money coming through all at once.”<sup>131</sup>

**181.** Yn ei ymateb yntau, dywedodd Mr Akash Paun:

<sup>124</sup> Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol, 12 Medi 2016 c.28

<sup>125</sup> Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol, 7 Tachwedd 2016 c.10

<sup>126</sup> Ail bwynt Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol yng Nghynhadledd Abertawe.

<sup>127</sup> Llywodraeth Cymru, Papur Gwyn: Diogelu Dyfodol Cymru, 23 Ionawr 2016

<sup>128</sup> Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol, 12 Medi 2016 c.50

<sup>129</sup> Ibid c.58

<sup>130</sup> Ibid c.71

<sup>131</sup> Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol, 7 Tachwedd 2016 c.384

---

“I think the interesting thing about this moment, and the change is that the simplest thing to do—and almost certainly the preferred model from a Treasury perspective—will be just to add on the replacement funding for common agricultural policy and structural funds and other things on top of the block grant and then to ‘Barnettise’ it.”<sup>132</sup>

---

**182.** Ar ôl cyfarfod y Cyd-bwyllgor Gweinidogion ym mis Hydref, gwnaeth y Prif Weinidog ddatganiad yng Nghyfarfod Llawn 1 Tachwedd 2016. O ran cyllido, galwodd am adolygu'r Grant Bloc i Gymru yng ngoleuni gadael yr Undeb Ewropeaidd gan ddweud y bydd hyn yn dod yn fater o frys cynyddol er mwyn sicrhau sefydlogrwydd yn y misoedd nesaf ac ystyried yr effaith ar allu cael gadael ar arian yr Undeb Ewropeaidd.<sup>133</sup>

**183.** O ran mecanweithiau drwy'r Deyrnas Unedig ac gyfer cyllido amaethyddiaeth a chynlluniau eraill a allai ddisodli'r cronfeydd strwythurol ar ôl Brexit, roedd y Prif Weinidog i bob golwg yn agored i ystyried hyn, ond roedd yn bendant ynglŷn â pha fath o drefniadau y dylai'r rhain fod:

---

“[...] agreed not imposed. Any kind of suggestion that, somehow, whatever replaces European structural funding should be controlled from London wouldn't be acceptable.”<sup>134</sup>

---

**184.** Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol wedi galw am:

---

“[...] a full guarantee that funding which flows from the EU today, and would continue to flow in the future, will be provided at or above that level by the UK Treasury, once Brexit has taken place.”<sup>135</sup>

---

**185.** Ar 19 Rhagfyr 2016, cytunodd Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar fframwaith ariannol Llywodraeth Cymru yn y dyfodol.<sup>136</sup> Mae hwn yn cynnwys ffactor newydd – ffactor seiliedig ar angen - i'w gynnwys yn Fformiwla Barnett o 2018-19 ymlaen

**186.** Nid ydym wedi ystyried eto sut y gallai'r cytundeb newydd hwn fynd i'r afael â'r pwyntiau a godwyd gyda ni a byddwn yn dychwelyd at y cwestiwn hwn yn ein gwaith yn y dyfodol.

## Tystiolaeth i gefnogi safbwynt Llywodraeth Cymru

**187.** Nes iddi gyhoeddi'r Papur Gwyn, nid oedd Llywodraeth Cymru wedi rhoi manylion am y dystiolaeth y mae wedi seilio'i safbwynt arni. Mae hyn yn groes i'r hyn y mae Senedd yr Alban wedi'i wneud drwy gyhoeddi ym mis Awst 2016 ddadansoddiad o'r goblygiadau posibl yn sgil y Deyrnas Unedig yn gadael yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer perfformiad economaidd yr Alban yn y tymor hir.<sup>137</sup>

**188.** Mae'r Papur Gwyn a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn cynnwys atodiadau sy'n crynhoi'r effeithiau economaidd posibl ar Gymru yn sgil 'Brexit' (a baratowyd gan Brif Economegydd Llywodraeth Cymru) a chrynodeb o'r dystiolaeth am Fudo yn yr Undeb Ewropeaidd.

---

<sup>132</sup> Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol, 7 Tachwedd 2016 c.385

<sup>133</sup> Cofnod y Trafodion, 1 Tachwedd, 2016 14:16

<sup>134</sup> Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol, 7 Tachwedd 2016 c58

<sup>135</sup> Trydydd pwynt Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth leol yng Nghynhadledd Abertawe.

<sup>136</sup> Llywodraeth EM a Llywodraeth Cymru, Y cytundeb rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig ynglŷn â fframwaith ariannol Llywodraeth Cymru yn y dyfodol, 19 Rhagfyr 2016

<sup>137</sup> Llywodraeth yr Aban, *Potential Implications of the UK Leaving the EU on Scotland's Long Run Economic Performance*, 23 Awst 2016

## Ein barn ni

**189.** Rydym yn deall pa mor eang a chymhleth yw'r materion y mae Llywodraeth Cymru yn eu hwynebu a bod y broses flaenoriaethu wedi bod yn fwy anodd yng ngoleuni'r ffaith bod Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn gyndyn o egluro'i safbwynt (rhagor am hyn isod). A derbyn yr heriau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u hwynebu, credwn y gallai fod wedi egluro'i safbwynt, a'r dystiolaeth sy'n sail iddi, yn gynharach yn y broses. Dylai Llywodraeth Cymru barhau i ddatblygu'r dystiolaeth sy'n ategu ei safbwynt a gwneud hynny'n dryloyw. Mae ei Phapur Gwyn yn cymryd camau cadarnhaol i'r cyfeiriad hwn.

**Argymhelliad 1.** Rydym yn cydnabod bod Papur Gwyn Llywodraeth Cymru wedi darparu tystiolaeth ychwanegol i gefnogi safbwynt Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi'r holl dystiolaeth y mae'n seilio'i safbwynt arni gan gynnwys manylion y gwaith sydd wedi'i wneud ar fodelu senarios ym mhob sector a'r astudiaethau y mae wedi'u comisiynu'n fewnol a chan ffynonellau allanol.

**190.** Mae Prif Weinidog Cymru wedi sefydlu tîm Trefniadau Pontio Ewropeaidd. Mae'n adrodd yn uniongyrchol i'r Prif Weinidog. Tasg y tîm hwn fydd arwain a chydlynu dull Llywodraeth Cymru o ymdrin â Brexit. Y tu hwnt i hyn, nid yw Llywodraeth Cymru wedi cynnig gwybodaeth fanwl am yr ailstrwythuro mewnol sydd wedi digwydd yn ei hadrannau wrth ymateb i Brexit.

**Argymhelliad 2.** Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru ddarparu asesiad manwl o'r newidiadau gweinyddol y mae wedi'u gwneud ers y refferendwm a goblygiadau ariannol y newidiadau hyn. Wrth wneud hyn, dylai fod yn glir am y newidiadau sydd wedi digwydd yn uniongyrchol yn sgil canlyniad y refferendwm a'r newidiadau a oedd eisoes yn yr arfaeth neu ar y gweill. Dylai'r asesiad hwn gynnwys manylion newidiadau yng Nghymru ac yn swyddfa Llywodraeth Cymru ym Mrwsel.

**Argymhelliad 3.** Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru egluro'r rôl y mae'n gweld ei swyddfa ym Mrwsel yn ei chwarae yn y trafodaethau.

**Argymhelliad 4.** Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru roi ei chofrestr risgiau inni ar gyfer pob maes lle y bydd Brexit yn effeithio ar ei gweithgarwch.

**Argymhelliad 5.** Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru nodi'r camau y mae wedi'u cymryd er 24 Mehefin 2016 i sicrhau ei bod yn cael gafael ar y swm mwyaf posibl o gyllid Ewropeaidd ac yn ei ddefnyddio cyn inni adael yr Undeb Ewropeaidd.

## Llywodraeth y Deyrnas Unedig

**191.** Tan anerchiad Prif Weinidog y Deyrnas Unedig ar 17 Ionawr 2017, ychydig iawn o fanylion yr oedd ei Llywodraeth wedi'u cynnig ynglŷn â'i dull hithau o ymdrin â'r trafodaethau â'r Undeb Ewropeaidd, o ran y trefniadau gadael ac unrhyw berthynas a fyddai yn y dyfodol. Nid oedd ychwaith wedi dweud yn glir sut y caiff materion megis cyllido eu rheoli yn y dyfodol ar ôl i'r prosiectau sy'n cael eu cyllido gan Ewrop ar hyn o bryd ddod i ben na sut y caiff pwerau a 'ddychwelir' ac sydd o fewn meysydd cymhwysedd datganoledig eu rheoli.

**192.** Mae'r Prif Weinidog wedi dweud sawl tro ei fod yn rhwystredig ynghylch y diffyg gwybodaeth. Ar 1 Tachwedd, dywedodd:

“It is disappointing, and damaging to confidence, that the UK Government has so far been unable to offer a coherent outline of its broad approach to EU

negotiations. Their excuses for not doing so are running thin and the credibility of the UK is not helped by prevarication and – it must be said – confused and mixed messaging. The UK needs to get its act together.”<sup>138</sup>

---

**193.** Yn ôl Syr Emyr Parry Jones, un o’r dadleuon gwirionaf a glywodd erioed yw bod Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn gyndyn o drafod ei safbwynt yn gyhoeddus oherwydd nad yw am ildio unrhyw bŵer bargeinio ac meddai:

“[...] if you were doing a negotiation properly, you would have been talking to all the member states, trying to get the Germans and the French and others on-line before you ever got to Brussels. If they don’t do that, they’re lost. So, they’ve done all that. The illusion that you can somehow keep it secret is just that. I suspect it covers up the fact that they don’t know what the policy is.”<sup>139</sup>

---

**194.** Esboniodd Syr Emyr:

“As to being poker faced, I think you go into the negotiations and be poker faced about the extent of any fallback position, any nuances in your position. But you go in with a set of demands, and those demands are going to have to be pretty public.”<sup>140</sup>

---

## Ein barn ni

---

**195.** Rydym wedi gofyn i Lywodraeth y Deyrnas Unedig ymwneud â’n gwaith. Araf fu’r ymateb i’n ceisiadau. Byddwn yn ymhelaethu ar hyn yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn.

**196.** Er bod araith Prif Weinidog y Deyrnas Unedig wedi rhoi manylion lefel-uchel am ddull Llywodraeth y Deyrnas Unedig o ymdrin â’r trafodaethau, mae llawer o gwestiynau heb eu hateb o hyd. Rydym yn parchu bod angen cadw rhai agweddau ar safbwynt Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn gyfrinachol. Serch hynny, credwn fod angen rhagor o eglurdeb ynghylch materion megis yr union rôl y mae’n ei gweld i lywodraethau a deddfwrfeydd datganoledig yn y broses.

---

<sup>138</sup> Cofnod y Trafodion, 1 Tachwedd 2016 14:16

<sup>139</sup> Cofnod y Trafodion, 21 Tachwedd 2016 c.155

<sup>140</sup> Ibid c.172

## 09. Llais Cymru yn y trafodaethau

### Egluro'r gwahanol agweddau ar y trafodaethau

**197.** Cyn ystyried rhai o'r dulliau y gallai Llywodraeth Cymru eu defnyddio i geisio dylanwadu ar y trafodaethau, mae'n werth sôn am y gwahanol elfennau sy'n rhan o 'becyn' trafodaethau Brexit a gynhelir dros y blynyddoedd nesaf. Gellir grwpio'r rhain yn bedair trafodaeth bosibl er hwylustod, er ei bod yn debygol y caiff rhai ohonynt o leiaf, mewn gwirionedd, eu cyfuno, neu eu cynnal ochr yn ochr â'i gilydd:

- **Cytundeb gadael:** bydd hwn yn canolbwyntio ar y gwahanu rhwng y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd, gan gynnwys y trefniadau ar gyfer sefydliadau (e.e. beth fydd yn digwydd i statws y Deyrnas Unedig o fewn Banc Buddsoddi Ewrop, y gwahanol asiantaethau yn yr Undeb Ewropeaidd ac ati), cyfraniadau i'r gyllideb, pensiynau, yr hawliau y mae dinasysddion y Deyrnas Unedig wedi'u caffael mewn gwledydd eraill yn yr Undeb Ewropeaidd a'r gwrthwyneb, ac o bosibl, mynd i'r afael â'r ffin rhwng Gogledd Iwerddon a Gweriniaeth Iwerddon. Wrth bleidleisio ynglŷn â'r cytundeb gadael, byddai gofyn dilyn trefn bleidleisio drwy fwyafrif cymwysedig (QMV) 27 gwladwriaeth yr Undeb yn y Cyngor a hefyd byddai gofyn cael cydsyniad Senedd Ewrop. Mae Erthygl 50 yn dweud ei bod yn rhaid i'r cytundeb gadael ystyried y fframwaith ar gyfer perthynas y Wladwriaeth sy'n gadael â'r Undeb yn y dyfodol, sy'n rhoi'r cyfle i'r Deyrnas Unedig geisio cysylltu'r trafodaethau hyn â'r ail a'r neu'r drydedd ffrwd o drafodaethau isod, neu i ofyn am gynnal trafodaethau cyfochrog ynghylch y rheini, am resymau sy'n ymwneud â'r amseru.
- **Y fframwaith ar gyfer cydweithredu â'r Undeb Ewropeaidd ar ôl Brexit:** a fydd yn cynnwys y gwahanol fathau o fodolau ar gyfer Brexit (Ardal Economaidd Ewrop, Model y Swistir, Cytundeb Masnach Rydd, masnachu o dan reolau Sefydliad Masnach y Byd, cytundeb wedi'i deilwra'n arbennig ac ati); goblygiadau sicrhau mynediad i'r farchnad rydd, cymryd rhan yn rhaglenni'r Undeb Ewropeaidd; a fydd y Deyrnas Unedig yn dal i gydweithredu mewn meysydd megis iechyd y cyhoedd ac os bydd, sut. Bydd gofyn cael unfrydedd ymhlith 27 yr Undeb Ewropeaidd yn y Cyngor ar gyfer y fframwaith hwn, ac mae'n debyg y bydd gofyn i'r holl Aelod Wladwriaethau ei gadarnhau'n unol â'u trefniadau cyfansoddiadol hwy eu hunain, ynghyd â sicrhau cydsyniad Senedd Ewrop. Dilynwyd y broses hon wrth lunio cytundeb masnach rydd CETA (Canada a'r Undeb Ewropeaidd) - ond arafwyd y broses gadarnhau derfynol gan ranbarthau Bruxelles-Capitale a Wallonia yng ngwlad Belg.
- **Trefniadau pontio:** h.y. a fydd unrhyw 'drefniadau pontio' yn cael eu rhoi ar waith cyn a hyd y cytunir ar fframwaith Ôl-Brexit, a byddai hyn yn cynnwys materion tebyg. Byddai natur y trefniadau pontio'n penderfynu beth fyddai'r trefniadau ar gyfer sicrhau cytundeb yn y Cyngor a'r Senedd: pe bai'n rhan o'r cytundeb gadael, byddai gofyn dilyn y drefn bleidleisio drwy fwyafrif cymwysedig yn y Cyngor; pe na bai, mae'n rhesymol tybio y byddai gofyn cael unfrydedd yn y Cyngor fel cytundeb ar wahân rhwng y Deyrnas Unedig a 27 yr Undeb Ewropeaidd. Yn y naill senario a'r llall, byddai gofyn i'r Senedd gydsynio.
- **Trefniadau mewnol y Deyrnas Unedig ar ôl Brexit:** gan gynnwys sut y byddai meysydd sydd yn draddodiadol wedi cael eu trafod ar lefel yr Undeb Ewropeaidd yn cael eu trafod wedyn - meysydd megis amaethyddiaeth, polisi datblygu rhanbarthol, yr amgylchedd, polisiâu ynghylch y môr a physgodfeydd, ac mae rhai o'r rheini (megis yr enghreifftiau a nodir

yma) yn dod o fewn cymhwysedd datganoledig yng Nghymru ac yng ngwledydd datganoledig eraill y Deyrnas Unedig

**198.** O ran rhan Cymru yn y drafodaeth am 'y cytundeb gadael' ei hun, bydd y materion sy'n berthnasol i'r isod o ddiddordeb iddi: sut yr ymdrinnid â'r ffin ar y tir ar ynys Iwerddon (a goblygiadau posibl hynny ar gyfer statws y ffin yn y môr rhwng Cymru ac Iwerddon); cyfraniadau at y gyllideb (os bydd i'r rhain oblygiadau ar gyfer grant bloc Cymru a'r cronfeydd strwythurol) a thrin 'hawliau sydd wedi'u caffael' (yn enwedig os bydd hyn yn mynd i'r afael â statws gwladolion yr Undeb Ewropeaidd yn y Deyrnas Unedig a statws gwladolion Prydain yn yr Undeb Ewropeaidd ar ôl Brexit).

**199.** Bydd prif ddiddordebau Cymru felly, y tu hwnt i'r pwynt hwn, yn berthnasol i'r tri phrif faes arall: sef y goblygiadau i Gymru yn sgil penderfyniadau ynghylch cysylltiadau â'r Undeb Ewropeaidd ar ôl Brexit, unrhyw ddarpariaeth ar gyfer trefniadau pontio, a threfniadau mewnol y Deyrnas Unedig.

**200.** Yn ein cyfres o seminarau ac wrth graffu ar Lywodraeth Cymru, clywsom amrywiaeth o safbwyntiau am y mecanweithiau sy'n cael eu rhoi ar waith yn y Deyrnas Unedig ar gyfer y trafodaethau, gan ganolbwyntio'n benodol ar drafodaethau ar lefel Brwsel, a'r rôl a roddid i Lywodraeth Cymru yn y broses hon.

## Cymru yn cymryd rhan yn y trafodaethau ym Mrwsel

**201.** Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi'i gwneud yn glir y bydd yn arwain yn y trafodaethau ym Mrwsel; yn wir, yr awgrym, yn ôl yr hyn a welwn ni, yw y bydd yn eu cynnal ar ei phen ei hun.

**202.** Roedd y Prif Weinidog yn ymddangos yn weddol hamddenol ei agwedd at y ffaith na fyddai gan Lywodraeth Cymru rôl uniongyrchol yn y trafodaethau eu hunain ar lefel Brwsel, gan ddweud:

---

"I don't think we necessarily have to be in the room in the negotiations, but it's important that there is an agreed position before those negotiations start".<sup>141</sup>

---

**203.** Clywsom dystiolaeth i'r gwrthwyneb gan yr Athro Keating, o Brifysgol Aberdeen, a awgrymodd:

---

"Being in the room is shorthand for a lot of other things. It's knowing what is going on, it's being there when the trade-offs are made, it's getting all the papers and being briefed for the meetings in advance."<sup>142</sup>

---

**204.** Cydnabu'r Athro Keating hefyd fod Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn annhebygol o ganiatáu'r lefel hon o fynediad i'r trafodaethau.<sup>143</sup>

**205.** Roedd safbwynt Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol yn gryfach:

---

"Full involvement in shaping the UK's negotiating position and direct participation in those negotiations which involve devolved areas of responsibility, using the model of the devolved administrations' participation in the Council of Ministers."<sup>144</sup>

---

---

<sup>141</sup> Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol, 7 Tachwedd 2016 c.125

<sup>142</sup> Ibid c.346

<sup>143</sup> Ibid

<sup>144</sup> Seithfed pwynt Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol yng Nghynhadledd Abertawe.



## Ein barn ni

**206.** Ein barn ni yw y dylai Llywodraeth Cymru bwysu i sicrhau llais yn yr trafodaethau, ar yr un llinellau ag yr awgrymodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol ac am y rhesymau a roddwyd gan yr Athro Keating. Ein barn ni yw y byddai cynnwys y llywodraethau datganoledig fel hyn yn cryfhau safbwynt y Deyrnas Unedig ac yn dangos ei hymrwymiad i gynnwys y llywodraethau datganoledig mewn ffordd ystyrlon.

**Argymhelliad 6.** Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru bwysu ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig i'w chynnwys yn llawn wrth lunio'i safbwynt ar gyfer y trafodaethau. Dylai gymryd rhan yn uniongyrchol yn y trafodaethau hynny sy'n ymwneud â meysydd cyfrifoldeb sydd wedi'u datganoli, neu â materion sy'n effeithio ar y meysydd hynny, gan ddefnyddio model Cyngor y Gweinidogion ar gyfer caniatáu i'r gweinyddiaethau datganoledig gymryd rhan.

## Cytuno ar safbwynt y Deyrnas Unedig â'r llywodraethau datganoledig cyn y trafodaethau

**207.** Mae'r Prif Weinidog wedi mynnu y dylai'r pedair gweinyddiaeth gytuno'n gyntaf ar beth fydd safbwynt terfynol y Deyrnas Unedig yn y trafodaethau ac y dylai'r cytundeb terfynol â'r Undeb Ewropeaidd gael ei gadarnhau gan bedair senedd y Deyrnas Unedig a'u deddfwrfeydd.<sup>145</sup>

## Y Cyd-bwyllgor Gweinidogion

**208.** Yn un o gyfarfodydd y Cyd-bwyllgor Gweinidogion ar 24 Hydref 2016, sefydlwyd Cyd-bwyllgor Gweinidogion newydd o blith Gweinidogion y pedair llywodraeth ar gyfer Negodiadau'r Undeb Ewropeaidd fel rhan o fframwaith ehangach y Cyd-bwyllgor.

**209.** Dyma'i gylch gorchwyl:

### Cydweithio yn y Trafodaethau ynghylch yr Undeb Ewropeaidd

Drwy CyG(TE) bydd y llywodraethau'n cydweithio:

- i drafod gofynion pob llywodraeth gyda golwg ar ei pherthynas â'r UE yn y dyfodol;
- i geisio cytuno ar ymagwedd y DU at y trafodaethau ynghylch Erthygl 50 a'r amcanion ar ei chyfer;
- i gadw golwg ar y trafodaethau â'r UE, er mwyn sicrhau, cyn belled ag y bo modd, bod y canlyniadau y bydd pob un o'r pedair llywodraeth wedi cytuno arnynt yn cael eu sicrhau yn sgil y trafodaethau hyn;
- i ystyried materion sy'n codi o'r broses drafod a allai effeithio ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig, Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Cymru neu Weithrediaeth Gogledd Iwerddon, neu a allai arwain at ganlyniadau iddynt.<sup>146</sup>

**210.** Bydd y Cyd-bwyllgor Gweinidogion (Negodiadau'r UE) yn cael ei gadeirio gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros adael yr UE, y Gwir Anrhydeddus David Davis AS. Bydd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid

<sup>145</sup> Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol, 7 Tachwedd 2016 c.64

<sup>146</sup> Llywodraeth y Deyrnas Unedig, Cyfathrebiad y Cyd-bwyllgor Gweinidogion, 24 Hydref 2016



a Llywodraeth Leol, Mark Drakeford AC, yn cynrychioli Llywodraeth Cymru. Mae'r Cydbwyllgor wedi cytuno i gyfarfod bob mis.<sup>147</sup>

**211.** Pan holwyd y Prif Weinidog am rôl y Cyd-bwyllgor Gweinidogion (Negodiadau'r UE) dywedodd:

“Can I say it would absolutely not be acceptable for it simply to be a body where the UK Government brought forward its proposals for the other three Governments to accept or not? That’s not in the spirit of partnership working. That’s not what the Prime Minister said, so it’s important that those words are adhered to.”<sup>148</sup>

**212.** O ran y Cyd-bwyllgor Gweinidogion (Negodiadau'r UE) a bod angen safbwynt trafod ar lefel y Deyrnas Unedig gyfan, dywedodd:

“I would prefer to see a negotiating position adopted by the UK that has wide buy-in [...] Sensibly, they [the UK Government] would want to be in a position where they can get as much agreement as possible in order for there to be a degree of unity around that negotiating position. So, that is what this committee must do, but it has to do that on the basis of agreement and not take it or leave it.”<sup>149</sup>

**213.** O ran datrys anghydfodau, roedd y Prif Weinidog yn derbyn y caiff Llywodraeth y Deyrnas Unedig wneud y penderfyniad terfynol ar ei phen ei hun:

“If you look at the dispute resolution process that we have in the JMC, ultimately, if there’s a dispute with the UK Government, the matter is resolved ultimately by the UK Government. They are both party and judge in the same case, as it were. And that’s an issue we’ve been arguing over for some time.”<sup>150</sup>

**214.** Cafwyd ymateb cymysg i greu'r Cyd-bwyllgor Gweinidogion (Negodiadau'r UE).

**215.** Clywsom fod strwythur y Cyd-bwyllgor hwn yn cael ei weld yn fecanwaith cymharol wan, ac mai Llywodraeth y Deyrnas Unedig sydd â'r rôl flaenaf ynddo. Er y bydd y Cyd-bwyllgor Gweinidogion (Negodiadau'r DU) yn cyfarfod yn amlach na'r Cyd-bwyllgor Gweinidogion presennol, ac y bydd ganddo raglen waith sydd wedi'i pharatoi drwy ymgynghori â'r gweinyddiaethau datganoledig, clywsom amheuan am ba mor gryf fyddai'r mecanwaith hwn er mwyn i Lywodraeth Cymru (a llywodraethau datganoledig eraill) ddylanwadu ar y trafodaethau.

**216.** Yn ôl Dr McGowan, o Brifysgol Queens Belfast, corff symbolaidd yw'r Cyd-bwyllgor Gweinidogion (Negodiadau'r UE) sydd fymryn yn wannach na mecanweithiau arferol y Cyd-bwyllgor Gweinidogion

**217.** Barn yr Athro Keating oedd:

“I think that that committee is weaker than the existing JMC mechanisms, which are themselves quite weak because the existing JMC mechanisms

<sup>147</sup> Cyfathrebiad yr Adran dros Adael yr Undeb Ewropeaidd, y Cyd-bwyllgor Gweinidogion (Negodiadau'r DU), 9 Tachwedd 2016

<sup>148</sup> Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol, 7 Tachwedd 2016 c.114

<sup>149</sup> Ibid c.115

<sup>150</sup> Ibid c.121

require circulation of papers; they require civil service back-up, committees at official level, and they're tied to a mechanism according to which devolved Ministers can actually go to the Council of Ministers as part of the UK delegation. Now, what I've seen from proposals for this committee has none of those extra features".<sup>151</sup>

**218.** Roedd Mr Pau, o'r Sefydliad Llywodraethu, yn fwy gochelgar wrth feirniadu'r Cyd-bwyllgor newydd

"Some of the signs have been quite discouraging; I would agree with that, but there is, at least, an agreement that this body will meet regularly."<sup>152</sup>

**219.** Dyma sut y disgrifiodd Syr Emyr Jones Parry y Cyd-bwyllgor:

"The JMC machinery was designed for another purpose. [...] Can I be unkind and say more as a talking shop, as an exchange of information, certainly not as a decision-making body with powers? So, is that the body for Wales to seek to influence what's happening? I think it has a role. It's not a bad thing for the First Minister or one of his Ministers to go to that body and set out the arguments, but what is the effect? I'd much rather if there were Cabinet Office machinery looking after these various negotiations and that Wales were plugged into it. There are a number of difficulties with that, not least that there doesn't seem to be such a Cabinet Office machinery."<sup>153</sup>

## Ein barn ni

**220.** Barn Syr Emyr sydd agosaf at ein barn ni, sef ein bod yn credu y dylai Llywodraeth Cymru ymwneud â phroses y Cyd-bwyllgor Gweinidogion, ond, ar sail y dystiolaeth a gawsom, mae gennym amheuan am y strwythur hwn. Credwn fod angen trefniant mwy cydradd i hwyluso cysylltiadau rhynglywodraethol yn y Deyrnas Unedig. Credwn fod achos o blaid diwygio'r Cyd-bwyllgor Gweinidogion er mwyn iddo ddod yn Gyngor Gweinidogion y Deyrnas Unedig sydd wedi'i seilio ar egwyddorion partneriaeth a chydraddoldeb.

**221.** Pan fydd materion datganoledig, neu faterion sy'n effeithio ar faterion datganoledig, yn cael eu hystyried yn Whitehall, credwn y dylid gofyn am gyfraniad uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys y strwythurau sy'n cael eu sefydlu i lywio'r trafodaethau ynghylch gadael a'r cysylltiadau masnach â'r UE ac â mannau eraill yn y dyfodol.

**222.** Mae rôl graffu o bwys i'w chwarae hefyd o ran monitro'r trefniadau rhynglywodraethol. Ystyrir hyn yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

## Llais Llywodraeth Cymru yn Whitehall

**223.** Ein her gyntaf wrth fynd ati i holi sut mae sicrhau bod buddiannau Cymru yn cael eu hystyried yn Whitehall yw ei bod yn anodd gwybod ar hyn o bryd beth yw'r mecanweithiau ar gyfer paratoi safbwynt Llywodraeth y Deyrnas Unedig.

<sup>151</sup> Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol, 7 Tachwedd 2016, c.340

<sup>152</sup> Ibid c.344

<sup>153</sup> Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol, 7 Tachwedd 2016 c.123

**224.** Roeddem wedi gobeithio clywed gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros adael yr Undeb Ewropeaidd yn ystod cam cyntaf ein gwaith, er mwyn inni ddeall yn well sut mae Whitehall yn ymbaratoi ac i ba raddau y mae buddiannau Cymru yn cael eu cynrychioli. Rydym wedi ysgrifennu ddwywaith at yr Ysgrifennydd Gwladol, ar 8 Tachwedd 2016 ac ar 16 Tachwedd 2016. Yn ogystal â hyn, mae ein clercod wedi cysylltu sawl gwaith â'i adran.

**225.** Cawsom ymateb ffurfiol, dyddiedig 18 Ionawr 2017. Rydym yn falch bod yr Ysgrifennydd Gwladol bellach wedi cytuno i anfon ei Weinidog Gwladol, y Gwir Anrhydeddus David Jones AS, i fod yn bresennol mewn cyfarfod yn y dyfodol.

## Ein barn ni

**226.** Er ein bod yn siomedig i'r Ysgrifennydd Gwladol fod gyhyd yn ymateb, edrychwn ymlaen at gael ei Weinidog Gwladol yn bresennol mewn cyfarfod yn y dyfodol. Er mwyn inni graffu'n drwyadl ar Lywodraeth Cymru, a chyflawni ein dyletswydd i sicrhau bod materion o bwys i Gymru yn cael eu hystyried yn briodol yn y broses, byddwn yn disgwyl i Lywodraeth y Deyrnas Unedig ymwneud â'n gwaith.

**227.** Byddwn yn parhau i ystyried faint o lais ffurfiol sydd gan Lywodraeth Cymru yn Whitehall.

**228.** Rydym yn cytuno ag awgrym Syr Emyr Jones Parry fod angen i Gymru gael cysylltiad â'r grwpiau neu'r pwyllgorau yn Whitehall a fydd yn ymwneud â pharatoi manylion safbwynt Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn y trafodaethau.<sup>154</sup> Crybwyllodd sawl grŵp posibl sydd wedi'u sefydlu. Esboniodd hefyd ei farn bod llawer o'r strwythurau a oedd ar un adeg wedi'u canoli (wedi'u lleoli'n hanesyddol yn Swyddfa'r Cabinet) ac a oedd yn cydlynu cyfraniad Whitehall at y trafodaethau wedi'u gwasgaru ar draws sawl un o'r adrannau newydd (megis yr Adran dros Adael yr Undeb Ewropeaidd ('DExEU') a'r Adran Masnach Ryngwladol ('DIT')).<sup>155</sup>

**229.** Ein dealltwriaeth ni yw bod DExEU wedi'i sefydlu i gydlynu ymdrechion Whitehall, ond nid yw'n glir inni o hyd a yw hyn yn wir ym mhob maes polisi.

## Trefniadau pontio

**230.** Yng nghynhadledd Abertawe, galwodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol am hyn:

“A new focus on transitional arrangements. There must be no cliff edge to UK membership of the EU. The complexity of Article 50 negotiations means they will inevitably focus on how the UK will extricate itself from current arrangements. Future relationships with the EU and the rest of the world will have to be developed and agreed over a far longer period. Transitional arrangements which remain as close as possible to the existing position will provide the most stable platform for future negotiations.”<sup>156</sup>

**231.** Ategwyd y farn hon gan nifer o ymatebwyr a thystion, gan gynnwys yr Athro Gerry Holtham a awgrymodd y dylid sicrhau rhywfaint o drefniadau glanio meddal interim.<sup>157</sup>

<sup>154</sup> Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol, 7 Tachwedd 2016 c.123

<sup>155</sup> Ibid c.126

<sup>156</sup> Chweched pwynt yr Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth leol yng Nghynhadledd Abertawe.

<sup>157</sup> Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol, 21 Tachwedd 2016 c.4

**232.** Nid oes gan Syr Emyr Jones Parry amheuaeth na fydd angen rhyw fath o drefniadau pontio:

---

“[...] some form of transitional arrangements are going to be necessary, because there isn't the capacity either in legislatures or within the civil service to actually cover all those aspects that I've tried to set out within the time available.”<sup>158</sup>

---

**233.** Yn ei haraith ar 17 Ionawr, dywedodd Prif Weinidog y Deyrnas Unedig y byddai'n ceisio osgoi dibyn difrodus ond na fyddai'n awyddus i weld statws pontio diderfyn. Esboniodd ei bod am sicrhau cytundeb ynghylch perthynas y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd yn y dyfodol erbyn i broses ddwy flynedd Erthygl 50 ddod i ben.

**234.** Wrth ddweud hyn, roedd yn cydnabod:

---

“From that point onwards, we believe a phased process of implementation, in which both Britain and the EU institutions and member states prepare for the new arrangements that will exist between us will be in our mutual self-interest. This will give businesses enough time to plan and prepare for those new arrangements.”<sup>159</sup>

---

**235.** Oni lwyddir i sicrhau cytundeb boddhaol, awgrymodd Prif Weinidog y Deyrnas Unedig y dylid newid model economaidd y DU gan roi pwyslais ar y rhyddid a fyddai gan y Deyrnas Unedig i osod cyfraddau treth gystadleuol.

### **Ein barn ni**

**236.** Rydym yn cefnogi cais Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol am ganolbwyntio ar drefniadau pontio.

**237.** Rydym yn sylweddoli y gallai treulio cyfnod cymharol fyr hyd yn oed yn masnachu o dan reolau Sefydliad Masnach y Byd ddifrodi ein sectorau gweithgynhyrchu ac amaethu. Gallai hyn fod yn niweidiol i economi Cymru.

**238.** Er bod amcan Prif Weinidog y Deyrnas Unedig, sef mynd ati gam wrth gam, i bob golwg yn rhesymol, nid aeth i'r afael â beth fyddai'r canlyniadau i'r Deyrnas Unedig oni lwyddid i wireddu'r amcan hwn. Mae angen rhagor o eglurdeb ynghylch sut y bydd y Deyrnas Unedig yn lliniaru effaith gorfod masnachu o dan reolau Sefydliad Masnach y Byd.

---

<sup>158</sup> Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol, 21 Tachwedd 2016 c.189

<sup>159</sup> Swyddfa Prif Weinidog y DU, 10 Downing Street, *The UK government's negotiating objectives for exiting the EU: Araith y Prif Weinidog, 17 Ionawr 2017*

## 10. Cysylltiadau o fewn y Deyrnas Unedig a chwestiynau cyfansoddiadol

**239.** Mae cam cyntaf ein gwaith wedi amlygu nifer o gwestiynau sylfaenol am ba mor ddigonol yw trefniadau cyfansoddiadol presennol y Deyrnas Unedig, ac mae'r rheini wedi dod amlycach eto wrth ystyried Bil Cymru. Mae gwaith Pwyllgorau'r Cynulliad ac, yn fwy diweddar, gwaith y Pwyllgor Gweinyddu Cyhoeddus a'r Cyfansoddiad yn Nhŷ'r Cyffredin wedi cyfeirio at hyn.<sup>160</sup>

### Fframweithiau ar gyfer y Deyrnas Unedig gyfan

**240.** Ar ôl gadael yr Undeb Ewropeaidd, mae sawl maes polisi a allai elwa o dull gweithredu neu fframwaith y cytunir arno ar gyfer y Deyrnas Unedig gyfan. Er enghraifft, polisiâu amaethyddol, morol ac amgylcheddol a pholisi datblygu rhanbarthol yn lle'r cronfeydd strwythurol.

**241.** Mae'r Prif Weinidog, i bob golwg, yn agored i'r posibilrwydd o greu fframweithiau ar gyfer y Deyrnas Unedig mewn rhai meysydd megis iechyd anifeiliaid ac amaethyddiaeth, ond gyda'r amod ei bod yn rhaid datblygu a chytuno ar unrhyw fframwaith o'r fath rhwng llywodraethau'r Deyrnas Unedig yn hytrach na'u gorfodi gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig.

---

“In some areas, it would make sense for there to be agreement—and I stress the word ‘agreement’—between the different Governments on a common policy: animal health, for example. It would be very difficult to have three different systems of animal health on this island. It would make sense for there to be one system—but agreed, not imposed; that’s the important issue from my perspective.”<sup>161</sup>

---

**242.** Yn ôl y Prif Weinidog, mae dros 5,000 o ddarnau o ddeddfwriaeth yn effeithio ar feysydd sydd wedi'u datganoli ar hyn o bryd y byddai angen eu pwysu a'u mesur. Mae'r Prif Weinidog yn credu y bydd angen llawer o'r offerynnau cyfreithiol hyn yn y dyfodol ac y byddai'n gwneud synnwyr deddfu ar eu cyfer yng nghyfraith y Deyrnas Unedig.<sup>162</sup> Dywedodd hefyd y byddai'n ddoeth cytuno ar safonau a fyddai'n ofynnol drwy'r Deyrnas Unedig i gyd ym maes polisi amgylcheddol.<sup>163</sup>

**243.** Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol wedi galw am:

---

“Unambiguous recognition of the uninterrupted continuation of existing devolved competencies as the UK leaves the EU: devolved competencies currently regulated at the EU level must continue to be exercised by the devolved administrations, once we are no longer members of the EU: any new UK frameworks must be freely negotiated between all four Governments.”<sup>164</sup>

---

a

---

“Wholehearted commitment to redrawing the relationship between the component parts of the United Kingdom, in the post European Union period,

---

<sup>160</sup> Pwyllgor Gweinyddu Cyhoeddus a'r Cyfansoddiad, Tŷ'r Cyffredin, *The Future of the Union, part two: Inter-institutional relations in the UK*, 6 Rhagfyr 2016

<sup>161</sup> Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol, 7 Tachwedd 2016 c58

<sup>162</sup> Ibid c.157-158

<sup>163</sup> Ibid c.171

<sup>164</sup> Wythfed pwynt yr Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth leol yng Nghynhadledd Abertawe.

including both the distribution of responsibilities and the machinery of government between the four nations.”<sup>165</sup>

---

**244.** Mae Prif Weinidog y Deyrnas Unedig wedi dweud:

“Part of that will mean working very carefully to ensure that – as powers are repatriated from Brussels back to Britain – the right powers are returned to Westminster, and the right powers are passed to the devolved administrations of Scotland, Wales and Northern Ireland.

As we do so, our guiding principle must be to ensure that – as we leave the European Union – no new barriers to living and doing business within our own Union are created,

That means maintaining the necessary common standards and frameworks for our own domestic market, empowering the UK as an open, trading nation to strike the best trade deals around the world, and protecting the common resources of our islands.

And as we do this, I should equally be clear that no decisions currently taken by the devolved administrations will be removed from them.”<sup>166</sup>

---

## Rhannu cymhwysedd a chydweithredu rhwng y llywodraethau

**245.** Wrth ystyried a oes angen i lywodraethau gydweithio ar ddulliau cyffredin, rhaid inni hefyd ystyried a oes mecanwaith addas ar gael ar gyfer hyn. Ar sail y dystiolaeth a gafwyd, mae’n amlwg i ni nad oes mecanwaith o’r fath ar hyn o bryd. Dyma farn y Prif Weinidog:

“The UK doesn’t have a mechanism where governments can come together—call it a mini council of ministers, possibly—come together and agree these common standards and agree a common approach that benefits everybody. We don’t have that structure in place at the moment and we will need it in the future.”<sup>167</sup>

---

**246.** Mae datganoli wedi digwydd yng nghyd-destun yr Undeb Ewropeaidd ac mae fframwaith yr Undeb Ewropeaidd yn gorwedd uwchben llawer o feysydd allweddol sydd wedi’u datganoli. Gellir dweud bod yr Undeb Ewropeaidd yn fodel sydd wedi’i seilio ar gronni sofraniaeth a rhannu cymhwysedd.

**247.** Yn ei chyflwyniad ysgrifenedig, mae Dr Jo Hunt o Ysgol y Gyfraith a Gwleidyddiaeth Prifysgol Caerdydd, yn awgrymu y bydd angen i’r Deyrnas Unedig symud tuag at drefn rhannu cymhwysedd mewn nifer o feysydd ar ôl Brexit, gan ddefnyddio egwyddor sybsidiaredd i bennu ar be lefel o lywodraeth y mae’n briodol gweithredu.<sup>168</sup>

**248.** Fodd bynnag, mae Dr Hunt yn dweud y byddai dull gweithredu o’r fath yn beth newydd yn y Deyrnas Unedig:

---

<sup>165</sup> Nawfed pwynt yr Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth leol yng Nghynhadledd Abertawe.

<sup>166</sup> Swyddfa Prif Weinidog y DU, 10 Downing Street, *The UK government’s negotiating objectives for exiting the EU: Araith y Prif Weinidog*, 17 Ionawr 2017

<sup>167</sup> Ibid c.173

<sup>168</sup> IOB 42 Dr Jo Hunt, Ysgol y Gyfraith a Gwleidyddiaeth, Prifysgol Caerdydd



---

“Under the UK’s current constitutional structures, there is a tendency towards a binary allocation of competences as either devolved, for exercise at that level, or not devolved, and for exercise at the UK level. There is little experience of shared competence as practiced in the EU.”<sup>169</sup>

---

**249.** Mae Dr Hunt yn dadlau o blaid hyn:

---

[...] a post-Brexit redefinition of powers which embraces the notion of shared competence and the meaningful operation of the principle of subsidiarity – that decisions should be taken at the lowest most effective level, and where this is at a UK level there are robust structures for the four legislatures to work together to devise the legislative response. The current internal intergovernmental machinery will require development to be able to deliver this new settlement.”<sup>170</sup>

---

**250.** Awgrymodd Dr Rachel Minto, o Ganolfan Llywodraethiant Cymru, wrth ystyried cydlynu polisiau ar ôl Brexit yn y Deyrnas Unedig, y gallai'r ffordd y mae'r Undeb Ewropeaidd yn gweithio fod yn ysbrydoliaeth yn hyn o beth. <sup>171</sup> Mae hyn yn ategu cyflwyniad ysgrifenedig Dr Hunt<sup>172</sup> a'i thystiolaeth lafar.<sup>173</sup>

**251.** Yn ein cyfarfod ar 7 Tachwedd 2016, yn ôl yr Athro Roger Scully, o Ganolfan Llywodraethiant Cymru, cyntefig yw mecanweithiau'r Deyrnas Unedig ar gyfer yr hyn y mae'n ei alw'n rhannu trefniadau.

---

“While devolution has advanced quite a lot in terms of what scholars sometimes term ‘self-rule’ for Scotland, Wales and Northern Ireland, we have very little substantial mechanisms and process of any type for what is sometimes termed, ‘shared rule’, whereby the sub-state units contribute to the formal decision making of the state as a whole, and will have formalised relations with the state-level Government. That remains to this day very primitive in the United Kingdom, compared to many international examples”.<sup>174</sup>

---

**252.** Mae'r Athro Scully egluro sut mae Whitehall, yn ei farn ef, yn gweld rhannu cymhwysedd:

---

“The predominant model that certainly Whitehall has understood has primarily been about bilateral negotiation at each of those individual unions, rather than incorporating them all into a structure that also then has to find some place for England, which remains the great unresolved question within the UK’s constitutional structures.”<sup>175</sup>

---

**253.** Mae Mr Paun, wrth gyfeirio at gwestiwn sydd fymryn yn wahanol, yn gwneud pwynt perthnasol am sut y gallai fod angen i Whitehall fynd i'r afael â meysydd polisi lle bydd angen llunio dull

---

<sup>169</sup> IOB 42 Dr Jo Hunt, Ysgol y Gyfraith a Gwleidyddiaeth, Prifysgol Caerdydd

<sup>170</sup> Ibid

<sup>171</sup> Ibid c.233

<sup>172</sup> IOB 42 Dr Jo Hunt, Ysgol y Gyfraith a Gwleidyddiaeth, Prifysgol Caerdydd

<sup>173</sup> Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol, 7 Tachwedd 2016, c.241

<sup>174</sup> Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol, 7 Tachwedd 2016, c.228

<sup>175</sup> Ibid c.240



gweithredu ar y cyd gan ddweud y byddai'n rhaid i'r rhannau perthnasol hynny o Whitehall, ddechrau meddwl amdanynt eu hunain fel Llywodraeth Lloegr, a hynny mewn ffordd sy'n ddieithr iddynt.<sup>176</sup>

**254.** Gan gytuno â chyflwyniad ysgrifenedig Dr Hunt, mae'r Athro Scully'n credu y gellid dadlau bod achos cryf iawn o blaid cael mecanweithiau mwy sylweddol a ffurfiol ar gyfer cydreoli a chydweithio rhwng y llywodraethau.<sup>177</sup>

**255.** Clywsom hefyd fod Llundain wedi tanamcangyfrif i ba raddau y mae'r setliadau datganoli wedi bwrw gwreiddiau yn ein haelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd. Cawsom asesiad gan yr Athro Keating o'r effaith y gallai hyn ei chael ar setliad cyfansoddiadol y Deyrnas Unedig wrth iddo esblygu.

---

“I think one of the things that's not appreciated sufficiently in London is the way in which the devolution settlements are deeply embedded in EU membership, because we've only ever had devolution under the EU. This has permitted a much more expansive version of devolution than otherwise would be possible, because regulation was done at the European level, and therefore, Westminster was not worried about competition policy, state aids and so on, compared with what was proposed in the 1970s.”<sup>178</sup>

---

**256.** Mae'r Athro Keating yn awgrymu hefyd fod y berthynas rhwng datganoli ac aelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd wedi creu gofod ar gyfer dechrau trafod syniadau am rannu sofraniaeth, fel na fydd y dadleuon am sofraniaeth yn troi'n swm-sero. Mae'n golygu bod modd arddel sawl safbwynt am awdurdod, yn hytrach na dweud mai un awdurdod sydd.<sup>179</sup>

**257.** Mae'n awgrymu bod y ffordd anuniongyrchol y mae datganoli a setliad cyfansoddiadol ehangach y Deyrnas Unedig wedi datblygu (y *traddodiad pragmataidd Prydeinig* yn ei eiriau ef) yn anaddas i ddelio â materion sy'n ymwneud ag egwyddor:

---

“If you take an issue of principle: take back sovereignty—to where? To London or to Cardiff or to Edinburgh? [...] it means that the basis of the UK evolving constitutional settlement has been seriously undermined.”<sup>180</sup>

---

## Ein barn ni

**258.** Mae llawer o waith i'w wneud i ddatblygu cysylltiadau rhynglywodraethol a rhyngheneddol. Mae ein cylch gwaith yn gofyn inni ystyried y trefniadau o fewn y Deyrnas Unedig ar ôl gadael ac, yn benodol, mae angen rhoi sylw i fater rhannu cymhwysedd.

**259.** Rydym yn poeni nad yw Whitehall o bosibl yn llawn sylweddoli sut mae cysyniadau ynglŷn â rhannu cymhwysedd wedi datblygu yng nghyd-destun setliadau datganoli sydd â'u gwreiddiau mewn aelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd.

**260.** Cyflwynwyd dadl gref o blaid arddel dull gweithredu yr Undeb Ewropeaidd mewn perthynas â sybsidiaredd yn egwyddor bosibl ar gyfer datblygu perthynas newydd o fewn y Deyrnas Unedig ac mae'n haeddu ei hystyried ymhellach.

---

<sup>176</sup> Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol, 7 Tachwedd 2016, c.378

<sup>177</sup> Ibid c.234

<sup>178</sup> Ibid c.393

<sup>179</sup> Ibid

<sup>180</sup> Ibid c.395

**261.** Rydym yn cefnogi barn Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol y dylai fod gan Lywodraeth Cymru ran uniongyrchol yn y trafodaethau hynny sy'n ymwneud â meysydd cyfrifoldeb datganoledig.<sup>181</sup>

**262.** At hynny, credwn y dylai llywodraethau sydd wedi'u datganoli fod yn ymwneud yn llawn â datblygu polisiau a threfniadau rhyngwladol sy'n effeithio ar feysydd cymhwysedd datganoledig.

**263.** Un enghraifft ymarferol iawn lle y gallai problemau godi yn y dyfodol (gan dybio na fydd y Deyrnas Unedig yn parhau yn rhan o Undeb Tollau'r Undeb Ewropeaidd ar ôl Brexit) yw ym maes masnach. Ar hyn o bryd, cymhwysedd cadw (heb ei ddatganoli) yw masnach ryngwladol, ond gallai telerau cytundebau masnach effeithio'n uniongyrchol ar feysydd sydd wedi'u datganoli (megis amaethyddiaeth a darparu gwasanaethau cyhoeddus).

**264.** Nodwn y trefniadau mewn mannau eraill lle bydd llywodraethau a seneddau datganoledig tebyg yn cymryd rhan mewn prosesau masnach, megis yng Nghanada ac yng Ngwlad Belg. Mae'r rhain yn haeddu eu harchwilio ymhellach a dylai Llywodraeth Cymru eu hystyried.

## Sefyllfa Llywodraeth Cymru

**265.** O'i chymharu â llywodraeth yr Alban a Gogledd Iwerddon, mae Llywodraeth Cymru mewn sefyllfa wahanol o ran gallu pwyso ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig ac yn y trafodaethau ym Mrwsel, gan fod Cymru wedi pleidleisio o blaid gadael.

**266.** Yn ôl yr Athro Scully:

---

“There's the old saying 'speak softly but carry a big stick', well, in our case, I think maybe we're going to have to speak softly because everyone knows we don't have a stick.”<sup>182</sup>

---

**267.** Dywedwyd wrthym y gallai Llywodraeth Cymru ymateb i hyn yn dactegol mewn sawl ffordd, gan gynnwys canolbwyntio ar nifer o flaenoriaethau yn y trafodaethau,<sup>183</sup> yn ogystal â gweld pwy fyddai'r cynghreiriaid gorau yn y trafodaethau i fynd ar drywydd y buddiannau hyn.<sup>184</sup> Efallai mai'r llywodraethau datganoledig eraill, Llywodraeth y Deyrnas Unedig, Aelod Wladwriaethau a Rhanbarthau eraill yr Undeb Ewropeaidd, a/neu Senedd Ewrop fyddai'r cynghreiriaid hynny.

**268.** Dywedodd Syr Emyr Jones Parry wrthym:

---

“[...]the primary interest of the Welsh Government, I think, is really in influencing the British Government and making sure that that position is one as compatible as possible with Welsh interests.”<sup>185</sup>

---

<sup>181</sup> Seithfed pwynt Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth leol yng Nghynhadledd Abertawe.

<sup>182</sup> Ibid c.191

<sup>183</sup> Ibid c.257

<sup>184</sup> Ibid c.207

<sup>185</sup> Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol, 21 Tachwedd 2016 c.196

## Ein barn ni

---

- 269.** Rydym yn pwyso ar Lywodraeth Cymru i feithrin cynghreiriau gyda gwledydd a rhanbarthau datganoledig eraill y Deyrnas Unedig er mwyn sicrhau'r canlyniad gorau posibl i Gymru.
- 270.** Er mai dylanwadu ar safbwynt Llywodraeth y Deyrnas Unedig ddylai fod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru, dylai barhau i archwilio pob trywydd posibl i ddylanwadu.

# 11. Craffu gan y Cynulliad

## Craffu ar gysylltiadau rhynglywodraethol

**271.** Yn sgil creu'r Cyd-bwyllgor Gweinidogon (Negodiadau'r UE) mae angen datblygu trefniant craffu mwy ffurfiol gyda Llywodraeth Cymru.

**272.** Rydym yn ymwybodol o'r cytundeb ysgrifenedig rhwng Senedd yr Alban a Llywodraeth yr Alban sy'n ceisio gwella'r craffu ar gysylltiadau rhynglywodraethol ffurfiol.

**273.** I bob golwg, mae hyn yn cynnig man cychwyn da inni ddatblygu ein gwaith craffu ar weithgarwch Llywodraeth Cymru o fewn strwythur y Cyd-bwyllgor Gweinidogion (Negodiadau'r UE) a chysylltiadau rhynglywodraethol eraill sy'n berthnasol i'n cylch gwaith (o fewn strwythur y Cyd-bwyllgor Gweinidogion a'r tu allan iddo).

**274.** Trafodwyd hyn ag Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol pan ddaeth ger ein bron ar 23 Ionawr 2017 a bwriadwn ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet i ofyn iddo ystyried darparu, yn lle unrhyw gytundeb ffurfiol, fanylion agendâu cyfarfodydd y Cyd-bwyllgor sydd i'w cynnal a nodyn ysgrifenedig am yr hyn a ddigwyddodd ym mhob cyfarfod o fewn pythefnos i'w gynnal.

**275.** Dywedodd y Prif Weinidog ei fod yn barod i rannu gwybodaeth â ni am gyfarfodydd y Cyd-bwyllgor, gan ddweud ei bod yn hawdd iawn trafod yr hyn a drafodir yn y cyfarfodydd hynny, a chytuno ar ein safbwynt wrth fynd i mewn iddynt.<sup>186</sup>

### Ein barn ni

**276.** Rydym yn croesawu dull tryloyw Prif Weinidog Cymru o ymdrin â chyfarfodydd y Cyd-bwyllgor Gweinidogol (Negodiadau'r UE) ac edrychwn ymlaen at ddatblygu trefniadau craffu priodol gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol.

## Cysylltiadau rhyngheneddol

**277.** Mewn adroddiad diweddar gan Dŷ'r Cyffredin, wrth sôn am gysylltiadau rhynglywodraethol, dywedwyd bod cysylltiadau rhyngheneddol yn berthynas dlotach a llai datblygedig ac nad oes corff seneddol ar lefel ffurfiol sy'n cyfateb yn uniongyrchol i'r Cyd-bwyllgor Gweinidogol.<sup>187</sup>

**278.** Yn y gorffennol, mae pwyllgorau'r Cynulliad wedi cynrychioli barn Cymru yn llwyddiannus ar lefel Ewrop drwy ganolbwyntio ar ymgysylltu â Senedd Ewrop. Yn ei dro, roedd hyn yn llwyfan buddiol i graffu ar y camau a gymerid gan Lywodraeth Cymru.

### Ein barn ni

**279.** Er ein bod yn cydnabod diffyg strwythurau ffurfiol, mae Pwyllgorau Ewropeaidd Fforwm y Deyrnas Unedig (Fforwm EC-UK)<sup>188</sup> wedi bod yn strwythur gwerthfawr ar gyfer rhannu gwybodaeth ar lefel aelodau etholedig ac ar lefel swyddogion.

**280.** Rydym wedi ymrwymo i gyfrannu at y fforwm hwn.

<sup>186</sup> Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol, 7 Tachwedd 2016 c.131

<sup>187</sup> Pwyllgor Gweinyddu Cyhoeddus a'r Cyfansoddiad, Tŷ'r Cyffredin, *The Future of the Union, part two: Inter-institutional relations in the UK*, 6 Tachwedd 2016 t.79

<sup>188</sup> DN INSERT DESCRIPTION

**281.** Rydym hefyd yn croesawu cynnig Senedd yr Alban i gynnal cynhadledd i aelodau pwyllgorau 'Brexit' o bob un o'r deddfwrfeydd datganoledig a Chynulliad Llundain.

**282.** Rydym hefyd yn bwriadu cynnal cyfres o gyfarfodydd yn Llundain cyn y Pasg gan obeithio cyfarfod â chymheiriaid o Senedd y Deyrnas Unedig ac o Gynulliad Llundain.

**283.** Gallwn weld y gall fod dadl o blaid mynd ati mewn ffordd fwy cydlynol i graffu ar gysylltiadau rhynglywodraethol ac, yn enwedig o'n safbwynt ni, ar y Cyd-bwyllgor Gweinidogion (Negodiadau'r UE). Mae hyn yn rhywbeth yr ydym ar ei drywydd yn anffurfiol ar hyn o bryd. Mae'r cytundeb a ddatblygwyd yn yr Alban yn cynnig man cychwyn da.

**284.** Yn gynharach yn yr adroddiad hwn, rydym yn cydnabod y dylai Llywodraeth Cymru flaenoriaethu ei hymwneud â Llundain. Credwn hefyd ei bod yn rhaid inni symud ein ffocws at ymwneud â chymheiriaid yn Senedd y Deyrnas Unedig a'r deddfwrfeydd datganoledig.

**285.** Rydym yn cefnogi ac yn annog datblygu cysylltiadau rhwng y Cynulliad a deddfwrfeydd y Deyrnas Unedig.

### **Bil Diddymu**

**286.** Pan grybwyllodd Prif Weinidog y Deyrnas Unedig yn ei haraith yn y gynhadledd y gellid cyflwyno 'Bil Diddymu', denodd hynny gryn sylw yn ein sesiynau tystiolaeth dilynol.

**287.** Yn adran Gyfreithiol Papur Ymchwil y Cynulliad ar 24 Mehefin 2016 (adran 5) gwelwyd bod cryn bosibiliadau i'r math hwn o fesur drwy ddefnyddio 'cyfraith bontio' i gadw'r holl gyfreithiau (neu'r rhan fwyaf ohonynt) sydd â'u gwraidd yn yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer y Deyrnas Unedig am gyfnod ar ôl gadael, er mwyn cael amser i'w hadolygu ac o bosibl eu diddymu neu eu diwygio. Mae'r Papur Ymchwil hefyd yn nodi ambell fater y byddai angen ymdrin ag ef yn y 'Bil Diddymu':

“The work involved in reviewing and potentially replacing all UK laws which give effect to EU law and/or refer to EU legislation is so great that it is likely that the responsible government would seek to enact transitional provisions to keep all/much of those laws in force during a period after withdrawal (although this may depend on the length of the withdrawal negotiation period). It would also be premature to repeal/amend these laws until it is clear whether the UK will be bound in future by any of the EU obligations it implements (as it would be under an EEA or EFTA model or under an association agreement with the EU).”<sup>189</sup>

**288.** Un cwestiwn a fydd yn codi yw ymhle mae'r pŵer i wneud darpariaeth bontio/cadw o'r fath, i gadw cyfraith sydd â'i gwraidd yn yr Undeb Ewropeaidd mewn grym yng Nghymru ar ôl gadael, neu yn wir, i ddiwygio neu ddiddymu rhai o'r cyfreithiau hyn neu'r holl gyfreithiau sydd â'u gwraidd yn yr Undeb Ewropeaidd: ai gyda Llywodraeth Cymru a'r Cynulliad mewn meysydd polisi sydd wedi'u datganoli, ynteu gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r Senedd.

**289.** Barn Prif Gyngorydd Cyfreithiol y Cynulliad yw mai yn nwylo Llywodraeth Cymru a'r Cynulliad y mae'r pŵer hwn. Er enghraifft, mae gan y Cynulliad gymhwysedd ym maes “diogelu'r amgylchedd”. Ar hyn o bryd, gall ddefnyddio'r cymhwysedd hwn i roi cyfraith amgylcheddol yr Undeb Ewropeaidd ar waith yng nghyswllt Cymru. Felly, os bydd Senedd y Deyrnas Unedig, yn y Bil Diddymu, yn darparu fel y

<sup>189</sup> Gwasanaeth Ymchwil a Gwasanaeth Cyfreithiol Cynulliad Cenedlaethol Cymru *Cymru a'r Undeb Ewropeaidd: Beth mae'r bleidlais i adael yr Undeb Ewropeaidd yn ei olygu i Gymru?*, Mehefin 2016

bydd cyfraith amgylcheddol sydd â'i gwraidd yn yr Undeb Ewropeaidd yn dal yn berthnasol yng Nghymru ar ôl Brexit, bydd yn deddfu mewn perthynas â materion datganoledig - sydd fel rheol yn golygu bod gofyn cael cydsyniad y Cynulliad o dan Gonfensiwn Sewel. Gallai Llywodraeth y Deyrnas Unedig geisio dadlau y byddai'r Senedd mewn gwirionedd yn deddfu ynghylch y berthynas â'r Undeb Ewropeaidd, yn hytrach nag ynghylch diogelu'r amgylchedd. Nid yw'r Prif Gynghorydd Cyfreithiol yn meddwl y byddai'r ddadl hon yn llwyddo - yn enwedig gan na fwriedir i'r Bil Diddymu ddod i rym nes bod y Deyrnas Unedig yn gadael yr Undeb Ewropeaidd mewn gwirionedd.

**290.** Byddai'r un dadleuon yn berthnasol yn eu hanfod pe bai'r Bil yn ceisio effeithio ar bŵer ar wahân sydd gan Weinidogion Cymru, i ddiwygio neu ddiddymu, ar gyfer Cymru, nifer fawr o gyfreithiau sydd wedi'u seilio ar Gyfarwyddebau'r Undeb Ewropeaidd.

**291.** Mae Confensiwn Sewel yn galw hefyd am gydsyniad y Cynulliad cyn y caiff Senedd y Deyrnas Unedig newid ei gymhwysedd – felly, pe bai'r Bil Diddymu'n ceisio dileu gallu'r Cynulliad i ddeddfu ym maes amddiffyn yr amgylchedd, amaethyddiaeth ac ati, lle byddai'r ddeddfwriaeth honno'n ymwneud â chyn-gyfreithiau'r Undeb Ewropeaidd, byddai'r Confensiwn yn dweud bod angen cydsyniad y Cynulliad.

**292.** Mae'n bosibl y bydd y 'Bil Diddymu' yn adlewyrchu'r sefyllfa bresennol, lle bydd gan Weinidogion Llywodraeth y Deyrnas Unedig bŵer cyfochrog ('cydredol') â Gweinidogion Cymru, sef pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth mewn meysydd polisi sydd wedi'u datganoli i Gymru, ar faterion sy'n deillio'n wreiddiol o gyfraith yr Undeb Ewropeaidd. Petai Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn arddel barn wahanol i farn Cymru ynglŷn â pha mor ddymunol fyddai adlewyrchu cyfraith bresennol yr Undeb Ewropeaidd mewn meysydd sydd wedi'u datganoli, gallai hynny danseilio'r drefn benderfynu ac arwain at wrthdaro difrifol. Byddai darpariaeth o'r fath yn y 'Bil Diddymu' hefyd, mewn egwyddor, yn gorfod cael cydsyniad deddfwriaethol y Cynulliad o dan Gonfensiwn Sewel, er y byddai'n adlewyrchu'r sefyllfa bresennol.

**293.** Fodd bynnag, mae nifer o eithriadau i'r Confensiwn. Hefyd, mae'r Goruchaf Lys bellach wedi'i gwneud yn glir, yn ei ddyfarniad ar 24 Ionawr ynghylch o dan ba amgylchiadau y gellir cychwyn proses Erthygl 50 o'r Cytuniad ar yr Undeb Ewropeaidd,<sup>190</sup> nad yw'r Confensiwn yn gyfreithiol gyfrwymol – nid hyd yn oed i'r graddau y mae bellach wedi bwrw gwreiddiau mewn statud yn Neddf yr Alban 2016, ac yn ôl yr arfaeth, ym Mil Cymru sydd gerbron y Senedd ar hyn o bryd. Mae hyn yn golygu, os torrir y Confensiwn, na all dim canlyniadau cyfreithiol ddeillio o hynny, er, fel y dywedodd y llys, y gall fod canlyniadau gwleidyddol, ac mae bosibl y bydd canlyniadau o'r fath. Gallai canlyniadau gwleidyddol o'r fath fod yn bwysig, yn enwedig gan y byddai gan Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon, mewn egwyddor, yr un disgwyliadau ag a fyddai gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o ran rhoi'r Confensiwn ar waith. Yn ogystal â hyn, pwysleisiodd y Goruchaf Lys "rôl bwysig" Confensiwn Sewel o ran hwyluso cysylltiadau cytûn rhwng Senedd y Deyrnas Unedig a'r deddfwrfeydd datganoledig. Nid oedd y Llys yn ceisio lleihau'r rôl honno; ond egluro'n syml egluro mai rôl wleidyddol, yn hytrach na rôl gyfreithiol oedd hi.

**294.** Wrth ymgynghori, gofynnwyd i randdeiliaid roi enghreifftiau o feysydd lle y gallai cyflwyno 'Bil Diddymu' arwain at oblygiadau i Gymru. Mae'r crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn rhoi manylion y materion a godwyd, ac mae hyn yn cynnig man cychwyn da ar gyfer ein gwaith dadansoddi manwl yn y maes hwn yn y dyfodol.

---

<sup>190</sup> Fe'i felwid gynt yn R (on the application of Miller and ANother) v Secretary of State for Exiting the European Union [2017] UKSC 5.

## Ein barn ni

---

**295.** Credwn y dylai Llywodraeth y Deyrnas Unedig barchu ysbryd cyfansoddiadol Confensiwn presennol Sewel fel y mae'n berthnasol i Gymru, ac y dylai geisio cydsyniad y Cynulliad ar gyfer unrhyw ddarpariaethau yn y Bil Diddymu a fyddai o fewn cymhwysedd y Cynulliad neu a fyddai'n newid y cymhwysedd hwnnw, ni waeth a fydd adran 2 o Fil Cymru mewn grym ar yr adeg berthnasol neu beidio.

**296.** Rydym yn gwneud gwaith paratoi er mwyn inni fod mewn sefyllfa i ymateb yn gyflym pan gyflwynir y Bil. Rydym yn bwriadu ymgysylltu â rhanddeiliaid i nodi materion manwl a fydd yn codi sy'n berthnasol i Gymru pan gyflwynir 'Bil Diddymu' yn ystod chwarter cyntaf 2017, h.y. cyn y bwriedir ei gyflwyno.



## 12. Bil Parhad

**297.** Mewn perthynas â'r drafodaeth am y 'Bil Diddymu' mae rhywfaint o drafodaeth wedi bod am y syniad o gyflwyno 'Bil Parhad' i'w ystyried gan y Cynulliad. Syniad Bil o'r fath fyddai ailddatgan bod y canlynol yn bodoli, yng nghyfraith Cymru:

- yr holl gyfraith ddomestig sy'n berthnasol i Gymru a wneir at ddibenion rhoi unrhyw rwymedigaeth/disgresiwn sy'n berthnasol i gyfraith yr Undeb Ewropeaidd ar waith,
- yr holl hawliau a'r rhwymedigaethau sy'n uniongyrchol berthnasol/uniongyrchol effeithiol sy'n deillio o gyfraith yr Undeb Ewropeaidd,

sy'n dod o fewn cymhwysedd y Cynulliad.

**298.** Y bwriad fyddai achub y blaen ar unrhyw gam i ddiddymu Deddf Cymunedau Ewropeaidd 1972, a hefyd wneud y 'Bil Diddymu' yn ddiangen, cyn belled ag y byddai meysydd polisi datganoledig yng Nghymru dan sylw.

**299.** Fodd bynnag, ni allai Bil Cynulliad o'r fath warchod yn llwyr barhad cyfraith sydd â'i gwraidd yn yr Undeb Ewropeaidd mewn meysydd polisi datganoledig yng Nghymru. Mae dau reswm dros hyn.

**300.** Y cyntaf yw sofraniaeth Seneddol. Gallai Senedd y Deyrnas Unedig ddiddymu Deddf Cynulliad. Yn ôl y confensiwn, ni ddylai wneud hynny oni fyddai'r Cynulliad yn cydsynio; ond o dan yr amgylchiadau eithriadol hyn, gallai Llywodraeth y Deyrnas Unedig geisio defnyddio'i mwyafrif yn Nhŷ'r Cyffredin i wthio diddymiad mor ddadleuol drwodd er y byddai hynny'n groes i gonfensiwn Sewel. Byddai cam o'r fath, fodd bynnag, yn debygol o dynnu sylw at sut y byddai pwerau'n cael eu dosbarthu ar ôl Brexit, a gellid dadlau y byddai hynny o fudd i Gymru.

**301.** Yr ail reswm yw bod gan Weinidogion Llywodraeth y Deyrnas Unedig y pwerau ar hyn o bryd i ddiwygio neu ddiddymu swm mawr o ddeddfwriaeth sy'n effeithio ar feysydd polisi datganoledig yng Nghymru ac sydd â'u gwraidd yng nghyfraith yr Undeb Ewropeaidd. Gallai'r 'Bil Parhad' geisio dileu'r pwerau hynny sydd gan Weinidogion y Deyrnas Unedig - naill ai'n benodol neu drwy oblygiad. Mewn llawer achos, mae hyn yn debygol o fod y tu allan i gymhwysedd y Cynulliad oni fydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn cydsynio iddo - sy'n ymddangos yn annhebygol. Felly, efallai y byddai angen i Fil y Cynulliad adael y rhan fwyaf o'r pwerau hyn sydd gan Weinidogion y Deyrnas Unedig heb eu cyffwrdd. Byddai hyn yn golygu y byddai iddo wendid o bwys o ran amddiffyn y ffordd y mae'r gyfraith sydd â'i gwraidd yn yr Undeb Ewropeaidd yn berthnasol i feysydd polisi datganoledig yng Nghymru.

**302.** Yn ein cyfarfod ar 23 Ionawr 2017, gofynnwyd i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol i ba raddau y bu Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn ymwneud â'r gweinyddiaethau datganoledig:

---

“There has been engagement, but it's been at lawyer to lawyer level so far. I know that lawyers in all devolved administrations have been asked to provide information to help the people who will be responsible for drafting the Bill. ... This needs to be stepped-up, significantly stepped-up.”<sup>191</sup>

---

<sup>191</sup> RoP EAAL Committee 23 January 2017

## Ein barn ni

---

**303.** Pan fyddwn wedi cael cyfle i ystyried y Bil Diddymu, a phetai ein dadansoddiad yn awgrymu ei fod yn tarfu ar y setliad datganoli, byddem yn cefnogi egwyddor gwarchod y setliad datganoli drwy gyflwyno 'Bil Parhad i Gymru'.

## Cynigion Cydsyniad Deddfwriaethol

---

**304.** Gallai proses Brexit olygu sawl Deddf gan Senedd y Deyrnas Unedig a gall fod angen cydsyniad deddfwriaethol y Cynulliad ar gyfer unrhyw un o'r rhain neu ar gyfer pob un ohonynt. Deddf i awdurdodi Llywodraeth y Deyrnas Unedig i gychwyn hysbysiad o dan Erthygl 50 fydd y gyntaf. Yna, mae'n bosibl y byddai'r 'Bil Diddymu', a drafodwyd eisoes yn yr adroddiad hwn. Mae'n bosibl hefyd y byddai Deddf Seneddol i gymeradwyo'r cytundeb ynglŷn â thelerau'r Deyrnas Unedig yn gadael yr Undeb Ewropeaidd. Ac mae'n bosibl y gallai fod Deddf ar wahân sy'n cymeradwyo'r telerau ar gyfer perthynas y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd yn y dyfodol, neu, fel sy'n digwydd gan amlaf, yn rhoi effaith mewn cyfraith ddomestig i delerau'r berthynas honno yn y dyfodol (fel y rhoddodd Deddf Cymunedau Ewrop 1972 effaith mewn cyfraith ddomestig i'n perthynas â'r Undeb Ewropeaidd).

## Ein barn ni

---

**305.** Yn ein barn ni, er mwyn sicrhau priodoldeb cyfansoddiadol, byddai gofyn cael cydsyniad y Cynulliad ar gyfer yr holl Ddeddfau posibl sy'n gysylltiedig â Brexit a gyflwynid gan Senedd y Deyrnas Unedig ac y cyfeiriwyd atynt uchod.

## 13. Y tu hwnt i gonfensiwn Sewel

**306.** Bydd Confensiwn Sewel yn berthnasol pan fydd Senedd y Deyrnas Unedig yn deddfu ar faterion y bydd deddfwrfa ddatganoledig fel rheol yn ymdrin â hwy fel rhan o'i gwaith. O dan delerau'r Confensiwn, ni fydd hyn ond yn digwydd pan fydd y deddfwrfa ddatganoledig wedi cydsynio. Nid yw'r Confensiwn yn gyfreithiol gyfrwymol, er ei fod yn wleidyddol bwysig – pwynt a eglurwyd gan y Goruchaf Lys ar 24 Ionawr 2017.

**307.** Y tu hwnt i ystyried a oes gofyn cael cynnig cydsyniad deddfwriaethol, mae cwestiwn ehangach o hyd ynghylch a ddylai fod gan y Cynulliad rôl yn cytuno ar agweddau o'r broses sydd y tu hwnt i gwmpas y confensiwn presennol. Mae'r rhan fwyaf o'r dystiolaeth rydym wedi'i chael hyd yn hyn yn canolbwyntio ar rôl llywodraethau datganoledig a deinameg y pŵer rhyngddynt hwy a Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Mae angen rhagor o waith ar rôl y Cynulliad yn y broses.

**308.** Clywsom dystiolaeth gan sawl academydd a oedd yn awgrymu y gellid dadlau o blaid ceisio cydsyniad deddfwrfeydd datganoledig i gadarnhau cytuniadau masnach rhyngwladol lle y bydd y rheini'n berthnasol i gymwyseddau datganoledig neu'n effeithio arnynt.<sup>192</sup>

**309.** Gan ategu sylwadau'r Athro Keating yn ein cyfarfod ar 7 Tachwedd 2016, barn Mr Paun oedd:

“My interpretation of the legal position is that there’s obviously an argument that the UK Government has made, and may well continue to make, that under the terms of all the devolution legislation, relations with the EU are in the category of reserved powers, but I think, like Michael Keating, on Brexit, that argument is going to be quite difficult to sustain, because withdrawing from the European Union is clearly going to affect quite significantly the operation of the devolution settlements, the powers and budgets of the devolved governments, and therefore it seems to me highly likely that legislative consent will be debated and voted upon at the devolved level.”<sup>193</sup>

**310.** Yn yr un cyfarfod, dywedodd y Prif Weinidog y dylid cael pleidlais ar y cytundeb terfynol ym mhedair gwahanol Senedd y Deyrnas Unedig.<sup>194</sup>

**311.** Yn ein cyfarfod ar 16 Tachwedd 2016, gofynnwyd i'r Cwnsler Cyffredinol am ei farn ynghylch a oedd angen cymeradwyaeth y Cynulliad. Ei ymateb oedd *“I think it’s inevitable that the matter will come before the Assembly and will come in the form of an LCM.”*<sup>195</sup>

**312.** Dywedodd Prif Weinidog y Deyrnas Unedig yn ei haraith ar 17 Ionawr:

“... the Government will put the final deal that is agreed between the UK and the EU to a vote in both Houses of Parliament, before it comes into force.”<sup>196</sup>

**313.** Ni soniodd o gwbl yn ei haraith am gynnig pleidlais i'r deddfwrfeydd datganoledig.

<sup>192</sup> Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol, 19 Medi 2016 c.18-19

<sup>193</sup> Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol, 7 Tachwedd 2016 c.324

<sup>194</sup> Ibid c.22

<sup>195</sup> Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol, 16 Tachwedd 2016 c 108

<sup>196</sup> Swyddfa Prif Weinidog y DU, 10 Downing Street, *The UK government's negotiating objectives for exiting the EU: Araith y Prif Weinidog*, 17 Ionawr 2017

## Ein barn ni

---

**314.** Credwn y dylid ehangu'r confensiwn hwn er mwyn ei gwneud yn ofynnol cael cydsyniad deddfwrfeydd datganoledig o dan amgylchiadau lle byddai camau anneddfwriaethol yn effeithio ar gymhwysedd datganoledig, er enghraifft yng nghyswllt cytuniadau masnach rhyngwladol. Byddai hyn, wrth gwrs, yn cynnwys y rhai sy'n berthnasol i'r Undeb Ewropeaidd.

# Atodiad A - Cylch Gwaith y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 28 Mehefin 2016. Ar 15 Medi 2016 cytunwyd ar ei gylch gwaith fel a ganlyn:

- (a) archwilio'r goblygiadau i Gymru oherwydd i'r Deyrnas Unedig benderfynu gadael yr Undeb Ewropeaidd a sicrhau bod buddiannau Cymru yn cael eu diogelu yn ystod y broses adael, mewn unrhyw berthynas newydd â'r UE ac yn nhrefniadau gwledydd y DU ar ôl gadael ar gyfer materion perthnasol o ran polisi, cyllid a deddfwriaeth;
- (b) cydlynu gweithgarwch ar draws pwyllgorau'r Cynulliad mewn perthynas â phwynt (a) uchod;
- (c) cyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol fel y'u nodir yn Rheolau Sefydlog 21.8 i 21.11, gyda newid canlyniadol i gylch gwaith y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol;
- (d) ystyried unrhyw fater arall, gan gynnwys deddfwriaeth, a gyfeirir ato gan y Pwyllgor Busnes.

## Atodiad B - Rhestr o'r dystiolaeth

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Gellir gweld trawsgrifiadau'r cyfarfodydd yn

<http://senedd.cynulliad.cymru/mglIssueHistoryHome.aspx?Ild=15161>

12 Medi 2016	
Y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones	Y Prif Weinidog
Des Clifford	Cyfarwyddwr Swyddfa'r Prif Weinidog
Piers Bisson	Dirprwy Gyfarwyddwr, Pontio Ewropeaidd
19 Medi	
Dr. Jo Hunt	Prifysgol Caerdydd
Dr. Ricardo Pereira	Prifysgol Caerdydd
Yr Athro Steve Peers	Prifysgol Essex
Yr Athro Alan Matthews	Coleg y Drindod, Dulyn
Yr Athro Alan Swinbank	Prifysgol Reading
Yr Athro Patrick Minford	Prifysgol Caerdydd
Yr Athro Stephen Woolcock	Ysgol Economeg Llundain
3 Hydref 2016	
Yr Athro Iwan Davies	Prifysgol Abertawe
Yr Athro Colin Riordan	Prifysgol Caerdydd
Neville Davies	
10 Hydref 2016	
Dr Nerys Llewelyn Jones	Cyfreithwyr AgriAdvisor
Yr Athro Janet Dwyer	Prifysgol Caerloyw
Yr Athro Wyn Grant	Prifysgol Warwick
Yr Athro Peter Midmore	Prifysgol Aberystwyth
Yr Athro Richard Barnes	Prifysgol Hull
Griffin Carpenter	New Economics Foundation

17 Hydref 2016	
Michael Trickey	Ysgol Fusnes Caerdydd
Victoria Winckler	Sefydliad Bevan
Yr Athro Marcus Longley	Prifysgol De Cymru
31 Hydref 2106	
Yr Athro Bob Lee	Prifysgol Birmingham
Dr Victoria Jenkins	Prifysgol Abertawe
Kerry Lewis	Prifysgol Aberystwyth
Dr Charlotte Jennie Burns	Prifysgol Efrog
Dr Richard Cowell	Prifysgol Caerdydd
Yr Athro Dickon Howell	Prifysgol Newcastle
Dr Stephen Hull	Associated British Ports Marine Environmental Research
Yr Athro Volker Roeben	Prifysgol Abertawe
Dr Margherita Pieraccini	Prifysgol Bryste
7 Tachwedd 2016	
Y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones AC	Y Prif Weinidog
Piers Bisson	Llywodraeth Cymru
Andrew Slade	Llywodraeth Cymru
Dr Joanne Hunt	Prifysgol Caerdydd
Dr Rachel Minto	Prifysgol Caerdydd
Yr Athro Roger Scully	Prifysgol Caerdydd
Dr Lee McGowan	Prifysgol y Frenhines, Belfast
Yr Athro Michael Keating	Prifysgol Aberdeen
Dr Akash Paun	Y Sefydliad Llywodraeth
14 Tachwedd 2016	
Mick Antoniw AC	Cwmsler Cyffredinol Cymru
Jeff Godfrey	Cyfarwyddwr yr Adran Gwasanaethau Cyfreithiol, Llywodraeth Cymru



21 Tachwedd 2016	
Gerald Holtham	Prifysgol De Cymru
Syr Emyr Jones Parry	Cymdeithas Ddysgedig Cymru
Yr Athro Peter Halligan	Cymdeithas Ddysgedig Cymru